

Strategaeth Mynd i'r afael â Cham-drin Plant yn Rhywiol

2021



HM Government

Cynnwys

Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref	3
Crynodeb Gweithredol	5
Amcan 1. Mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol a dod â throseddwy o flaen eu gwell	5
Amcan 2. Atal troseddu ac aildroseddu	6
Amcan 3. Amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc, a chefnogi'r holl ddioddefwyr a goroeswyr	7
Rhan 1: Ein hegwyddorion a fframwaith	10
Cwmpas Daearyddol y Strategaeth	13
Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol	14
Rhan 2: Beth ydym yn ei wybod am gam-drin plant yn rhywiol?	15
2.1 Graddfa a chyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol	16
2.2 Natur gudd cam-drin plant yn rhywiol	19
2.3 Beth ydym yn ei wybod am ddioddefwyr a goroeswyr?	22
2.4 Efallai y bydd rhai'n fwy tebygol o gael eu cam-drin nag eraill	22
2.5 Beth yw effaith cam-drin plant yn rhywiol?	24
2.6 Deall cyflawniad cam-drin plant yn rhywiol	27
2.7 Natur ddatblygol troseddu cam-drin plant yn rhywiol	30
2.8 Nodweddion, cymhellion a phrofiadau bywyd cyflawnwyr cam-drin plant yn rhywiol	31
2.9 Gyrru ymateb sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, ar sail tystiolaeth	32
2.10 Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gam-drin plant yn rhywiol?	33
Rhan 3: Ein huchelgais ar gyfer y dyfodol	35
Amcan 1: Mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol a dod â throseddwy o flaen eu gwell	35
1.1 Adeiladu gallu yn y system cyfiawnder troseddol	36
1.2 Gwneud y mwyaf o adnoddau, cryfhau cudd-wybodaeth a sbarduno cydweithredu	37
1.3 Gwella'r offer a'r pwerau sydd ar gael i orfodi'r gyfraith	39
1.4 Defnyddio technoleg sy'n arwain y byd i fynd i'r afael â deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein	42
1.5 Dod â throseddwy o flaen eu gwell	43
Amcan 2: Atal troseddu ac aildroseddu	46
2.1 Rhwystro troseddwyr posibl	46
2.2 Gwella rheolaeth ar droseddwy mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf	48
2.3 Gwella rheolaeth ar droseddwy yn y gymuned	49
2.4 Gwella gweithio amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth i reoli troseddwy yn effeithiol	52
Amcan 3: Amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc, a chefnogi'r holl ddioddefwyr a goroeswyr	53
3.1 Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, gofalwyr a theuluoedd	54
3.2 Cryfhau rôl diwydiant	57
3.3 Atal camdriniaeth mewn cymunedau lleol	59
3.4 Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl	62
3.5 Cryfhau'r modd nodi ac ymyrryd yn gynnar mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol	67

3.6 Sbarduno gwaith amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth i asesu risg, ymyrryd yn gynnar ac atal niwed	70
3.7 Gweithio'n rhyngwladol i atal cam-drin plant yn rhywiol a mynd i'r afael â throseddu trawswladol rhyw â phlant	72
3.8 Cefnogi'r holl ddioddefwyr a goroeswyr	76
Geirfa	85
Llyfryddiaeth	88

Rhagair yr Ysgrifennydd Cartref



Trwy gydol fy ngyrfa mewn gwleidyddiaeth, rwyf wedi ymgychu'n ddi-baid dros ddioddefwyr troseddu. Rwyf yn credu'n gryf fod dyletswydd arnom i amddiffyn a chefnogi'r rhai sy'n cael eu targedu, eu hecsbloetio a'u niweidio gan droseddwy. Rwyf yn hollol glir bod cadw ein plant yn ddiogel yn un o rolau mwyaf sylfaenol y Wladwriaeth. Ac, fel Yr Ysgrifennydd Cartref, mae'n gyfrifoldeb rwyf yn ei gymryd o ddifrif.

Ledled y Deyrnas Unedig a'r byd, mae plant yn destun camdriniaeth rywiol erchyll sy'n cael effaith ddinistriol ar eu bywydau. Rwyf wedi gweld o lygad y ffynnon sut mae ein Hasiantaeth Troseddau Cenedlaethol yn targedu'r rhwydweithiau troseddwy ar-lein mwyaf ffaidd sy'n ymwneud â threisio ac arteithio plant. Rwyf wedi siarad â dioddefwyr a chymunedau a gafodd eu difrodi gan grwpiau o ysglyfaethwyr mewn trefi a dinasoedd ledled y wlad, lle mae ymchwiliadau proffil uchel wedi datgelu cam-drin plant yn rhywiol ar raddfa wirioneddol ysgytwol. Nid yw hyn ond wedi caledu fy mhenderfyniad i wneud popeth o fewn ein gallu i gynorthwyo'r heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill ar y rheng flaen i ddod â throseddwy o flaen eu gwell a chefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr. Mae achosion fel y rhai yn Rotherham yn staen ar gydwybod y wlad hon - a rhaid gweithredu arnynt. Yn y gorffennol, roedd diwylliant o wadu a fethodd â chydabod bod troseddwy yn bodoli ym mhob rhan o gymdeithas yn calonogi'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau ffaidd hyn. Rhaid i ni beidio â gadael i hyn ddigwydd eto. Byddaf yn gwneud popeth o fewn fy ngallu i sicrhau ein bod yn dysgu gwersi'r gorffennol - ac ni fyddwn yn gadael unrhyw garreg heb ei throi yn ein brwydr i ddod o hyd i'r troseddwy ac amddiffyn plant rhag y troseddau ffaidd hyn.

Er mwyn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar ei holl ffurfiau, mae angen i bawb chwarae eu rhan. Dyna pam yr wyf yn cyflwyno strategaeth genedlaethol i sbarduno gweithredu ar draws pob rhan o'r Llywodraeth, ar draws pob asiantaeth, yr holl sectorau, elusennau, cymunedau, cwmnïau technoleg a chymdeithas yn ehangach. Fel y strategaeth gyntaf o'i math, hon fydd ein glasbrint ar gyfer mynd ar drywydd camdrinwyr yn ddi-baid wrth roi dioddefwyr a goroeswyr wrth galon ein hymagwedd.

Mae gan y DU hanes balch fel yr arweinydd byd-eang o ran mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol. Ac eto er gwaethaf cynnydd o ran tynnu'r cam-drin dinistriol hwn allan o'r cysgodion, wrth ddiogelu plant ac wrth gefnogi dioddefwyr a goroeswyr, mae'n ddyled arnom i'r rhai y mae'r troseddau hyn yn effeithio arnynt i wneud mwy i'w hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae'n hanfodol ein bod yn tarfu ar bob math o drosedd ac yn darparu'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ddioddefwyr a goroeswyr i ailadeiladu eu bywydau - p'un a yw'r cam-drin hwnnw o fewn y teulu, wedi'i drefnu gan rwydweithiau troseddol, o fewn sefydliadau, neu wedi'i drefnu gan y rhai sy'n cuddio ar-lein.

Ni fyddaf yn goddef y troseddau hyn, p'un a ydynt yn digwydd gartref, mewn cymunedau neu ar-lein. Rwyf yn hollol glir na ddylid trin y rhai sy'n cam-drin plant o bell o bob cwr o'r byd â llai o ddifrifoldeb na'r rhai sy'n cam-drin plant yn bersonol.

Rydym yn gwybod bod COVID-19 wedi cael effaith ddwys ar ein cymdeithas. Mae'r pandemig wedi creu heriau sylweddol i wasanaethau rheng flaen, ac mae mesurau a weithredwyd i atal y feirws rhag lledaenu o bosibl wedi cynyddu'r risg o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac yn y cartref.

Mae'r Strategaeth hon yn cydnabod y materion hynny ac mae'r Llywodraeth wedi gweithredu'n gyflym i liniaru'r risgiau. Mae'r £30 miliwn ychwanegol o gyllid a gyhoeddwyd yn rownd wario 2020, gan barhau ag ymgodiad cyllid 2019, yn adlewyrchu ein hymrwymiad diwro i gryfhau ein hymateb i gam-drin plant yn rhywiol.

Yn anad dim, mae'r Strategaeth hon yn anfon neges glir at y rhai sy'n cam-drin ein plant: os ydych yn credu y gallwch gyrchu delweddau cam-drin plant heb gosb, meithrin perthynas amhriodol â phlant, camddefnyddio swyddi ymddiriedaeth - meddylwch eto, byddwch yn talu am eich troseddau. Rydym yn buddsoddi yn y dechnoleg orau, y gudd-wybodaeth orau a'r galluoedd gorau i orfodi'r gyfraith. Fe fyddwn yn dod o hyd i chi a byddwn yn dod â chi o flaen eich gwell. Ac i ddioddefwyr, goroeswyr a'r rhai sydd mewn perygl - byddwn yn clywed eich llais, byddwn yn eich amddiffyn a byddwn yn sicrhau eich bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnoch.



Priti Patel

Yr Ysgrifennydd Cartref

Crynodeb Gweithredol

Mae'r Strategaeth arloesol hon yn nodi uchelgais y Llywodraeth i atal, taclo ac ymateb i bob math o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n canolbwyntio ar dri amcan allweddol sydd yn gorgyffwrdd ac yn atgyfnerthu ei gilydd, gan gydnabod natur gymhleth, gydgyssylltiedig y drosedd hon a'r ymateb system gyfan sydd ei hangen arno. Nid yw'r amcanion a amlinellir wedi'u nodi yn nhrefn eu blaenoriaeth. Mae cysylltiad annatod rhwng y tri a byddwn yn sbarduno'r tri ymlaen â'r un ffocws i amddiffyn plant, mynd i'r afael â throseddau a chefnogi'r holl ddioddefwyr a goroeswyr.

Byddwn yn dwyn ein hunain i gyfrif ac yn dysgu o ddata a mewnwleidiad a gesglir ar draws y system i ddangos yn amlwg ein bod yn:

- Tynnu'r troseddau cudd hyn allan o'r cysgodion trwy nodi mwy o gamdriniaeth a diogelu mwy o blant trwy droseddau a gofnodir gan yr heddlu, data gofal cymdeithasol plant ac adroddiadau arolygiaeth annibynnol;
- Dod â mwy o droseddswyr o flaen eu gwell a chynyddu treialon effeithiol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, yn seiliedig ar ddata o bob rhan o'r system cyfiawnder troseddol;
- Gwella ansawdd ac argaeledd cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr, gan dynnu ar fewnwleidiad gan bartneriaid cyflenwi a thrydydd sector; ac,
- Atal y troseddau ofnadwy hyn rhag digwydd yn y lle cyntaf yn seiliedig ar asesiadau bygythiad gorfodi'r gyfraith a data arolwg gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Amcan 1. Mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol a dod â throseddswyr o flaen eu gwell

1. **Er mwyn lleihau'r bygythiad o gam-drin plant yn rhywiol, bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod gorfodi'r gyfraith, asiantaethau cudd-wybodaeth ac adrannau perthnasol yn cydweithredu ac yn cydlynu eu gwaith yn effeithiol**, gan wneud y defnydd gorau o'n hadnoddau ar y cyd i fynd ar drywydd troseddswyr yn ddi-baid. Bydd yr Asiantaeth Troseddau Cenedlaethol (NCA) yn parhau i arwain yr ymateb weithredol gan y deutor gorfodi'r gyfraith, mewn partneriaeth â Chyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).
2. Gan ddefnyddio mwy o fuddsoddiad gan y Swyddfa Gartref, byddwn yn tynnu ynghyd ddata a mewnwleidiad o bob rhan o'r sector gorfodi'r gyfraith, asiantaethau cudd-wybodaeth, diwydiant a sefydliadau anllywodraethol (NGOs) i ddatgelu graddfa lawn a gwir natur cam-drin plant yn rhywiol, **gan alluogi'r holl bartneriaid sy'n brwydro yn erbyn y drosedd hon i dargedu ymyriadau yn effeithiol a mynd i'r afael â'r troseddswyr sydd yn achosi'r niwed uchaf.**
3. **Bydd y Swyddfa Gartref yn adeiladu gallu gorfodi'r gyfraith ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol**, gan oresgyn y rhwystrau i ddatblygu achosion cam-drin plant yn rhywiol trwy fuddsoddi i brosesu'r ôl-groniadau mewn tystiolaeth ffforensig ddigidol yn gyflymach er mwyn nodi mwy o ddioddefwyr a throseddswyr. Atgyfnerthir yr ymdrechion hyn gan welliannau ehangach i'r system cyfiawnder troseddol trwy 20,000 o swyddogion heddlu ychwanegol, 10,000 o leoedd carchar a buddsoddiad o £85 miliwn yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron (CPS).

4. **Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth yr offer a'r pwerau cyfreithiol cywir i frwydro yn erbyn y drosedd hon,** trwy wella dealltwriaeth ac ymateb y sector gorfodi'r gyfraith i fregusrwydd trwy gyflenwi'r [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Bregusrwydd](#), yn ogystal ag archwilio pwerau a gorchmynion sifil newydd neu wedi'u diweddarau i fynd i'r afael â throseddu.
5. **Ein nod yw sicrhau nad oes lleoedd diogel ar-lein i droseddwy'r gam-drin a cham-fanteisio ar blant.** Ar draws yr NCA, Pencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ), y Seiber-lu Cenedlaethol (NCF) a'r sector gorfodi'r gyfraith yn ehangach, bydd y Swyddfa Gartref yn buddsoddi mewn datblygu galluoedd technolegol newydd i ddod â throseddwy'r mwy soffistigedig o ran techneg o flaen eu gwell a helpu ein partneriaid i nodi a diogelu mwy o ddioddefwyr a goroeswyr. Mae hyn yn cynnwys gwella'r defnydd o Gronfa Ddata Delweddu Cam-drin Plant (CAID) sy'n arwain y byd.
6. **Er mwyn dod â mwy o droseddwy'r o flaen eu gwell, byddwn yn gweithio ar draws y Llywodraeth i wella ymateb y system cyfiawnder troseddol i bob math o gam-drin rhywiol,** gan herio mythau ynghylch y math hwn o drosedd, diweddarau canllawiau i erlynwyr a'u hyfforddi ar effaith trawma ar y cof. Byddwn yn sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr sy'n mynd trwy broses y llys yn cael eu trin yn briodol ac yn gweithio i gynyddu nifer y treialon effeithiol ar gyfer achosion cam-drin plant yn rhywiol.
7. **Byddwn yn arfogi asiantaethau lleol i ddatblygu strategaethau wedi'u seilio ar y lle sy'n ymateb i fygythiadau yn eu cymunedau, megis camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau.** Gan adeiladu ar ganfyddiadau ein papur polisi diweddar ar droseddau mewn grŵp, byddwn yn ymgysylltu â phartneriaid cyfiawnder troseddol, academyddion, melinau trafod, elusennau a gweithwyr proffesiynol rheng flaen i wella ystod, ansawdd a dadansoddiad y data a gesglir. Trwy fuddsoddiadau yng nghudd-wybodaeth yr heddlu a dadansoddi camfanteisio, byddwn yn gwella polisi'r llywodraeth ac yn llywio ymatebion ar lefel leol. Mae hyn ochr yn ochr â gwella ein Pecyn Cymorth Tarfu ar Gamfanteisio ar Blant, a chefnogi ymgysylltu â'r gymuned i wella diogelwch mewn mannau cyhoeddus, atal troseddwy'r ac annog gwylwyr i riportio.

Amcan 2. Atal troseddau ac aildroseddau

8. **Bydd y Swyddfa Gartref yn gweithio i rwystro unigolion rhag ymddygiad ymosodol pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl,** gan fuddsoddi mewn ymgyrchoedd addysg gyhoeddus ar sail tystiolaeth a all atal troseddau trwy ddarparu cyngor a gwybodaeth i droseddwy'r posibl a'r rhai sy'n agos atynt. Byddwn hefyd yn datblygu ein dealltwriaeth o gymhellion a llwybrau troseddwy'r, gan ddefnyddio ymyriadau ar sail tystiolaeth i atal y troseddau hyn.
9. **Byddwn yn amddiffyn dioddefwyr a goroeswyr a'r cyhoedd yn ehangach trwy ddedfrydu cryfach sy'n gymesur â throseddau troseddwy'r,** gan sicrhau bod troseddwy'r rhywiol a threisgar difrifol yn aros yn y carchar yn hwy, fel yr amlinellir yn y Papur Gwyn [Papur Gwyn](#) dan arweiniad y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MoJ).
10. **Byddwn yn ceisio atal aildroseddau trwy ein diwygiadau helaeth i'r gwasanaeth prawf a chmau gweithredu i gryfhau rheolaeth ar droseddwy'r rhyw,** gan gynnwys hyfforddiant mwy effeithiol i staff carchardai a phrawf, asesu risg a defnyddio ymyriadau.

11. **Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod rheolaeth yr heddlu ar droseddwy'r rhyw cofrestredig (RSOs) yn y gymuned mor effeithiol â phosibl o dan Drefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd (MAPPA),** gan gynnwys canfod troseddu ac aildroseddu. Fe wneir rheoli RSOs yn y gymuned yn gryfach trwy roi'r pŵer i'r sector gorfodi'r gyfraith weithredu amodau cadarnhaol ar weithredoedd troseddwy'r trwy orchmynion sifil, yn ogystal â threialu technoleg i helpu'r sector gorfodi'r gyfraith i nodi aildroseddu ar-lein.
12. **Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a'i phartneriaid allweddol ym maes rheoli troseddwy'r yn gwella gweithio amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth fel bod gwasanaethau'n cydweithio'n well i amddiffy plant rhag niwed,** gan gynnwys gwella'r gronfa ddata gwybodaeth MAPPA a ddefnyddir i reoli troseddwy'r, yn ogystal â chryfhau safonau diogelu mewn carchardai a phrawf.

Amcan 3. Amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc, a chefnogi'r holl ddioddefwyr a goroeswyr

13. **Byddwn yn gwella'r wybodaeth a ddarperir i rieni, gofalmwy'r a'r cyhoedd yn ehangach am gam-drin plant yn rhywiol,** gan ddefnyddio cyfathrebiadau'r Llywodraeth ac adolygu Sarah's Law [Deddf Sarah] (y Cynllun Datgelu Troseddwy'r Rhyw Plant), fel bod oedolion allweddol yn cael eu grymuso â'r cyngor a'r offer sydd eu hangen arnynt i nodi risg a chadw plant yn ddiogel rhag cam-drin rhywiol.
14. **Byddwn yn addysgu plant a phobl ifanc am berthnasoedd iach a'r byd digidol,** gan gynnwys trwy gyflwyno Perthnasoedd, Addysg Rhyw ac Iechyd a Strategaeth Llythrennedd y Cyfryngau. I'r rhai a allai fod mewn mwy o berygl, **byddwn yn darparu cymorth wedi'i dargedu sy'n amddiffyn plant a phobl ifanc rhag troseddwy'r sy'n ceisio manteisio ar eu gwendidau,** gan gynnwys trwy'r Gronfa Perthnasoedd Dibynadwy dan arweiniad y Swyddfa Gartref, a'r Rhaglen Teuluoedd Cythryblus.
15. **Gan gydnabod effaith ddwys COVID-19 a mesurau i'w atal rhag lledaenu, bydd y Llywodraeth yn parhau i flaenoriaethu lles plant yn ein hymateb.** Mae hyn yn golygu rhoi cymorth ychwanegol ar waith i blant a staff addysgu er mwyn galluogi plant i gael eu haddysgu'n ddiogel yn ystod y cyfnod hwn, yn ogystal â helpu partneriaid lleol a thrydydd sector i gefnogi plant a theuluoedd bregus y gallai eu sefyllfaoedd fod wedi'u gwneud yn anoddach gan y pandemig.
16. **Bydd y Swyddfa Gartref a'r Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) yn lleihau cyffredinrwydd achosion o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac yn gwneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein trwy'r fframwaith Niweidiau Ar-lein sydd ar ddod.,** gan sefydlu dyletswydd gofal statudol newydd ar gyfer cwmnïau technoleg a sbarduno mabwysiadu cod ymarfer gwirfoddol dros dro i sicrhau bod cwmnïau'n gweithredu i wella diogelwch eu holl ddefnyddwyr, yn arbennig plant.
17. **Er mwyn atal cam-drin plant yn rhywiol mewn ardaloedd lleol, bydd y Llywodraeth yn gwella safonau diogelu mewn sefydliadau a lleoliadau y tu allan i'r ysgol,** gan sicrhau bod y mannau lle mae plant a phobl ifanc yn treulio eu hamser yn ddiogel, ac yn parhau cyllid y Swyddfa Gartref ar gyfer Rhaglen Atal Cymdeithas y Plant i helpu asiantaethau lleol a rhanbarthol i ddeall ac atal camfanteisio ar blant yn well.

18. Yn rhy aml, mae cam-drin plant yn rhywiol yn mynd heb ei ganfod. **Bydd y Llywodraeth yn ymdrechu i sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i nodi ac ymateb yn briodol i bob math o gam-drin plant yn rhywiol**, fel bod mwy o blant a phobl ifanc yn cael eu nodi ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Byddwn yn helpu partneriaid diogelu i weithio gyda'i gilydd trwy barhau i wella trefniadau diogelu amlasiantaethol newydd ac ehangu'r System Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Amddiffyn Plant.
19. **Gan barhau â rôl y DU fel arweinydd y byd o ran mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, byddwn yn cryfhau'r ymateb rhyngwladol ac yn amddiffyn plant dramor trwy sbarduno safonau byd-eang cyffredin a gwella systemau diogelu a gorfodi'r gyfraith mewn gwledydd allweddol sydd mewn perygl.** Mewn ymateb i unigolion sy'n teithio dramor i gam-drin plant sy'n agored i niwed yn rhywiol, byddwn yn buddsoddi yng ngallu rhyngwladol yr NCA ac yn gwneud y defnydd gorau o bwerau sy'n bodoli eisoes, megis cyfyngiadau gorchymyn sifil a hysbysu awdurdodau tramor er mwyn tarfu ar weithgareddau cyflawnwyr a dod â nhw o flaen eu gwell.
20. **Byddwn yn helpu dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol diweddar ac heb fod yn ddiweddar i ailadeiladu eu bywydau trwy wella'r cymorth sydd ar gael a datblygu ac ymgorffori arferion gorau**, gan gynnwys rhoi hwb i fuddsoddiad mewn gwasanaethau cymorth arbenigol ar gyfer trais rhywiol a ddarperir gan y sector gwirfoddol, Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol a'r Gronfa Drawsnewid ar gyfer Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o gymorth i ddioddefwyr a goroeswyr ac yn darparu'r adnoddau i gomisiynwyr lleol ddiwallu eu hanghenion ble bynnag maent yn byw yn y wlad.
21. **Ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr sy'n dewis dilyn canlyniad cyfiawnder troseddol, p'un a ydynt yn blentyn neu'n oedolyn, byddwn yn eu cefnogi i barhau i gymryd rhan ym mhroses y llys a lleihau'r risg o gael eu hail-drawmateiddio**, gan amddiffyn eu hawliau a gwella'r cymorth a gânt trwy gyfrwng Cod Dioddefwyr newydd a [diwygiedig yr MoJ](#), ac ymgynghori ar Gyfraith Dioddefwyr, a chynyddu'r defnydd o'r ystod lawn o fesurau arbennig ar gyfer dioddefwyr bregus.
22. **Er mwyn cyflawni pob un o'r tri amcan hyn, bydd angen dull cyfathrebu pwrpasol sy'n canolbwyntio ar gynulleidfaoedd â blaenoriaeth.** Yn unol â'r Strategaeth hon, mae Swyddfa'r Cabinet yn datblygu rhaglen o weithgarwch cyfathrebu i wrthsefyll cam-drin plant yn rhywiol. Bydd y rhaglen yn adeiladu ar ymgyrchoedd presennol y Llywodraeth ac yn cynnwys pedair llinyn: atal troseddu, amddiffyn plant a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr, partneru â thrydydd partïon a gwella'r rôl y mae cwmnïau technoleg yn ei chwarae wrth gadw eu defnyddwyr yn ddiogel. Bydd y gwaith hwn yn dwyn ynghyd ddisgyblaethau cyfathrebu ym meysydd digidol, data, mewnwelediad arweinyddiaeth bygythiad, gwyddor ymddygiadol a diogelwch cenedlaethol i ddeall yn well y gwahanol ffyrdd y mae cam-drin plant yn rhywiol yn digwydd ac arwain y gwaith o ddarparu ymgyrchoedd cyfathrebu i gael yr effaith fwyaf.
23. Mae'r diagram isod yn rhoi crynodeb o'n gweledigaeth ar gyfer ymateb system gyfan i bob math o gam-drin plant yn rhywiol:


Ffigur 1

Diogelu plant a phobl ifanc		Mynd i'r afael â throseddu a rheoli troseddwy'r	
Mae partneriaethau diogelu yn sbarduno gwell gwaith amlasiantaethol, ag ymarferwyr yn gallu nodi ac ymyrryd yn effeithiol mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol		Mae cudd-wybodaeth yn cael ei gwella, gan sicrhau bod adnoddau'n cael eu blaenoriaethu yn fwyaf effeithiol	Mae rheolaeth ar droseddwy'r rhyw yn y carchar a'r gymuned yn cael ei chryfhau
Mae sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant yn atal troseddwy'r rhag cael mynediad at blant, ac yn nodi a chefnogi'r rhai sydd mewn perygl	Mae gan y sector gorfodi'r gyfraith ddealltwriaeth o ddiogelu a bregusrwydd er mwyn cefnogi dioddefwyr a goroeswyr yn briodol	Mae gan wasanaethau gorfodi'r gyfraith a chudd-wybodaeth y gallu i darfu ar droseddu ar raddfa briodol, gan adael dim lleoedd diogel i droseddwy'r	
Cefnogi dioddefwyr a goroeswyr		Dod â throseddwy'r o flaen eu gwell	
Mae gan ddioddefwyr a goroeswyr sy'n blant a sy'n oedolion fynediad i'r gwasanaethau cymorth sydd eu hangen arnynt	Mae dioddefwyr a goroeswyr sy'n blant a sy'n oedolion yn cael cymorth gwell trwy gydol y system cyfiawnder troseddol	Mae'r system cyfiawnder troseddol yn ymateb yn fwy effeithiol ac effeithlon i bob math o droseddu rhywiol	
Mae pob asiantaeth yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol i ddiogelu plant a mynd i'r afael â throseddu			
Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer y rhai sydd mewn perygl		Atal troseddu	
Gall actorion cenedlaethol a lleol nodi a chefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sydd mewn perygl yn effeithiol, gan gynnwys y rhai sy'n wynebu mwy o risg oherwydd COVID-19	Mae ein sylfaen dystiolaeth ar gyfer mesurau ataliol, gan gynnwys ar gyfer ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin cyfoedion, yn fwy cadarn	Mae ein dealltwriaeth o lwybrau a chymhellion troseddwy'r yn cael ei datblygu ac yn sbarduno ymyriadau i atal troseddu yn y lle cyntaf	
Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, codi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, gofalwyr a theuluoedd, ac amddiffyn plant a phobl ifanc yn eu cymunedau			
Mae troseddwy'r yn llai abl i fanteisio ar blant a phobl ifanc trwy godi ymwybyddiaeth ymysg rhieni, gofalwyr a theuluoedd, a rhoddir mynediad i blant a phobl ifanc i fannau diogel ac oedolion dibynadwy		Rhoddir y dechrau gorau mewn bywyd i blant, gan gynnwys mynediad at wybodaeth ac addysg ynghylch ymddygiadau iach a chamdriniol	
Gweithio â diwydiant i adeiladu cydnerthedd yn erbyn cam-drin ar-lein			
Mae gwasanaethau ar-lein yn ddiogel yn fwriadol ac mae pob defnyddiwr yn gwybod ble i rriportio pryderon		Mae platfformau ar-lein yn atal, yn datgelu ac yn stopio paratoi'n amhriodol, ffrydio byw a rhannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol	
Gweithio'n rhyngwladol i godi ymwybyddiaeth a safonau byd-eang			
Codir proffil byd-eang cam-drin plant yn rhywiol, gan helpu i atal cam-drin mewn gwledydd allweddol sydd mewn perygl a sectorau rhyngwladol, ac amharu ar droseddu trawsffiniol ar-lein ac all-lein			

Rhan 1: Ein hegwyddorion a fframwaith

24. Mae Strategaeth Troseddau Cyfundrefnol Difrifol (SOC) [y Llywodraeth \(2018\)](#) yn darparu'r fframwaith trosfwaol ar gyfer ein hymateb i bob math o SOC, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, ac mae eisoes yn sbarduno newid ac yn gwella ein dull.
25. Mae gweithredu'r Strategaeth SOC yn cael ei sbarduno trwy'r Grŵp Gweithredu Strategol Cenedlaethol ar SOC a'i oruchwylio gan y Cyngor Diogelwch Cenedlaethol, a'r Pwyllgor Materion Domestig a Phwyllgor yr Undeb. Bydd y Strategaeth hon yn cael ei goruchwylio gan yr un system, ag is-set o'r Strategaeth SOC. Bydd y Swyddfa Gartref yn darparu llywodraethu cadarn i gefnogi gweithredu'r Strategaeth hon ac yn dwyn yr holl bartneriaid i gyfrif am gynnydd, gan ddod ag adrannau perthnasol y Llywodraeth ynghyd, megis yr Adran Addysg (DfE), y Weinyddiaeth Gyfiawnder, yr Adran Iechyd a Gofal Cymdeithasol (DHSC), a'r DCMS, yn ogystal â phartneriaid cyflenwi allweddol, gan gynnwys yr NCA, y GCHQ a'r NPCC, â gweithgору'n cael eu sefydlu ar faterion penodol yn ôl yr angen.
26. Dangosir y berthynas rhwng amcanion y Strategaeth hon a fframwaith cyflenwi SOC, a elwir hefyd yn '4P' - Dilyn, Paratoi, Amddiffyn ac Atal - a welir yn y diagram isod:

Ffigur 2



27. Mae pedair egwyddor graidd sy'n rhedeg trwy'r amcanion a'r camau gweithredu a amlinellir yn sail i'n hymateb system gyfan i gam-drin plant yn rhywiol.

Ffigur 3

Egwyddor 1: Cyfrifoldeb pawb yw diogelu, ac mae gan bawb rôl i atal cam-drin plant yn rhywiol

Nod canolog ein hymateb system gyfan i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yw ei atal rhag digwydd o gwbl. Rhaid i ni herio'r tabŵ a distawrwydd ynghylch cam-drin plant yn rhywiol. Mae gan bawb rôl i'w chwarae. Mae angen i ni sicrhau bod gan bob sefydliad sy'n darparu gwasanaethau i blant y mesurau diogelu cywir i ymyrryd mor gynnar â phosibl ac adeiladu ffactorau amddiffynnol mewn teuluoedd a chymunedau lleol i rwystro ymdrechion troseddwy. Rhaid i atal effeithiol gynnwys asiantaethau ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector yn ogystal â'r byd academiaidd, a gweithio ar lefelau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol.

Egwyddor 2: Mae angen i ni weithio ar draws asiantaethau a systemau i ddatgelu ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol

Mae natur gymhleth cam-drin plant yn rhywiol yn golygu mynd i'r afael ag ef y tu hwnt i gapasiti a gallu unrhyw un corff. Mae gweithio amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth ar lefelau strategol a gweithredol yn allweddol i bob rhan o'n hymateb. Bydd angen i bob adran o'r Llywodraeth, yn ogystal ag arweinwyr mewn gwahanol systemau, gan gynnwys SOC, diogelu, iechyd, addysg, rheoli troseddwy a mwy, ddod ynghyd a gweithio tuag at weledigaeth gyffredin.

Egwyddor 3: Mae angen ymateb cydweithredol arnom sy'n grymuso partneriaid lleol i ymateb i faterion lleol

Mae'r Strategaeth hon yn amlinellu dull system gyfan o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, wrth nodi'r angen i roi'r hyblygrwydd i arweinwyr lleol ymateb i'r materion lleol y maent yn eu deall orau. Mae COVID-19 wedi amlygu pwysigrwydd hyn, ac mae angen grymuso arweinwyr lleol i addasu i amgylchiadau sy'n newid.

Egwyddor 4: Mae mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yn fater byd-eang

Mae'r DU wedi cadarnhau Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn [y Cenhedloedd Unedig \(UN\)](#) a'r [Chonfensiwn Lanzarote](#), gan arddangos ein hymrwymiad i amddiffyn plant rhag camfanteisio a cham-drin rhywiol. Rydym wedi ymrwymo i [Nodau Datblygu Cynaliadwy yr UN](#), gan gynnwys targed 16.2 i roi diwedd ar gam-drin, camfanteisio, masnachu pobl a phob math o drais yn erbyn plant a'u harteithio. Mae gennym gyfrifoldeb i fynd i'r afael â throseddwy y DU sy'n cam-drin plant dramor ac i ymgysylltu â phartneriaid rhyngwladol i atal a mynd i'r afael â cham-drin ar-lein. Parhau i ddarparu arweinyddiaeth fyd-eang ar fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a sbarduno safonau rhyngwladol cyffredin yw ein dyletswydd gyfreithiol a moesol, ac mae'n allweddol i gyflawni ein holl nodau strategol.

28. Bydd yr heriau a'r nodau a nodir yn y Strategaeth hon yn cyfeirio ein gwaith i wella'r ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn y tymor hir. Byddwn yn eu defnyddio i lywio ein meddylfryd polisi a chyfeirio ein buddsoddiad yn yr Adolygiad Gwariant nesaf. Fodd bynnag, ni allwn aros i amddiffyn ein plant rhag cael eu cam-drin. Felly mae'r Strategaeth yn disgrifio'r camau pendant y byddwn yn eu cymryd nawr i sbarduno newid sylweddol yn ein hymateb. Byddwn yn diweddarau'r Strategaeth hon i sicrhau ei bod yn ystyried tystiolaeth a chudd-wybodaeth sy'n dod i'r amlwg.
29. Mae'r Strategaeth hon yn ategu'r manylion a ddarperir ym [Mhapur y Llywodraeth ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp](#) yn benodol, a gyflwynwyd ym mis Mai 2020 ac a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020. Mae'r Strategaeth hon hefyd yn adeiladu ar waith blaenorol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, fel yr [Adroddiad Mynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant](#) (2015) a'r [Adroddiad Cynnydd Mynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant](#) (2017), gan gydnabod bod maint y broblem yn galw am ddull newydd, cynhwysfawr. Mae hefyd yn tynnu ar strategaethau perthnasol ehangach a diwygiadau sector, megis [ar gyfer Dioddefwyr](#) (2018) a'r [Cyfeiriad Strategol ar Wasanaethau Cam-drin ac Ymosod yn Rhywiol](#) (2018). Byddwn hefyd yn sicrhau bod y strategaeth hon yn cael ei hategu gan y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched sydd i ddod, a gaiff ei chyhoeddi yn 2021.
30. Trwy gydol y Strategaeth, cyfeirir at ddiwygiadau ehangach sy'n digwydd ar draws y Llywodraeth a fydd yn helpu i gryfhau ein hymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Bydd yn gweithio ochr yn ochr ag ymyriadau i leihau risgiau i blant a phobl ifanc yn y gymuned, trwy raglenni sy'n mynd i'r afael â chamfanteisio'n droseddol ar blant a'r ddyletswydd gyfreithiol newydd i atal Trais Difrifol; yn ogystal â newidiadau ehangach i ddiogelu plant rhag pob math o gamdriniaeth, trwy welliant parhaus i'r trefniadau diogelu amlasiantaethol newydd a'r Adolygiad o Ofal Cymdeithasol Plant sydd ar ddod. Mae'r Strategaeth yn ategu ymyriadau i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant trwy fuddsoddi yn y blynyddoedd cynnar a gwella'r ddarpariaeth iechyd meddwl i blant trwy'r [Rhaglen Plentyn Iach](#) a'r [Papur Gwyrdd ar Atal](#). Mae hyn yn ychwanegol at welliannau systemig i'r system cyfiawnder troseddol o ganlyniad i raglen recriwtio'r heddlu, buddsoddiad mewn carchardai a'r CPS, yn ogystal â diwygiadau helaeth i'r gwasanaeth prawf.

Cwmpas Daearyddol y Strategaeth

31. Mae agweddau'r Strategaeth hon sy'n ymwneud â phlisma a chyfiawnder yn berthnasol i Gymru a Lloegr. Mae'r camau sy'n ymwneud ag iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg wedi'u datganoli ac yn berthnasol i Loegr yn unig.
32. Yng Nghymru, mae'r asiantaethau partner sy'n cymryd rhan yn yr ymateb i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol megis gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg, wedi'u datganoli ac yn gyfrifoldeb i Lywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei strategaeth ei hun, y [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Atal ac Ymateb i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#) (2019), sy'n nodi camau gweithredu i Lywodraeth Cymru a Byrddau Diogelu yng Nghymru ar faterion datganoledig er mwyn atal cam-drin plant yn rhywiol, amddiffyn plant rhag cam-drin plant yn rhywiol a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol sy'n blant.

33. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon mae'r prif asiantaethau sy'n ymwneud â'r ymateb i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol, megis plismona a'r system cyfiawnder troseddol, gofal cymdeithasol, iechyd ac addysg, wedi'u datganoli ac maent yn gyfrifoldeb i Lywodraeth yr Alban a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon.
34. Fel yr amlinellwyd yn y Papur Gwyn [Y Tiriogaethau Tramor: Diogelwch, Llwyddiant a Chynaliadwyedd](#) (2012), mae llywodraeth y DU wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth â'r Tiriogaethau Tramor i fynd i'r afael â bygythiadau sy'n deillio o SOC. Er bod Llywodraethau'r Tiriogaethau Tramor yn gyfrifol am eu hymatebion i SOC a diogelu, bydd Llywodraeth y DU yn eu cefnogi ac yn cydweithredu â hwy lle bydd angen yn eu hymdrechion i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio arnynt.
35. Er mai Strategaeth Llywodraeth y DU yw hon, mae natur fyd-eang cam-drin plant yn rhywiol yn galw am ymdrechion ar lefel ryngwladol i fynd i'r afael â'r drosedd hon a'i hatal. Felly byddwn yn parhau i ymgysylltu â phartneriaid a sefydliadau rhyngwladol i fynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol (gweler [Amcan 3.7](#)).

Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol

36. Fe wnaeth y Llywodraeth sefydlu'r [Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#) (IICSA) yn 2015 er mwyn ystyried i ba raddau y mae sefydliadau Gwladwriaethol a'r rhai nad ydynt yn Wladwriaethol wedi methu yn eu dyletswydd gofal i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr. Mae'r IICSA hefyd yn ystyried i ba raddau yr aethpwyd i'r afael â'r methiannau hyn a pha gamau pellach y gallai fod angen eu cymryd i amddiffyn plant rhag camdriniaeth o'r fath yn y dyfodol. Mae'r Ymchwiliad eisoes wedi cyhoeddi nifer o adroddiadau sydd wedi llywio'r Strategaeth hon. Byddwn yn parhau i ystyried canfyddiadau ac argymhellion yr Ymchwiliad yn ofalus ac yn eu hymgorffori yn ein hymateb system gyfan a'n Strategaeth lle bydd hynny'n briodol.

Rhan 2: Beth ydym yn ei wybod am gam-drin plant yn rhywiol?

37. Mae'r Strategaeth hon yn nodi uchelgais y Llywodraeth ar gyfer ymateb system gyfan i bob math o gam-drin plant yn rhywiol fel y'i diffinnir yn [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg mae](#) (2018):

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn cynnwys gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, heb fod o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosod trwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddiol fel mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallant hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu wrth gynhyrchu, delweddu rhywiol, gwylio gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol, neu feithrin perthynas amhriodol â hplentyn i baratoi ar gyfer cam-drin. Gall cam-drin rhywiol ddigwydd ar-lein, a gellir defnyddio technoleg i hwyluso cam-drin all-lein. Nid dynion sy'n oedolion yn unig sy'n cyflawni cam-drin rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd cam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill.

Mae'r term cam-drin plant yn rhywiol yn cwmpasu camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae cyfeiriadau yn y Strategaeth at gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cyfeirio at y math hwn o gam-drin yn benodol. Gweler y [Geirfa](#) i weld rhagor o wybodaeth am y diffiniadau a ddefnyddir.

38. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn ymddangos ar sawl ffurf a gellir ei labelu mewn gwahanol ffyrdd yn dibynnu ar ble mae'n digwydd, sut mae'n cael ei gyflawni a chan bwy. Mae'n bwysig nodi bod gwahanol fathau o droseddu'n gorgyffwrdd. Ni ddylid edrych ar droseddu yn nhermau categorïau arwahanol, unigryw na mynd i'r afael ag ef mewn ffordd neilltuoel. Er enghraifft, mae deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) a gyrchir gan droseddwy ar-lein yn aml yn ganlyniad i 'gam-drin cyswllt', lle mae plentyn wedi'i gam-drin yn bersonol.
39. Mae cael dealltwriaeth gadarn o gam-drin plant yn rhywiol yn hanfodol ar gyfer sbarduno modd atal effeithiol, gwella ein hymateb gan y sector gorfodi'r gyfraith, a sicrhau bod yr holl ddioddefwyr a goroeswyr yn cael eu diogelu a'u cefnogi. Er mwyn deall yr heriau y mae'r Strategaeth hon yn mynd i'r afael â hwy, yn gyntaf mae angen i ni amlinellu'r hyn yr ydym eisoes yn ei wybod am raddfa a natur y cam-drin hwn. Bydd yr adran hon yn ymdrin â:
- I. graddfa cam-drin plant yn rhywiol;
 - II. dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, ac effaith y troseddu hwn;
 - III. mathau a chyd-destunau'r troseddu, a sut mae hyn wedi datblygu; ac,
 - IV. y rhai sy'n cyflawni cam-drin plant yn rhywiol.
40. Mae gennym well dealltwriaeth o gam-drin plant yn rhywiol nag erioed o'r blaen. Ers 2016, mae'r Swyddfa Gartref wedi buddsoddi dros £7 miliwn yn y [Ganolfan arbenigedd annibynnol ar gam-drin plant yn rhywiol](#) (y "Ganolfan CSA") i gefnogi ymarfer ar sail tystiolaeth mewn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol. Rydym hefyd wedi cyfrannu at ymchwil y Swyddfa


Ystadegau Gwladol (ONS), wedi casglu dysgu o dystiolaeth a gynhyrchwyd gan yr IICSA, ac wedi gwrandao ar ddioddefwyr a goroeswyr sydd wedi dangos dewrder mawr wrth ddod ymlaen i rannu eu profiadau, er enghraifft fel rhan o'r **Prosiect Gwirionedd IICSA**.

41. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod mwy i'w wneud i sicrhau bod ein hymateb yn cael ei arwain yn llawn gan dystiolaeth. [Mae Rhan 2.9](#) yn amlinellu'r bylchau allweddol mewn tystiolaeth yr ydym wedi'u nodi a sut y byddwn yn mynd i'r afael â hwy.
42. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fater cymhleth. Mae'n hanfodol cydnabod a mynegi'r cymhlethdod hwn, a bod yn sensitif ac yn atblygol yn y ffordd yr ydym yn ymateb iddo. Mae hyn yn berthnasol i nodi ac aflonyddu cam-drin plant yn rhywiol, yn ogystal â chefnogi'r dioddefwyr a'r goroeswyr. Dim ond trwy gofleidio a deall y cymhlethdod hwn y gall polisi ac arfer wneud y cynnydd sydd ei angen.

2.1 Graddfa a chyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol

43. Amcangyfrifir bod 7.5% o oedolion wedi profi cam-drin rhywiol cyn eu bod yn 16 oed - tua 3.5% o ddynion ac 11.5% o fenywod - yn ôl yr arolwg mynychder diweddaraf gan yr ONS. Mae hyn yn cynrychioli amcangyfrif o 3.1 miliwn o bobl sydd wedi profi cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr - 700,000 o ddynion a 2.4 miliwn o fenywod. Gan edrych yn ehangach ar nifer o wahanol arolygon sy'n gofyn i blant ac oedolion am eu profiadau o gam-drin plant yn rhywiol, mae'r Ganolfan CSA yn awgrymu y gallai'r cyffredinrwydd fod yn uwch, gan amcangyfrif, o leiaf, bod 15% o ferched a 5% o fechgyn yn profi rhyw fath o gam-drin plant yn rhywiol.


Ffigur 4



Amcangyfrif cyffredinrwydd cam-drin plant yn rhywiol wedi'i dynnu o Ganolfan CSA: Mesur graddfa a natur newidiol cam-drin plant yn rhywiol

44. Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld cynnydd serth mewn riportio cam-drin plant yn rhywiol i'r heddlu. Cofnodwyd dros 83,000 o droseddau cam-drin plant yn rhywiol (gan gynnwys cyhoeddiadau anweddus) gan yr heddlu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, sef cynnydd o oddeutu 267% ers 2013. O'r rhain, byddai oddeutu 58,000 yn cael eu hystyried yn droseddau cyswllt, sydd wedi cynyddu 202% yn yr un cyfnod. Oherwydd y ffordd y mae'r data hyn yn cael eu casglu, a'r ffordd y mae gwahanol droseddau rhywiol yn cael eu diffinio, nid yw'r ffigurau hyn yn cipio rhai troseddau rhywiol a gyflawnir yn erbyn pobl ifanc 16 a 17 oed, megis treisio, yn ogystal ag ymosodiadau rhywiol a gyflawnir yn erbyn plant dros 13 oed. Ym mis Ionawr 2020, cyhoeddodd yr ONS ddata archwiliadol yn edrych ar droseddau rhywiol lle mae data i nodi bod y dioddefwr neu'r goroeswr yn blentyn, gan ddangos bod oddeutu 73,200 o droseddau ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019. Mae hyn yn rhoi syniad o nifer y troseddau rhywiol ychwanegol a allai fodoli nad ydynt yn cael eu cipio o dan droseddau rhywiol plentyn-benodol.
45. Fodd bynnag, dim ond ychydig o'r troseddau hyn a gofnodwyd sy'n arwain at gyhuddiad. Roedd 5,116 o gyhuddiadau am droseddau rhyw â phlant (ac eithrio delweddau anweddus o blant) a 3,135 o gyhuddiadau am droseddau cyhoeddiadau anweddus (sy'n ddirprwy am ddelweddau anweddus o blant) yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020. Nid yw llawer o droseddau cyhoeddiadau anweddus a gofnodwyd yn arwain at gyhuddiad gan eu bod yn ymwneud â phobl ifanc yn rhannu delweddau'n gydsyniol rhyngddynt eu hunain. Mewn achosion fel y rhain, bernir yn gyffredin nad yw er budd y cyhoedd i gyhuddo. Yn lle, gellir defnyddio opsiynau eraill y tu allan i'r llys, â mesurau diogelu a chyingor yn cael eu darparu.
46. Mae cyfanswm yr erlyniadau a'r euogfarnau am bob trosedd cam-drin plant yn rhywiol wedi gostwng o uchafbwynt yn 2016. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2019, erlynwyd oddeutu 3,700 o ddiffynyddion am droseddau cyswllt rhyw â phlant ac o'r rheini, cafwyd oddeutu 2,700 yn euog. Mae cyfraddau euogfarnu'n uwch ar gyfer troseddau delweddau anweddus o blant na throseddau cyswllt: Yn yr un cyfnod, erlynwyd oddeutu 2,700 o ddiffynyddion am droseddau delweddau anweddus o blant ac, o'r rheini, cafwyd bron i 2,500 yn euog.

Ffigur 5: Troseddau CSA a gofnodwyd gan yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, 2004/5 i 2019/20



Y Swyddfa Gartref 2020: Ystadegau Troseddau a Gofnodwyd gan yr Heddlu yn dangos tueddiadau mewn gweithgarwch o'r flwyddyn yn dod i ben Mawrth 2003 i Fawrth 2019

Sylwer: Arweiniodd Ymgyrch Yewtree yn 2012 at gynnydd mewn parodrwydd dioddefwyr i riportio a chynnydd mewn troseddau a gofnodwyd.

Defnyddir cyhoeddiadau anweddus fel dirprwy ar gyfer troseddau delweddau anweddus o blant. Cofnodwyd mwyafrif y troseddau cyhoeddiadau anweddus yn ôl codau sy'n ymdrin â throseddau delweddau anweddus o blant. Fodd bynnag, bydd y troseddau hyn hefyd yn cynnwys troseddau llai, yn benodol anfon delweddau cignoeth rhwng plant dan oed sy'n cydsynio.

Yn dilyn gweithredu system TG newydd ym mis Gorffennaf 2019, nid yw Heddlu Manceinion Fwyaf wedi gallu cyflenwi data ar gyfer y cyfnod Gorffennaf 2019 i Fawrth 2020. Nid yw ffigurau ar gyfer Manceinion Fwyaf wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau Cenedlaethol a Rhanbarthol ar gyfer y blynyddoedd sy'n dod i ben ym mis Mawrth 2019 a 2020.


47. Ym mis Ebrill 2020, amcangyfrifodd yr NCA fod o leiaf oddeutu 300,000 o unigolion yn y DU yn peri bygythiad rhywiol i blant, naill ai trwy gam-drin cyswllt neu ar-lein. Mae'r ffigur hwn yn seiliedig ar ddealltwriaeth ddatblygol yr NCA, gan gynnwys data Trefniadau Amddiffyn y Cyhoedd Amlasiantaethol (oddeutu 35,000) a nifer y troseddau ar y we dywyll (oddeutu 250,000). Gan gydnabod yr anhawster ynghylch datblygu amcangyfrifon diffiniol yn y maes hwn, mae'r Swyddfa Gartref a'r NCA yn parhau i weithio gyda'i gilydd i fireinio a gwella ein methodolegau a'n dealltwriaeth. Bydd amcangyfrifon yn y dyfodol yn cael eu cynnwys yn Asesiad Strategol Cenedlaethol blynyddol NCA o Droseddau Difrifol a Threfnedig.

48. Fodd bynnag, mae'n anodd gwir ddeall graddfa'r troseddu a faint o ddioddefwyr a goroeswyr sy'n parhau i fod yn anhysbys oherwydd tangofnodi, tan-nodi dioddefwyr a goroeswyr gan asiantaethau, a diffyg data cadarn o arolygon. Cymhlethir y darlun ymhellach gan y ffaith bod llawer o ddioddefwyr a goroeswyr ond yn datgelu'r cam-drin y maent wedi'i ddioddef flynyddoedd lawer, neu hyd yn oed ddegawdau, yn ddiweddarach. Mae ymchwil gan y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar Oroeswyr sy'n Oedolion o Gamdriniaeth Rywiol yn ystod Plentyndod yn dangos mai'r amser cyfartalog i ddioddefwyr a goroeswyr ddatgelu camdriniaeth yw 26 mlynedd.
49. Canfu'r Arolwg Troseddu 2018/19 ar gyfer Cymru a Lloegr (CSEW) fod oedolion iau yn llai tebygol neu'n barod i nodi eu bod wedi profi cam-drin plant yn rhywiol nag oedolion hŷn. Y rhai 18-24 oed oedd y grŵp oedran lleiaf tebygol o ddweud eu bod wedi profi cam-drin plant yn rhywiol (6%), a'r rhai 45-54 a 55-64 oedd y mwyaf tebygol (9% ar gyfer pob grŵp). Fodd bynnag, ni allwn ddod i'r casgliad a yw hyn oherwydd gostyngiad yn nifer yr achosion o gam-drin plant yn rhywiol yn ystod y blynyddoedd diwethaf, neu a yw hyn oherwydd bod dioddefwyr a goroeswyr yn fwy parod neu'n gallu datgelu camdriniaeth po hwyaf y bu ers y profiad.
50. Er mwyn gwella ansawdd y data, mae'r ONS yn ymgymryd â [astudiaeth ddichonoldeb](#) i sefydlu sut i gyrraedd dealltwriaeth gadarnach o gyffredinrwydd cam-drin plant, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol. Cyhoeddwyd canlyniadau cam cyntaf y gwaith hwn ym mis Ionawr 2021. Ar yr un pryd, mae'r ONS yn parhau i ddatblygu a mireinio offer arolwg sy'n cefnogi ymatebwyr i rannu eu gwybodaeth mewn ffordd y maent yn gyffyrddus â hi.

2.2 Natur gudd cam-drin plant yn rhywiol

51. Mae'r rhan fwyaf o gam-drin plant yn rhywiol yn parhau i fod yn gudd ac wedi'i dan-nodi. Fel yr amlinellwyd yn [Rhan 2.1](#), rydym yn gwybod bod dioddefwyr a goroeswyr mewn sawl achos yn datgelu'r cam-drin y maent wedi'i ddioddef ddegawdau'n ddiweddarach, gan ei gwneud yn anoddach dod â chyflawnwyr o flaen eu gwell. Mae'r CSEW yn amcangyfrif na ddywedodd 76% o oedolion a brofodd dreisio neu ymosodiad trwy dreiddio ddweud wrth unrhyw un am eu profiad ar y pryd. Roedd pobl hyd yn oed yn llai tebygol o ddweud wrth yr heddlu - dim ond amcangyfrif o 7% o ddioddefwyr a goroeswyr a hysbysodd yr heddlu ar adeg y drosedd a dim ond 18% a ddywedodd wrth yr heddlu ar unrhyw adeg. Roedd achosion nad oeddent yn ddiweddar (lle digwyddodd y cam-drin 12 mis neu fwy cyn cael ei riportio) yn cyfrif am 34% o'r holl droseddau rhywiol yn erbyn plant a gofnodwyd gan yr heddlu yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019.

Ffigur 6: Rhesymau dros beidio â datgelu cam-drin yn ystod plentyndod



Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr - Pam na ddywedodd oedolion a brofodd gam-drin rhywiol cyn 16 oed wrth unrhyw un ar y pryd, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019

52. Mae llawer o resymau pam na fydd neu na all plant ddatgelu camdriniaeth. Canfu'r CSEW mai'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddwyd gan oedolion dros beidio â dweud wrth unrhyw un am y cam-drin a brofwyd ganddynt yn ystod plentyndod oedd embaras a meddwl na fyddent yn cael eu credu.

“Roeddwn bob amser yn teimlo’n euog mai arnaf i oedd y bai ac roedd gen i gywilydd... dau reswm na ddywedais i unrhyw beth erioed.”

Dioddefwr/goroeswr sy'n oedolyn

53. Rydym yn gwybod y gallai rhai grwpiau wynebu rhwystrau rhag datgelu sy'n effeithio ar ein dealltwriaeth o gyffredinrwydd cyffredinol. Er enghraifft, rydym yn gwybod bod bechgyn yn llai tebygol na merched o ddatgelu camdriniaeth yn ystod plentyndod, a allai fod yn gysylltiedig â'r ffaith bod cam-drin bechgyn yn rhywiol yn cael ei dan-nodi gan weithwyr proffesiynol yn hytrach na chyffredinrwydd cyffredinol is. Yn yr un modd, mae plant ag anableddau hefyd yn llai tebygol o ddatgelu, ac eto gallent fod mewn mwy o berygl o gael eu targedu gan gyflawnwyr

(gweler [Rhan 2.4](#)). Mae ymchwil, [gan gynnwys yr hyn a gomisiynwyd gan yr IICSA](#), wedi amlygu y gall pobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig wynebu rhwystrau rhag datgelu neu riportio camdriniaeth. Mae dioddefwyr a goroeswyr du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) wedi'u tangynrychioli o gymharu â demograffeg leol, ond nid oes tystiolaeth i awgrymu mai'r rheswm am hyn yw bod nifer yr achosion o gam-drin yn is. Yn anffodus, rydym yn gwybod pan yw plant yn datgelu, nis credir bob amser.

54. Mae gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant gyfrifoldeb i godi pryderon a nodi plant sydd mewn perygl o, neu sy'n profi, cam-drin rhywiol. Fodd bynnag, gall hyn fod yn anodd. Yn 2015, adroddodd y Comisiynydd Plant mai dim ond un o bob wyth o blant sy'n cael eu cam-drin yn rhywiol sy'n cael eu nodi gan weithwyr proffesiynol. Mae pryder nad oes gan weithwyr proffesiynol ddealltwriaeth ddigon da o arwyddion cam-drin plant yn rhywiol ac nad oes ganddynt yr hyder na'r sgiliau i siarad amdano.
55. Ymateb [Amlasiantaethol 2020 i Gam-drin plant yn rhywiol yn amgylchedd y teulu: Fe wnaeth Arolygiadau Ardaloedd wedi'u Targedu ar yCyd](#) (JTAls - a gynhaliwyd gan Ofsted, y Comisiwn Ansawdd Gofal, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaeth Tân ac Achub Ei Mawrhydi, ac Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi) edrych ar chwe awdurdod lleol er mwyn adolygu effeithiolrwydd diogelu rheng flaen a pha mor dda y mae gwahanol asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd. Canfu fod gormod o ddibyniaeth ar blant i ddatgelu ar lafar, a bod gan ymarferwyr ddiffyg hyder, gwybodaeth a sgiliau i siarad am gam-drin rhywiol o fewn amgylchedd y teulu. Mae hyn yn arwain at beidio â nodi cam-drin rhywiol fel y prif risg i'r plentyn ac felly nid yw'n ganolbwynt digonol ar gyfer ymyrraeth gan wasanaeth.
56. Mae asesiadau a gynhelir gan wasanaethau plant yn dangos cynnydd mewn nodi cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant fel ffactor risg. Fe wnaeth asesiadau â ffactor risg ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol godi o 28% yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020 o'r flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2015 (o 23,800 i 30,460), a chynyddodd y rhai â ffactor risg ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant dros 50% yn yr un cyfnod (o 12,200 i 18,700). Fodd bynnag, mae'r nifer a aseswyd yn parhau i fod yn is na'r amcangyfrifon cyffredinrwydd gorau.
57. Mae nifer y plant ar gynlluniau amddiffyn plant o dan y categori cam-drin rhywiol yn gymharol isel, sef 1,970 - oddeutu 4% o'r holl gynlluniau - ar ddiwedd mis Mawrth 2020. Er bod hyn wedi aros yn gymharol sefydlog ers 2014/15, mae'n cynrychioli gostyngiad pwysig o ran cyfran dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae'r Comisiynydd Plant wedi amlygu nad yw llawer o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teuluol yn cael eu rhoi ar gynllun amddiffyn plant ar gyfer cam-drin rhywiol, ond yn lle hynny gellir eu rhoi ar gynllun ar gyfer math arall o gam-drin (megis esgeulustod neu gam-drin emosiynol. Bydd llawer o blant y nodwyd eu bod wedi profi, neu mewn perygl o, gam-drin plant yn rhywiol hefyd yn cael eu rhoi yng ngofal awdurdod lleol yn hytrach na bod ar gynllun amddiffyn plant.


2.3 Beth ydym yn ei wybod am ddioddefwyr a goroeswyr?

58. Gan gydnabod y bydd rhai pobl sydd wedi profi cam-drin plant yn rhywiol yn nodi fel dioddefwyr ac eraill fel goroeswyr, rydym yn defnyddio'r ddau derm trwy'r ddogfen i gyfeirio at y rhai sydd wedi'u cam-drin yn rhywiol.
59. Nid cyfrifoldeb plentyn yw atal cam-drin rhywiol ac nid bai plentyn byth yw os caiff ei dargedu. Mae plant o bob oed, cefndir economaidd-gymdeithasol, rhyw a gallu yn cael eu targedu gan droseddwr sy'n cam-drin plant ar-lein ac all-lein, ond eto oherwydd yr heriau a nodir uchod o ran nodi a riportio, mae gennym ddarlun cyfyngedig o 'pwyr' ywdioddefwyr a goroeswyr.
60. Mae'n ymddangos bod gwahaniaethau yn yr oedrannau y mae plant fwyaf mewn perygl ynddynt, yn dibynnu ar y math o gamdriniaeth. Yn amgylchedd y teulu, ymddengys fod erledigaeth ar ei anterth yn 9 oed, ac mae erledigaeth ar-lein yn cyrraedd uchafbwynt cyn 13 oed. Mae ystod o ffynonellau'n awgrymu bod erledigaeth ar gyfer camfanteisio'n rhywiol ar blant yn cyrraedd uchafbwynt rhwng 14 a 15 oed, a bod pobl ifanc yn eu harddegau hŷn yn fwy tebygol na phlant iau o dderbyn negeseuon rhywiol ar-lein. Fodd bynnag, gallai diffyg data ynghylch cyffredinrwydd cyffredinol cam-drin plant yn rhywiol effeithio ar ein dealltwriaeth o bryd mae erledigaeth yn cyrraedd uchafbwynt. Er enghraifft, mae'r data hyn yn annhebygol o gipio graddfa cam-drin rhywiol a brofir gan blant ifanc iawn yn gywir gan ein bod yn gwybod bod gweithwyr proffesiynol weithiau'n dibynnu ar blant i ddatgelu eu cam-drin ar lafar (gweler [Rhan 2.2](#)).

2.4 Efallai y bydd rhai'n fwy tebygol o gael eu cam-drin nag eraill

61. Er mwyn osgoi amheuaeth, mae'n werth egluro nad yw cam-drin yn digwydd oherwydd bregusrwydd plentyn, ond yn hytrach oherwydd tueddiad troseddwr a'i allu i fanteisio ar y bregusrwydd hwn. Mae pob plentyn yn ei hanfod yn agored i niwed yn rhinwedd ei oedran, yn ogystal â'r anghydbwysedd pŵer sy'n bodoli rhwng plant ac oedolion. Er ei bod yn amlwg bod ffactorau sy'n gwneud rhai plant yn fwy agored i gael eu targedu nag eraill, nid oes unrhyw ffactor sy'n gwneud unrhyw grŵp o blant yn unigryw agored i niwed. Er y gall ymwybyddiaeth o fregusrwydd fod yn ddefnyddiol, mae'n bwysig cydnabod y gall hefyd gyfrannu at ystrydebau ynghylch sut olwg sydd ar ddioddefwr a goroeswr cam-drin plant yn rhywiol, â'r canlyniad bod dioddefwyr a goroeswyr sy'n wahanol i'r darlun hwnnw yn cael eu hanwybyddu neu eu bod yn amharod i ddod ymlaen rhag ofn nas credir.
62. Mae'r berthynas rhwng Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACEs) a cham-drin plant yn rhywiol yn gymhleth ac nid yw wedi'i deall yn llawn eto. Mae'n ymddangos bod ACEs yn fwy cyffredin mewn plant sy'n profi cam-drin rhywiol. Er enghraifft, canfu'r CSEW fod y rhai a brofodd esgeulustod corfforol yn fwy tebygol o fod wedi profi cam-drin rhywiol, neu fath arall o gam-drin cydamserol megis cam-drin domestig. Gall y profiadau hyn ryngweithio â'i gilydd i gymhlethu a gwaethygu bregusrwydd y dioddefwr. Fodd bynnag, gall rhai ACEs fod o ganlyniad i gamdriniaeth flaenorol. Un enghraifft o hyn yw lle gallai plant fod yng ngofal awdurdod lleol o ganlyniad i brofi cam-drin rhywiol. Efallai y bydd troseddwr yn ceisio manteisio ar wendidau croestoriadol plentyn mewn gofal, gan eu rhoi mewn perygl penodol o gam-drin rhywiol gan bobl y tu allan i'w cartref.

Ffigur 7: Cyfran y rhai a brofodd brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod a brofodd gam-drin plant yn rhywiol hefyd



Profiad niweidiol yn ystod plentyndod

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr - P'un a oedd oedolion wedi profi cam-drin rhywiol cyn 16 oed, yn ôl profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019

63. Efallai y bydd plant ag anableddau neu broblemau iechyd tymor hir hefyd yn fwy tebygol o gael eu targedu. Mae'r CSEW yn dangos bod oedolion a nododd fod ganddynt gyflwr iechyd neu anabledd tymor hir yn ystod plentyndod ddwywaith yn fwy tebygol o fod wedi profi cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod.
64. Mae'r CSEW yn awgrymu ymhellach bod plant sy'n byw ar aelwyd lle mae gan rywun gyflwr iechyd corfforol neu feddyliol neu anabledd tymor hir; neu rywun sydd â phroblem ynghylch cyffuriau a/neu alcohol; neu sydd erioed wedi bod yn y carchar, yn fwy tebygol o fod wedi profi cam-drin plant yn rhywiol.
65. Efallai y bydd plant sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol, a'r rhai sy'n archwilio eu rhywioldeb ar-lein (yn arbennig pobl ifanc LGBTQ+), hefyd yn fwy tebygol o gael eu targedu gan droseddwyd yn ôl ymchwil a gomisiynwyd gan yr IICSA.
66. Gall plant mewn gofal hefyd fod mewn mwy o berygl o gael eu targedu gan gyflawnwyr cam-drin plant yn rhywiol. Mae peth ymchwil yn dangos y gallai newidiadau mynych i leoliad gofal plentyn, absenoldeb perthnasoedd ymddiriedus cyson, a diffyg sefydlogrwydd neu le cyffredinol i alw'n 'gartref' ddwysau gallu cyflawnwr i gam-drin plant mewn gofal. Mae'r IICSA wedi amlygu y gallai plant mewn lleoliadau preswyl fod yn arbennig o agored i gam-drin rhywiol

gan oedolion sy'n gweithio mewn lleoliadau o'r fath, ond mae hefyd yn wir y gall camdrinwyr o'r tu allan i'r cartref dargedu plant mewn gofal.

67. Yn ôl [ymchwil canolfan CSA](#), gall profiad blaenorol o gam-drin ac esgeulustod hefyd gynyddu'r risg y bydd plentyn neu berson ifanc yn ymgymryd ag ymddygiad rhywiol niweidiol. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad a all gynyddu'r risg o erlid eraill neu ymddygiad sy'n cael effaith negyddol ar y plentyn ei hun. Mae'r [adroddiad JTAI 2020](#) yn amlygu nad yw gweithwyr proffesiynol, weithiau, yn ystyried y gallai ymddygiad rhywiol niweidiol fod o ganlyniad i'r ffaith bod blentyn wedi dioddef cam-drin rhywiol ac felly efallai na fyddant bob amser yn ystyried eu hanghenion diogelu.


ASTUDIAETH ACHOS

Yn ystod ei blentyndod cynnar, roedd Joseff yn byw yng ngofal ei fam. Roedd Joseph yn dyst i gamdriniaeth ddomestig rhwng ei rieni ac yn aml roedd angen iddo aros gyda pherthnasau eraill oherwydd materion iechyd meddwl ei fam. Wedyn, rhoddwyd Joseff yng ngofal ei dad a ddechreuodd ei gam-drin yn gorfforol ac yn rhywiol. Ar ôl mynd ar goll o ofal ei dad, symudodd Joseph eto i fyw gyda chwaer ei fam, ond chwalodd y trefniant byw wrth i'w fodryb ymdrechu i reoli ei ymddygiad rhywiol amhriodol. Yn 14 oed, aeth Joseph i ofal yr awdurdod lleol. Wrth fyw yn ei ail leoliad, roedd Joseph yn ymwneud â gang a oedd fel petai'n cynnig ymdeimlad o berthyn a diogelwch, ond aeth ymlaen i ddioddef trais a chamfanteisio gan aelodau eraill y gang.

2.5 Beth yw effaith cam-drin plant yn rhywiol?

68. Er y gall effaith cam-drin plant yn rhywiol ar ddioddefwyr a goroeswyr amrywio'n sylweddol, mae tystiolaeth gref bod cam-drin plant yn rhywiol yn gysylltiedig â risg uwch o ganlyniadau niweidiol mewn sawl maes ym mywyd rhywun. Gall hyn gynnwys lles corfforol, emosiynol a meddyliol, perthnasoedd, canlyniadau economaidd-gymdeithasol, a bregusrwydd i ail-erledigaeth. Gall effaith cam-drin plant yn rhywiol fod yn sylweddol, waeth beth yw'r math o gamdriniaeth a ddioddefir (gan gynnwys lle mae'r cam-drin yn digwydd mewn amgylchedd ar-lein), a gall ystod o ffactorau ddylanwadu arni gan gynnwys hyd y cam-drin, mecanwaith ymdopi unigolyn, a'r cymorth a gânt.
69. Mae ymchwil gan yr IICSA yn arddangos y gall effeithiau cam-drin plant yn rhywiol barhau am oes, gan arwain weithiau at salwch ac anableddau tymor hir. Gall y rhain gynnwys ystod eang o gyflyrau iechyd corfforol, yn ogystal â materion iechyd meddwl megis iselder, anhwylderau gorbryder, ac anhwylder straen wedi trawma (PTSD). Dangoswyd bod cyfraddau hunan-niweidio mor uchel â 49% ymhlith oedolion sy'n ddioddefwyr a goroeswyr mewn triniaeth, a gall y risg y bydd dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol geisio lladd eu hunain fod cymaint â chwe gwaith yn uwch na'r boblogaeth gyffredinol.
70. Mae Asesiad Cyflym o'r Dystiolaeth IICSA yn amlygu'r effeithiau allweddol dilynol cam-drin plant yn rhywiol:

Ffigur 8



Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2018) Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol: Asesiad cyflym o'r dystiolaeth

ASTUDIAETH ACHOS

“Yn fy wythnos gyntaf yn yr ysgol, fe wnaeth y prifathro fy nghael i mewn i'w fyfyrgeall ar fy mhen fy hun. Roeddwn i'n gwybod ei fod yn anghywir ac fe wnes i ymdrechu i ddianc oddi wrtho. Cefais fy ngham-drin yn rhywiol ar sawl achlysur dros nifer o flynyddoedd. Ni allwn i byth ddweud wrth unrhyw un oherwydd erbyn hynny roeddwn wedi cael fy nynodi fel ‘trafferth’ ac nid oeddwn am siomi fy rhieni.

Pan oeddwn yn 16 oed, gadewais yr ysgol breswyl a rhedeg i ffwrdd o gartref. Yn y pen draw dechreuais ddrifftio rhwng sgwatau, yn gaeth i heroin. Bob dydd o fy mywyd, rwyf wedi cael atgofion ymwthiol o gam-drin, ac eithrio pan oeddwn yn cymryd llawer o gyffuriau caled.

Therapi unigol a grŵp oedd y peth anoddaf i mi ei wneud erioed. Ers blynyddoedd, roedd yn ymddangos fel nad oeddwn yn cyrraedd unman. Ond yna un diwrnod sylweddolais fod yr hunllefau wedi dod i ben. Mae llawer o feysydd yn fy mywyd o hyd nad wyf yn fodlon yn eu cylch, ond rwyf wedi dod yn bell ers y bachgen bach ofnus hwnnw oedd wedi'i gam-drin 50 mlynedd yn ôl.”

71. Gallai dioddefwyr a goroeswyr wynebu rhwystrau i ddilyniant ym myd addysg ac i'w gyrfaedd, ag ymchwil yn awgrymu, ar gyfartaledd, fod gan ddioddefwyr a goroeswyr gyfraddau uwch o ddiweithdra a salwch tymor hir. Gallent hefyd ddefnyddio mecanweithiau ymdopi negyddol i ddelio ag effaith cam-drin. Mae ymchwil yn tamlygu cyfraddau uwch o gamddefnyddio sylweddau ymhlith dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol.
72. Gall profi cam-drin plant yn rhywiol hefyd gynyddu'r tebygolrwydd o erledigaeth bellach. Mae'r CSEW wedi dangos bod y rhai a brofodd gam-drin plant yn rhywiol yn llawer mwy tebygol o brofi cam-drin domestig a cham-drin rhywiol pellach fel oedolion.
73. Mae hefyd yn bwysig cydnabod y gall cam-drin plant yn rhywiol ac ymchwiliadau troseddol dilynol gael effaith ddwys ar aelodau teulu dioddefwyr a chyflawnwyr fel ei gilydd, gan gynnwys canlyniadau cymdeithasol, seicolegol ac ariannol. Mae angen datblygu ein dealltwriaeth o effaith y troseddau a'r ymchwiliadau hyn ar y teulu ehangach, a byddwn yn gweithio gyda phartneriaid gorfodi'r gyfraith a sefydliadau'r sector gwirfoddol i archwilio'r materion hyn ymhellach.
74. Mae cam-drin plant yn rhywiol hefyd yn cael effaith ehangach ar gymdeithas a'r economi, gan gynnwys pwysau ar y system cyfiawnder troseddol, gofal iechyd a gwasanaethau cymdeithasol. Yn ddiweddar, cwblhaodd y Swyddfa Gartref waith sy'n amcangyfrif y gost ariannol ac anariannol (â gwerth ariannol) sy'n ymwneud â'r holl ddioddefwyr a barhaodd i brofi cam-drin rhywiol cyswllt, neu a ddechreuodd brofi cam-drin rhywiol cyswllt, yng Nghymru a Lloegr yn y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2019. Amcangyfrifir mai'r gost hon yw o leiaf £10 biliwn ac mae'n cynnwys costau'r garfan hon yn cael eu herlid yn y blynyddoedd blaenorol a'r blynyddoedd i ddod, yn ogystal â chanlyniadau oes o ganlyniad i brofi cam-drin plant yn rhywiol. (Dylid nodi, oherwydd y ffordd y tynnir rhai costau dros oes dioddefwr, ni ellir defnyddio hyn fel cost flynyddol neu gost mewn blwyddyn). Mae'r amcangyfrif yn cynnwys costau:


- Gan ragweld cam-drin plant yn rhywiol (gwariant ar fesurau amddiffynnol ac ataliol megis costau addysg a hyfforddiant);
- O ganlyniad i gam-drin plant yn rhywiol (niweidiau corfforol ac emosiynol i ddiodefwyr a goroeswyr, colli allbwn economaidd, a chostau i wasanaethau iechyd a gwasanaethau diodefwyr); a,
- Mewn ymateb i gam-drin plant yn rhywiol (costau'r heddlu a'r system cyfiawnder troseddol, yn ogystal â chost diogelu diodefwyr).

75. Nid yw'r amcangyfrif hwn yn cynnwys y costau a dynnir o ganlyniad i ddelweddau anweddus o blant neu droseddu digyswllt arall, ac felly bydd gwir gost cam-drin plant yn rhywiol yn uwch na'r amcangyfrif hwn.

2.6 Deall cyflawniad cam-drin plant yn rhywiol

76. Gall diodefwyr a goroeswyr brofi gwahanol fathau o gamdriniaeth ar draws gwahanol leoliadau a chan wahanol gyflawnwyr. Mae'n hanfodol cydnabod y bydd rhai troseddwr yn cyflawni cam-drin plant yn rhywiol yn bersonol ('cam-drin cyswllt') a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein. Serch hynny, mae'n debygol hefyd bod rhai a fydd yn troseddu ar-lein ond na fyddant byth yn troseddu â chyswllt (gweler [Rhan 2.7](#) i weld rhagor o fanylion ar droseddu ar-lein).
77. Er mwyn ehangu ein dealltwriaeth o droseddu ymhellach, ym mis Mawrth 2020 cyhoeddodd y Ganolfan CSA [Teipoleg newydd o droseddu cam-drin plant yn rhywiol](#) sy'n canolbwyntio ar gyd-destunau a phatrymau troseddu, yn hytrach na nodweddion y cyflawnwr neu'r diodefwr neu'r goroeswr.
78. Cam-drin plant yn rhywiol yn amgylchedd y teulu yw'r gyfran fwyaf o'r holl droseddu cyswllt. Er bod mwyafrif y cam-drin hwn yn parhau i fod yn gudd, mae Swyddfa'r Comisiynydd Plant yn amcangyfrif, ac eithrio troseddau delweddau anweddus, bod oddeutu dwy ran o dair o droseddau cam-drin plant yn rhywiol sy'n cael eu riportio i'r heddlu yn cael eu cyflawni gan aelod o'r teulu neu rywun sy'n agos at y plentyn. Mae'r CSEW yn darparu tystiolaeth bellach o blaid hyn, â'r mwyafrif o droseddau'n cael eu cyflawni gan ffrindiau, cydnabyddwyr neu aelodau'r teulu.
79. Mae cam-drin plant yn rhywiol hefyd yn cael ei gyflawni mewn sefydliadau, gan gynnwys gan y rhai sydd mewn swyddi o ymddiriedaeth yn y sefydliadau hynny. Mae'r IICSA wedi amlygu graddau cam-drin sefydliadol nad yw'n ddiweddar lle mae staff addysgu neu addysgol, clerigwyr neu staff sy'n gysylltiedig â'r eglwys, ymarferwyr meddygol, gweithwyr gofal preswyl ac eraill, wedi defnyddio eu pŵer i gam-drin plant yn systematig. Er bod llawer o hyn yn mynd heb ei ganfod, mae ymchwil ONS yn dangos bod 16% o ddynion a 6% o fenywod a oedd wedi profi cam-drin rhywiol fel plant wedi cael eu cam-drin gan berson mewn sefyllfa o ymddiriedaeth y tu allan i amgylchedd y teulu.

Ffigur 9: Perthynas y cyflawnwr â'r dioddefwr/goroeswr



Sylwer: Mae canrannau'n dod i fwy na 100 gan fod ymatebwyr yn gallu dewis mwy nag un ateb i'r cwestiwn.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr - Perthynas y cyflawnwr ag oedolion a brofodd unrhyw gam-drin rhywiol cyn 16 oed, y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2019

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 2014, lansiwyd Ymgyrch Sanctuary: ymchwiliad amlasiantaethol dan arweiniad yr heddlu yn ymateb i ymwybyddiaeth gynyddol o gyffredinrwydd camfanteisio'n rhywiol yn ardal Newcastle. Arweiniodd hyn at arestio dros 30 o ddynion a nodi nifer o ddioddefwyr, gan gynnwys plant ac oedolion ag anableddau dysgu. Cadarnhaodd hanesion y goroeswyr, ac ymholiadau dilynol, fod camfanteisio'n rhywiol yn digwydd yn Newcastle ar raddfa lawer mwy nag a sylweddolwyd yn flaenorol. Ym mis Hydref 2015, penderfynodd Bwrdd Diogelu Plant Newcastle a Bwrdd Diogelu Oedolion Newcastle gynnal Adolygiad Achos Difrifol thematig ar y cyd i edrych y tu hwnt i'r digwyddiadau neu'r unigolion penodol, a deall patrymau neu themâu yn yr achosion camfanteisio'n rhywiol a oedd yn debygol o fod yn berthnasol mewn amgylchiadau eraill.

Mae'r dysgu o'r Adolygiad hwn ac o Ymgyrch Sanctuary bellach wedi'i ymgorffori yng ngwasanaethau Newcastle, yn arbennig ar ffurf yr Hyb Amlasiantaethol ar gyfer Camfanteisio'n Rhywiol. Codwyd ymwybyddiaeth am natur ac effaith camfanteisio'n rhywiol, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar nodi ac atal, ynghyd â chymorth i ddioddefwyr a goroeswyr.

80. Math penodol o gam-drin plant yn rhywiol yw camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau. Mae nifer o ymgyrchoedd mawr yr heddlu yn ystod y blynyddoedd diwethaf wedi datgelu graddfa'r math hwn o droseddau yn y DU. Yn Rotherham yn unig, dioddefodd o leiaf 1,400 o blant gamfanteisio'n rhywiol rhwng 1997 a 2013. Mae'r troseddau hyn yn tueddu i fod mewn rhwydweithiau wedi'u cysylltu'n llac a ffurfiwyd trwy gysylltiadau cymdeithasol a oedd yn bodoli eisoes, megis gwaith neu deulu. Nid oes gan grwpiau troseddau un strwythur diffiniol. Mae'n anodd dod i gasgliadau ynghylch cynrychiolaeth gwahanol grwpiau ethnig yn y boblogaeth sy'n troseddau gan nad yw'r heddlu ac asiantaethau eraill yn casglu data ar ethnigrwydd yn gyson. Mae'r data cyfyngedig sy'n bodoli yn awgrymu, er bod troseddau sy'n gweithredu o fewn yr un grŵp yn tueddu i fod yn homogenaidd ethnig, nid yw troseddau'n unigryw i unrhyw grŵp ethnig penodol. Gall y ddynwedd a'r atgyfnerthu cymheiriaid sy'n bresennol mewn grwpiau o'r fath alluogi ac annog ymddygiad troseddol tuag at nifer fawr o ddioddefwyr. Mae'n anodd nodi'r cymhellion dros gamdriniaeth o'r fath, ond mae'n debygol eu bod yn ymestyn y tu hwnt i ddiddordeb rhywiol mewn plant i gymhellion ehangach sy'n ymwneud â chasineb at fenywod, awydd am bŵer a rheolaeth, ac mewn rhai achosion enillion ariannol. Cyhoeddwyd papur ar wahân ar [nodweddion troseddau: camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp](#) ym mis Rhagfyr 2020 (gweler [Amcan 1.3](#) i weld manylion pellach).
81. Er y gall y math hwn o gam-drin gael ei gyflawni yn aml gan grwpiau bach o unigolion sydd â chysylltiad llac, mae hefyd rai grwpiau troseddol mwy trefnus sy'n masnachu plant i'r DU i gamfanteisio'n rhywiol arnynt. Nodwyd 638 o ddioddefwyr yr amlygiad trawsffiniol hwn o gam-drin plant yn rhywiol yn 2018, yn ôl ystadegau o'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, cynnydd o 16% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
82. Yn hanfodol, rydym yn gwybod bod mathau o gamfanteisio yn aml yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae rhai gangiau'n cam-fanteisio'n rhywiol ac yn droseddol ar eu dioddefwyr, neu'n gorfodi dioddefwyr i gam-drin ei gilydd fel dull o reoli.
83. Mae cyfran o'r cam-drin yn cael ei gyflawni gan blant a phobl ifanc eu hunain, â rhai astudiaethau cyffredinrwydd yn awgrymu bod traean i ddwy ran o dair o gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei gyflawni gan bobl ifanc dan 18 oed, a'r Comisiynydd Plant yn amcangyfrif bod 25% o gam-drin rhyng-deuluol yn cael ei gyflawni gan bobl ifanc dan 18 oed. Gallai plant, yn arbennig mewn grwpiau oedran iau, ymwneud ag ymddygiad rhywiol amhriodol yn ddatblygiadol, a all fod yn niweidiol iddynt hwy eu hunain a/neu i eraill. Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn bodoli ar sbectrwm o amhriodol drwedd i drafferthus, camdriniol a threisgar. Mae'n bwysig cydnabod y gall ymddygiad rhywiol niweidiol fod yn ddangosydd o gam-drin, esgeulustod neu drawma blaenorol, ag un astudiaeth yn canfod ei bod yn hysbys bod dwy ran o dair o'r bobl ifanc sy'n arddangos yr ymddygiad hwn wedi cael profiadau o'r fath. Mae sicrhau bod anghenion diogelu a lles plant sy'n dangos ymddygiad rhywiol niweidiol yn cael eu diwallu yn bwysig dros ben. Mewn rhai achosion, gall ymatebion hefyd gynnwys llwybrau cyfiawnder troseddol.

2.7 Natur ddatblygol troseddu cam-drin plant yn rhywiol

84. Rydym yn gwybod bod cam-drin plant yn rhywiol yn datblygu a bod cyflawnwyr yn defnyddio technoleg a'r rhyngwrwyd yn gynyddol i droseddu. Gall dieithriaid a'r rhai sy'n adnabyddus i'r dioddefwr gyflawni camfanteisio a meithrin perthynas amhriodol ar-lein, â'r bwriad o orfodi plant i gael sgysrsiau neu wneud gweithgareddau rhywiol ar-lein, neu i gwrdd yn bersonol i gyflawni camdriniaeth.

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 13 oed, roedd Jenny yn defnyddio ei chyfrifiadur i lawrlwytho cerddoriaeth a sgwrsio â ffrindiau. Fe wnaeth ffrind gyflwyno Jenny i rywun a oedd yn honni ei bod yn ferch yn ei harddegau ar-lein. Roedd y person hwn yn gyfeillgar â Jenny, gan ofyn cwestiynau iddi am ei bywyd a'r pethau yr oedd ganddi ddiddordeb ynddynt. Yn y pen draw, gofynnodd y person i Jenny anfon llun ohoni ei hun, a gwnaeth Jenny hynny.

“Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel oherwydd roedd “hi” yn dweud pethau wrthyf amdani hi hefyd ac roedd hi wedi anfon llun ohoni ei hun ataf. Roeddwn i'n meddwl fy mod i wedi bod yn ofalus oherwydd nad oeddwn i wedi rhoi fy nghyfeiriad cartref, ond roeddwn i eisoes wedi rhoi llawer mwy nag yr oeddwn i'n meddwl, er enghraifft fy ardal leol trwy ddweud i ba ysgol roeddwn i'n mynd.”

“Cefais hwb gan ei chanmoliaeth, felly pan anfonodd hi lun arall, fe wnes i hynny hefyd. Dywedodd ei bod wedi anfon fy lluniau at ei fos a'i fod yn eu hoffi. Roedd am ddod i gwrdd â mi i dynnu lluniau proffesiynol. Dyna pryd y cefais fy nychryn oherwydd yr hyn yr oeddwn eisoes wedi'i wneud, ac nid oeddwn yn gwybod sut i newid pethau yn ôl na beth i'w wneud nesaf.”

Pan fygythiwyd Jenny y byddai ei lluniau'n cael eu rhannu, cytunodd i roi ei chyfeiriad. Arhosodd Jenny gartref ar ei phen ei hun. *“Rwy'n ei gofio'n gwthio'i ffordd i mewn i'r fflat ac i mewn i fy ystafell wely ac yna fe ymosododd yn anweddus arnaf.”*

85. Trwy wefannau a fforymau agored a thywyll, mae troseddwy'r yn cyfathrebu ac yn trefnu. Maent yn creu ac yn dosbarthu CSAM, cam-drin ar ffrwd fyw, yn rhannu gwybodaeth dioddefwyr neu oroeswyr, ac yn cyfnewid strategaethau i gyflawni troseddau. Mae technoleg anhysbysu'n dod yn fwy hygyrch hefyd gan alluogi mwy o droseddwy'r i osgoi cael eu canfod.
86. Mae tystiolaeth bod troseddu ar-lein wedi cynyddu ers 2018, wedi'i alluogi gan dwf yn y cyfryngau cymdeithasol a thechnolegau rhyngwrwyd newydd. Mae cudd-wybodaeth o'r sector gorfodi'r gyfraith yn awgrymu ei bod yn bosibl y gallai hyn arwain at droseddu cyswllt pellach, er enghraifft ag ymddygiad ar-lein yn rhagflaenu trosedd cyswllt (yn achos meithrin perthynas amhriodol ar-lein), neu'n sbarduno troseddu cyswllt (megis â ffrydio byw). Mae troseddwy'r yn manteisio ar gyfleoedd ar-lein, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, i estyn allan at blant lluosog ac, mewn rhai achosion, blacmelio dioddefwyr a goroeswyr i gymryd rhan mewn gweithredoedd pellach a mwy eithafol trwy fygwth cylchredeg delweddau o'u cam-drin.

Rydym yn gwybod bod rhai troseddwyd sy'n cam-drin plant yn eu hamgylchedd teuluol neu'r gymuned leol yn rhannu delweddau neu fideos o'r cam-drin ar-lein. Mae ymchwil gan y Internet Watch Foundation (IWF) yn dangos ei bod yn ymddangos bod 67% o'r delweddau CSAM ar-lein a ganfuwyd wedi'u cymryd mewn cartref. Mae cudd-wybodaeth hefyd yn awgrymu bod moneteiddio o CSAM a ffrydio cam-drin yn fyw yn digwydd yn gynyddol.

87. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn fater rhyngwladol, â gwefannau CSAM yn cael eu cynnal mewn gwledydd ledled y byd. Mae'r IICSA wedi clywed bod ffrydio cam-drin plant yn rhywiol yn fyw yn fygythiad cynyddol. Gwneir y math hwn o gam-drin yn fwy cymhleth trwy'r ffordd y gall fynd dros sawl awdurdodaeth, â throseddwyd a dioddefwyr wedi'u lleoli mewn gwahanol wledydd.
88. Mae [Asesiad Bygythiad Byd-eang 2019](#) gan y Gynghrair Fyd-eang WeProtect yn dangos bod mwyafrif y cam-drin masnachol sy'n cael ei ffrydio'n fyw a gyflawnir yn bersonol yn targedu plant yn Ynysoedd y Philipinau, ac yng nghaneddloedd y De Byd-eang yn ehangach, lle mae lefelau uwch o dlodi a phlant â gwendidau y gall troseddwyd geisio eu hecsbloetio. Mae rhai troseddwyd yn teithio i gam-drin plant mewn ardaloedd sydd â chapasiti a/neu allu cyfyngedig i atal cam-drin plant yn rhywiol a mynd ar drywydd troseddwyd.
89. Fodd bynnag, mae ffrydio byw hefyd yn fygythiad i blant yn y DU. Yn aml, bydd troseddwyd yn cymell neu'n gorfodi plant o fewn lleoliad cartref i ffrydio'n fyw. Canfu'r IWF fod mwyafrif helaeth y cam-drin sy'n cael ei ffrydio'n fyw y mae'r sefydliad wedi'i nodi wedi cynnwys y plentyn ar ei ben ei hun mewn lleoliad cartref.
90. Yng nghyd-destun plant yn arwain mwy o'u bywydau ar-lein, ynghyd ag agweddau newidiol at wneud oed a pherthnasoedd, mae rhannu lluniau noeth a lled-noeth (a elwir hefyd yn "ddelweddau rhywiol a gynhyrchir gan ieuenctid") hefyd yn cael eu normaleiddio fwyfwy ac mae mater ynghylch y nifer cynyddol o luniau noeth a lled-noeth a gynhyrchir gan bobl ifanc a phlant a'r ystod oedran sy'n gostwng yn y maes.
91. Mae rhai pobl ifanc yn cynhyrchu delweddau mewn ffordd gydsyniol gyda chyfoedion sy'n briodol i'w hoedran. Fodd bynnag, gellir rhannu delweddau neu fideos noeth neu led-noeth a gynhyrchir yn gydsyniol yn ehangach heb gydsyniad, gan ychwanegu at faint o ddeunydd sydd ar gael i droseddwyd. Yn ystod chwe mis cyntaf 2020, aseswyd bod 44% o'r holl ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol yr ymdrinodd yr IWF ag ef yn cynnwys delweddau neu fideos wedi'u hunan-gynhyrchu, o'i gymharu â 29% yn 2019. Mae lluniau noeth neu led-noeth eraill yn cael eu creu mewn cyd-destun gorfodol a chamdriniol, a gall troseddwyd ddefnyddio delweddau sydd wedi'u hunan-gynhyrchu i flacmelio a cham-drin dioddefwyr a goroeswyr ymhellach.

2.8 Nodweddion, cymhellion a phrofiadau bywyd cyflawnwyr cam-drin plant yn rhywiol

92. Mae ein dealltwriaeth o droseddwy'r wedi'i chyfyngu i'r rhai a nodwyd gennym, sy'n debygol o ffurfio cyfran fach o'r holl droseddwy'r. Rydym yn gwybod bod troseddwy'r yn dod o bob cefndir, o bob grŵp oedran, o bob ethnigrwydd a phob ffydd. Yn gyffredinol, mae'n anodd nodi nodweddion troseddwy'r rhyw a fyddai'n eu gwahaniaethu oddi wrth y boblogaeth yn gyffredinol.
93. Mae cysyniadau ysgogiadau i droseddu yn aml yn canolbwyntio ar droseddwr sydd â diddordeb rhywiol mewn plant. Mae'n bwysig ystyried hyn, gan fod y troseddwy'r hynny sy'n adrodd am ddiddordeb rhywiol mewn plant yn tueddu i aildroseddu ar gyfraddau uwch. Fodd bynnag, mae'n debygol y gall ystod ehangach o ffactorau gyfrannu at ymddygiad troseddol unigolyn, gan gynnwys ysgogiadau rhywiol eraill (megis boddhad rhywiol, diddordeb rhywiol mewn gweithgareddau rhywiol anghyfreithlon, agweddau problemus tuag at ryw, a defnyddio rhyw fel mecanwaith ymdopi) ac ysgogiadau nad ydynt yn rhywiol (megis ysgogiadau ariannol, casineb at ferched, neu'r rhai sy'n ymwneud â hawl, pŵer a rheolaeth).
94. Bydd amgylchiadau a phrofiadau bywyd troseddwr hefyd yn chwarae rôl wrth gychwyn a chynnal ei ymddygiad troseddol - er enghraifft, gall yfed alcohol, dylanwadau cymheiriaid, materion hunanreoli, neu berthynas yn chwalu fod yn ffactorau risg. Gyda'i gilydd neu ar wahân, gall pob un o'r rhain roi rhywun ar lwybr i droseddu. Mae'n bwysig nodi nad yw bod â diddordeb rhywiol mewn plant yn gwarantu y bydd unigolyn yn dod yn droseddwr.
95. Gwyddom nad yw mwyafrif helaeth y bobl sy'n profi camdriniaeth ac esgeulustod yn ystod plentyndod yn mynd ymlaen i gam-drin fel oedolion. Ar yr un pryd, ystyrir bod anawsterau cynnar ynghylch cam-drin trawma, gwrthod ac ymlyniad yn chwarae rôl o ran troseddu, â rhywfaint o ymchwil yn awgrymu bod troseddwy'r rhyw â phlant yn fwy tebygol o fod wedi profi camdriniaeth a phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod o gymharu â throseddwy'r nad ydynt yn rhywiol, aphobl nad ydynt yn droseddwy'r.
96. Er ein bod yn amau bod rhyw gyfuniad o'r ffactorau hyn yn dod at ei gilydd i ddod yn berthnasol i ymddygiad troseddol unigolyn, mae angen llawer mwy o ymchwil i ddeall sut maent yn cyfrannu.
97. Yn seiliedig ar ymchwil yng Nghymru a Lloegr, mae troseddwy'r rhyw â phlant fel arfer yn tueddu i fod yn ddynion ac yn wyn (yn unol â demograffeg y boblogaeth yn gyffredinol). Mae gwahanol ffynonellau data yn awgrymu gwahanol oedranau ar gyfer troseddwy'r. Fe wnaeth astudiaeth gan yr NSPCC ganfod bod cyfran fawr o droseddu wedi ei gyflawni gan y glasoed, tra bod data euogfarnu'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn awgrymu bod llawer o droseddwy'r yn eu 30au cynnar i ganol eu 40au. Fodd bynnag, gallai hyn adlewyrchu pan ddaw troseddwy'r i sylw'r awdurdodau, yn hytrach na gwir oedran troseddwy'r cam-drin plant yn rhywiol.

2.9 Gyrru ymateb sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, ar sail tystiolaeth

98. Er bod gennym well mewnwelediad i gam-drin plant yn rhywiol nag erioed o'r blaen, mae'n hanfodol ein bod yn cadw'n gyfredol â'r bygythiad sy'n datblygu. Mae angen ymchwil bellach i ddeall yn well sut i atal a mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol, yn ogystal â darparu cymorth effeithiol i ddioddefwyr a goroeswyr. Rydym am sicrhau bod pob agwedd ar ein hymateb yn cael ei llywio'n llawn gan y data a'r ymchwil ddiweddaraf, p'un ai o bolisi, arolygiaethau, y byd academiaidd neu'r trydydd sector. Rydym hefyd yn cydnabod pwysigrwydd ymgysylltu parhaus â phobl ifanc, a dioddefwyr a goroeswyr eu hunain, a byddwn yn ymgysylltu â phobl ifanc wrth i'r Strategaeth gael ei rhoi ar waith.
99. Mae'r Ganolfan CSA ac ILCSA wedi cynnal ymarfer defnyddiol gyda rhanddeiliaid [gan fapio bylchau tystiolaeth a nodi'r rhai pwysicaf](#). Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid a rhanddeiliaid i sbarduno ymchwil i lywio ein gwaith a llenwi'r bylchau a nodir.
100. Fel rhan o hyn, mae'r Swyddfa Gartref wedi gwneud gwaith i amcangyfrif costau cam-drin plant yn rhywiol â chyswllt (gweler [Rhan 2.5](#)). Byddwn yn parhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o gost mathau ehangach o gam-drin plant yn rhywiol ac archwilio dulliau newydd i ddatblygu ein dealltwriaeth o'i gyffredinrwydd. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn buddsoddi mewn datblygu ac ymgorffori arferion gorau ar gyfer darparu cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr; yn ogystal â meithrin ein dealltwriaeth o bwy sy'n cyflawni'r troseddau hyn a pham; sut olwg sydd ar lwybrau troseddwy; a'r hyn sy'n gweithio o ran atal ac amharu ar droseddu.

2.10 Sut mae COVID-19 wedi effeithio ar gam-drin plant yn rhywiol?

Er na allwn wybod eto beth yw gwir effaith COVID-19, a'r niwed a achoswyd gan droseddwy yn ystod y cyfyngiadau symud, cydnabyddir y gallai mesurau angenrheidiol i atal y feirws rhag lledaenu gynyddu'r risg o rai mathau o gam-drin plant yn rhywiol. Trwy gydol y pandemig COVID-19, mae adroddiadau i'r heddlu am bob math o droseddau rhywiol wedi lleihau ac mae atgyfeiriadau at ofal cymdeithasol plant wedi bod yn is na'r cyfartaledd o'u cymharu â'r un cyfnodau dros y tair blynedd diwethaf. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod cam-drin plant yn rhywiol yn aml yn parhau i fod yn gudd am amser hir.

Mae tystiolaeth gan bartneriaid y trydydd sector i awgrymu y gallai cam-drin plant yn rhywiol fod wedi cynyddu yn ystod y pandemig. Gwelodd yr NSPCC gynnydd triphlyg mewn sesiynau cwnsela Childline ynghylch cam-drin plant yn rhywiol o fewn y teulu rhwng mis Mawrth a mis Mai 2020, o wyth sesiwn yr wythnos ar gyfartaledd cyn i'r cyfyngiadau gael eu gosod i gyfartaledd o 23 yr wythnos. Roedd dros chwarter y sesiynau cwnsela Childline ynghylch cam-drin rhywiol o fewn y teulu yn ymwneud â cham-drin sydd wedi digwydd yn ddiweddar. Rhwng Ebrill ac Awst 2020, gwelodd NSPCC hefyd gynnydd o 11% mewn sesiynau cwnsela Childline ynghylch cam-drin rhywiol ar-lein, yn ogystal â chynnydd o 60% mewn cysylltiadau gan oedolion a oedd yn pryderu am blant yn profi cam-drin rhywiol ar-lein.

Mae troseddwyd a throseddwyd posibl yn debygol o fod wedi treulio mwy o amser ar-lein, â mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at gyflogaeth, hamdden neu rwydweithiau cymdeithasol arferol a allai atal ymddygiad niweidiol neu gamdriniol. Mae Sefydliad Lucy Faithfull wedi gweld cynnydd yn y defnydd o'u hadnoddau ataliol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, sy'n cefnogi'r rhai sydd â phryderon am eu hymddygiad eu hunain neu ymddygiad rhywun arall. Rhwng y Gwanwyn (5 Mawrth - 27 Mai) a'r Hydref (10 Medi - 2 Rhagfyr) 2020, fe wnaeth nifer cyfartalog defnyddwyr wythnosol eu gwefan sy'n canolbwyntio ar droseddwyd - *Stop It Now! [Stopiwch Nawr] Get Help* - gynyddu o 128%.

Mae'r risg i blant o gael eu cam-drin yn rhywiol ar-lein, ochr yn ochr â mathau eraill o niwed ar-lein, yn debygol o fod wedi cynyddu o ganlyniad i fesurau ynysu, â phlant yn cael eu haddysgu ac yn treulio mwy o amser ar-lein. Gwelwyd cynnydd parhaus mewn adroddiadau cyhoeddus i drefn Camfanteisio ar Blant ac Amddiffyn Ar-lein (CEOP) yr NCA rhwng Ebrill ac Awst 2020, a derbyniwyd 29% yn fwy o adroddiadau o gymharu â'r un cyfnod yn 2019. Hefyd roedd lefel yr adroddiadau gan blant yr ystyriwyd eu bod yn risg uchel yn uwch rhwng dechrau mis Ebrill ac Awst 2020, sef oddeutu 64% o'i chymharu ag oddeutu 35% yn 2019. Yn 2020, prosesodd yr Internet Watch Foundation 16% yn fwy o adroddiadau yn cynnwys deunydd cam-drin plant yn rhywiol o'i gymharu â 2019, sy'n cyfateb i filiynau o ddelweddau a fideos. O'r adroddiadau hyn, fe fu cynnydd o 77% mewn delweddau a fideos yn cynnwys deunydd cam-drin plant yn rhywiol a gynhyrchwyd gan unigolion eu hunan o'i gymharu â chyfanswm 2019. Efallai fod hyn ddangos cynnydd yn nifer y plant sy'n cael eu paratoi'n amhriodol neu eu gorfodi i gyflawni gweithredoedd rhywiol a/neu gynnydd mewn "secstio", a all olygu ymddygiad rhywiol niweidiol a gwneud plant a phobl ifanc yn agored i flacmel a cham-drin.

Nid cartref yw'r lle diogel y dylai fod i bob plentyn a gallai mesurau cyfyngiadau symud fod wedi cynyddu'r risg ynghylch mathau o gam-drin rhyng-deuluol. Fodd bynnag, efallai fod plant hefyd wedi cael rhywfaint o amddiffyniad rhag camdriniaeth rhyng-deuluol oherwydd presenoldeb rhieni, gofawyr neu aelodau'r teulu nad ydynt yn cam-drin yn y cartref.

Yn anterth y cyfyngiadau symud, gellid lleihau'r risgiau o ran camfanteisio'n rhywiol ar blant y tu allan i'r cartref oherwydd bod plant, pobl ifanc a chyflawnwyr yn cael eu gorfodi i aros gartref. Wrth i gyfyngiadau gael eu lleddfu, gallai'r risgiau o ran camfanteisio â chyswllt yn y gymuned godi wrth i blant a phobl ifanc dreulio mwy o amser mewn mannau cyhoeddus eto.

Rydym wedi gweithio'n agos gyda'r sector gorfodi'r gyfraith, cymuned gudd-wybodaeth y DU, partneriaid diogelu a'r trydydd sector i asesu effaith COVID-19 ar fygythiad cam-drin plant yn rhywiol a sicrhau bod ganddynt yr adnoddau sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â throseddu, amddiffyn plant, a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr. Mae'r Strategaeth hon yn manylu ar rai o'r ffyrdd yr ydym wedi cryfhau ein hymateb o ganlyniad i COVID-19, ochr yn ochr â'n gweledigaeth hirdymor ar gyfer sicrhau bod y system gyfan wedi'i chyfarparu i fynd i'r afael â'r bygythiad.

Rhan 3: Ein huchelgais ar gyfer y dyfodol

Amcan 1: Mynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol a dod â throseddwy'r o flaen eu gwell

101. Rhaid i ni fynd ymhellach yn ein gweithredoedd i amddiffyn plant rhag cael eu cam-drin yn rhywiol a bod yn ddi-baid wrth fynd ar ôl troseddwy'r - gan sicrhau bod troseddwy'r yn cael eu hadnabod, eu stopio a'u dwyn o flaen eu gwell. Gall plant ddioddef cam-drin gan aelod o'r teulu neu berson sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth; cael eu targedu gan ddieithriaid yn eu cymuned leol; cael eu hecsbloetio gan grwpiau neu gangiau; neu eu cam-drin gan gyfoedion, a allai eu hunain fod yn ddioddefwyr. Yn gynyddol, mae plant yn cael eu targedu ar-lein gan gyflawnwyr sy'n gallu eu cyrraedd yn unrhyw le trwy ddyfeisiau digidol, hyd yn oed mewn amgylcheddau cartref sy'n ymddangos yn ddiogel. Mae'r sector gorfodi'r gyfraith a phartneriaid allweddol eraill yn dweud wrthym fod troseddwy'r yn paratoi ac yn blacmelio plant i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol ar-lein, neu i gwrdd fel y gallant eu cam-drin yn bersonol. Mae rhai o'r troseddwy'r hyn yn dod yn fwy trefnus ac yn defnyddio technoleg soffistigedig i gyfnewid delweddau cam-drin plant yn rhywiol ac awgrymiadau er mwyn osgoi cael eu canfod.
102. Rydym yn parhau i wneud cynnydd allweddol yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â throseddwy'r, gan gryfhau gallu ein hasiantaethau gorfodi'r gyfraith i gadw i fyny â natur ddatblygol y bygythiad. Yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2020, cynyddodd arestiadau yn ymwneud â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein o 50% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, gan gyrraedd 7,212 o arestiadau, a diogelwyd 8,329 o blant. Dros 1.3 miliwn o ddelweddau anweddus unigrywYchwanegwyd llawer o ddelweddau o blant (gan gynnwys dros 45,000 o fideos) at y Gronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant (CAID) yn y chwe mis hyd at ddechrau mis Ionawr 2021, gan alluogi adnabod dioddefwyr, goroeswyr a throseddwy'r yn gyflymach ac yn fwy effeithiol. Arddangosir ein cynnydd gan y cynnydd yn nifer y dioddefwyr a'r goroeswyr a nodwyd mewn delweddau anweddus o blant yn 2019/20 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol - i fyny o 43% i 793 o ddioddefwyr a goroeswyr, y nifer uchaf i'w nodi mewn un flwyddyn.
103. Serch hynny, byddwn yn mynd ymhellach i arfogi ein hasiantaethau gorfodi'r gyfraith â'r offer, yr adnoddau a'r pwerau sy'n angenrheidiol i ddatgelu a mynd i'r afael â mwy o gam-drin plant yn rhywiol, parhau i hyrwyddo dull plismona sy'n canolbwyntio ar y plentyn ac sy'n wybodus am drawma, a sicrhau bod gan erlynwyr y capasiti a'r gallu i ddod â mwy o droseddwy'r o flaen eu gwell.

Mesurau ar gyfer gwella

- Bydd nifer cynyddol o amhariadau a fydd yn arwain at ostyngiad yn y bygythiad cyffredinol o gam-drin plant yn rhywiol, fel y gwelir yn yr adroddiadau cudd-wybodaeth a aseswyd
- Bydd blaenoriaethu troseddwyd yn dod yn fwy cadarn, gan alluogi'r sector gorfodi'r gyfraith i dargedu'r rhai yr asesir eu bod yn achosi'r niwed mwyaf
- Byddwn yn prosesu gwaith fforensig digidol ar ddeunydd cam-drin rhywiol plant yn gyflymach, yn ogystal â nodi mwy o ddioddefwyr a throseddwyd, a lleihau mynediad at ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol
- Bydd cynnydd yn nifer y treialon effeithiol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol
- Byddwn yn cynyddu effeithiolrwydd Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol, Gorchmynion Risg Rhywiol a Hysbysiadau Rhybuddio Herwyddio Plant

1.1 Adeiladu gallu yn y system cyfiawnder troseddol

104. Bydd trawsnewid ein dull o fynd ar drywydd troseddwyd yn galw am adnoddau ychwanegol, wedi'u blaenoriaethu i gael yr effaith fwyaf ar draws pob math o gam-drin plant yn rhywiol ac yn ddigon ystywyth i ymateb i newid. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi buddsoddi'n sylweddol i ehangu gallu'r sector gorfodi'r gyfraith ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol i fynd i'r afael ag aflonyddu ar raddfa, ac aflonyddu arno, a byddwn yn parhau i wneud hynny.
105. **Yn 2019, fe wnaethom gyhoeddi ymgyrch ddigynsail i gynyddu nifer y swyddogion heddlu o 20,000 dros dair blynedd i sicrhau bod gan blismona'r gweithlu sydd ei angen arnynt i fynd i'r afael â phob math o drosedd, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol.** Fe wnaethom ddarparu £750 miliwn yn 2020 i gefnogi heddluoedd i recriwtio hyd at 6,000 o swyddogion ychwanegol i'n strydoedd erbyn diwedd 2020/21, y cam cyntaf yn yr ymgodiad hwn. Mae Gweinidogion yn cefnogi'r defnydd o gyfran o Raglen Ymgodiad yr Heddlu ym mlynnyddoedd dwy a thair i gefnogi ymateb plismona i droseddau cyfundrefnol difrifol (SOC), ac rydym yn gweithio gyda'r sector i benderfynu sut y gellir defnyddio'r swyddogion hyn i gael yr effaith fwyaf yn erbyn y mathau mwyaf difrifol o droseddoldeb, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol. **Rydym hefyd yn parhau i ddarparu cyllid i sawl ymchwiliad ac ymgyrch sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol trwy Grant Arbennig yr Heddlu, sef cyfanswm o ychydig dros £16.25 miliwn yn 2019/20.**
106. Mae adroddiadau arolygu'n pwysleisio bod niferoedd cynyddol o achosion amddiffyn y cyhoedd, gan gynnwys achosion cam-drin plant yn rhywiol, yn rhoi pwysau ar ieuchyd, lles a gallu staff. Byddwn yn gweithio i ddarparu cymorth o ansawdd uchel i swyddogion a staff trwy Wasanaeth Lles Cenedlaethol yr Heddlu a Chyfamod yr Heddlu, gan gydnabod y rôl y mae hyn yn ei chwarae wrth alluogi ymateb sensitif gan y sector gorfodi'r gyfraith, wedi'i lywio gan ddioddefwyr, a sicrhau na chollir arbenigedd trwy drawma eilaidd neu orflinder.

Byddwn yn tarfu ar y troseddwy'r sy'n achosi'r niwed uchaf ar-lein ac yn diogelu mwy o blant trwy fuddsoddi mewn swyddogion cudd ar-lein a galluoedd gwe tywyll yr NCA

107. Mae swyddogion cudd ar-lein (UCOLs), sy'n gweithio o fewn Unedau Troseddu Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs) a'r NCA, yn allu allweddol ar gyfer gorfodi'r gyfraith sy'n cynnwys timau sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig a seilwaith i dargedu ac aflonyddu ar y troseddwy'r sydd yn achosi'r niwed uchaf. Er mwyn sicrhau bod galluoedd UCOL yn cael eu cynnal a'u cryfhau, fe wnaethom ddarparu buddsoddiad arall o £9.81 miliwn yn 2020.
108. **Yn 2020 fe wnaethom fuddsoddi £20.76 miliwn i adeiladu gallu'r gweithlu a gallu technegol yr NCA.** Defnyddiwyd £9.86 miliwn i wella gallu'r NCA i fynd i'r afael â chyflawnwyr sy'n ceisio troseddu yn erbyn plant trwy'r we dywyll. Byddwn hefyd yn gwella swyddfa atgyfeiriadau'r NCA â buddsoddiad o £2.35 miliwn, gan wneud prosesu atgyfeiriadau'r diwydiant ar gyfer cam-drin ar-lein yn gyflymach a galluogi gweithgarwch a arweinir gan NCA i ddiogelu mwy o blant.

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 2019, ar ôl ymchwiliad gan yr NCA, cafwyd troseddwr yn euog o droseddau rhyw â phlant a dedfrydwyd ef i 15 mlynedd yn y carchar a Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol amhenodol. Roedd wedi bod yn edrych ar ddelweddau anweddus o blant ers dwy flynedd ac, yn ystod yr amser hwn, ymunodd â thrafodaethau ag unigolion o'r un anian ar fforymau ar-lein, gan rannu awgrymiadau i gyflawni troseddau ac osgoi cael eu canfod.

I ymuno â grŵp trafod preifat ar-lein ar gyfer pedoffilyddion, a oedd ag amod bod aelodau newydd yn gorfod postio delweddau cam-drin newydd, aeth ymlaen o edrych ar ddeunydd cam-drin plant yn rhywiol i'w gynhyrchu a'i rannu ar-lein, gan lanlwytho lluniau ohono'i hun yn treisio merch fach chwe mis oed ac ymosod yn rhywiol ar fachgen dwy oed.

1.2 Gwneud y mwyaf o adnoddau, cryfhau cudd-wybodaeth a sbarduno cydweithredu

109. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn aml yn gymhleth iawn, gan gynnwys technoleg soffistigedig a rhwydweithiau trefnus a chroesi ffiniau lluoedd lleol a chenedlaethol. Felly mae ein hymateb yn galw am gydlynw ar lefelau rhyngwladol, cenedlaethol a rhanbarthol.
110. Mae angen i ni ddefnyddio grym llawn y Wladwriaeth i wrthsefyll graddfa ac effaith gynyddol cam-drin plant yn rhywiol. Er mwyn brwydro yn erbyn y bygythiad hwn yn effeithiol mae angen galluoedd data, cudd-wybodaeth ac asesu newydd sy'n ehangu ein dealltwriaeth o ymddygiadau troseddol, ochr yn ochr â blaenoriaethu a gwneud y mwyaf o'r defnydd o'n galluoedd diogelwch cenedlaethol presennol.

111. Gan ddefnyddio ein hoffer dadansoddol a chudd-wyubodaeth sy'n arwain y byd, byddwn yn parhau i ddefnyddio galluoedd unigryw GCHQ, gan weithio ochr yn ochr â'r NCA a phlisma, i ddefnyddio dull system gyfan o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a throddeddu.
112. **Byddwn yn gwella ein gallu cudd-wybodaeth, gan adeiladu ar asedau presennol er mwyn datblygu dealltwriaeth drylwyr a chyfoes o'r bygythiad sy'n defnyddio data, mewnwelediad a dadansoddiad gan bob sefydliad sy'n gweithio i frwydro yn erbyn cam-drin plant yn rhywiol.** Un gydran o hyn fydd buddsoddi ymhellach yn y Ganolfan Asesiadau Genedlaethol, a gedwir yn yr NCA, sy'n defnyddio ei safle unigryw i ddarparu asesiadau bygythiad cyfoes. Ochr yn ochr â hyn, bydd GCHQ yn darparu mewnwelediadau bygythiad arbenigol, traws-sector, gan lywio'r modd y cyflenwir yn weithredol a sicrhau y cedwir y broses o lunio polisiâu o flaen y bygythiad. Bydd y gweithgareddau hyn yn llywio ac yn galluogi'r holl gymuned gwrth-gam-drin plant yn rhywiol.
113. **Bydd y Llywodraeth yn sbarduno gweithgarwch cydgysylltiedig sy'n gwneud y mwyaf o'n hymateb system gyfan i gam-drin plant yn rhywiol, gan gytuno ar rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer partneriaid gweithredol sydd gyda'i gilydd mewn sefyllfa i ddarparu ymateb cyflym, rhagweithiol a chynhwysfawr.** Bydd y Swyddfa Gartref yn gosod ac yn berchen ar bolisi strategol, â'r NCA yn arwain ymateb gweithredol gan y sector gorfodi'r gyfraith genedlaethol. Bydd yr NPCC yn sbarduno ymatebion lleol effeithiol a bydd GCHQ yn arwain ar nodi a datblygu atebion i broblemau systemig ar y rhynggrwyd. Bydd hyn yn adeiladu ar [argymhellion 2019 y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus](#), â'r Swyddfa Gartref yn sicrhau cydweithredu ac yn darparu'r offer i bartneriaid sicrhau gwerth unigryw a'r canlyniadau gorau i ddioddefwyr a goroeswyr.

Byddwn yn cyfuno galluoedd ar draws asiantaethau trwy fuddsoddi yn y Tîm Ymgyrchoedd ar y Cyd, gan gyfuno setiau sgiliau cudd-wybodaeth a dadansoddol NCA a GCHQ

114. Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd i gyfuno galluoedd ar draws asiantaethau trwy barhau i fuddsoddi yn y Tîm Ymgyrchoedd ar y Cyd, sy'n cyfuno setiau sgiliau cudd-wybodaeth a dadansoddol GCHQ a NCA â gallu'r sector gorfodi'r gyfraith genedlaethol i dargedu'r troeddwy'r mwyaf soffistigedig yn dechnolegol ar-lein. **Bydd y Llu Seiber Cenedlaethol yn gweithio i gefnogi'r Tîm Ymgyrchoedd ar y Cyd, gan ddefnyddio ei alluoedd a'i wybodaeth dechnegol i helpu i ganfod, aflonyddu ar ac atal cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.**
115. Gan dynnu arwersi o bob rhan o ddiogelwch cenedlaethol, byddwn yn gweithio gyda phartneriaid cyflenwi i wella ein gallu i gaffael, dadansoddi a rhannu data fel bod cudd-wybodaeth yn cael ei chynhyrchu a'i lledaenu'n effeithiol rhwng y Llywodraeth, asiantaethau cudd-wybodaeth, cyrff anlywodraethol a phlisma. Ymhellach, byddwn yn datblygu ac yn

alinio'r systemau cyfrifiadura cwmwl ar gyfer y sectorau hyn er mwyn rhannu data, gwybodaeth a mewnwleidiad sy'n helpu i frwydro yn erbyn cam-drin plant yn rhywiol.

116. Mae'n amlwg bod ansawdd a maint y data a gesglir ar nodweddion troseddwy a dioddefwyr, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, oedran, rhyw ac ethnigrwydd, yn annigonol. Mae hefyd angen gwella ansawdd a maint y data a gesglir mewn perthynas â modus operandi troseddu. Amlygwyd hyn gan gyhoeddiad diweddar y Swyddfa Gartref o'r [papur ar ecsbloetio plant yn rhywiol mewn grŵp](#), nad oedd yn gallu dod i gasgliadau cadarn ynghylch rhai nodweddion ac a ddaeth yn siom i rai, gan gynnwys dioddefwyr a goroeswyr. Felly mae angen casglu data mwy cadarn ar nodweddion, ynghyd â gwaith dadansoddi pellach ar ydata hyn, er mwyn deall troseddwy a dioddefwyr yn well oherwydd bod ffactorau cymunedol, diwylliannol a ffactorau eraill yn amlwg yn berthnasol i ddeall a mynd i'r afael â throseddu. **Bydd y Swyddfa Gartref yn ymgysylltu â phartneriaid cyfiawnder troseddol, academyddion, melinau trafod, elusennau a gweithwyr proffesiynol rheng flaen ar wella'r ystod o ddata a gesglir ar hyn o bryd, ansawdd y data a gesglir, a thynnu mewnwleidiadau o'r data i helpu i amddiffyn plant trwy atal a chanfod troseddu.**
117. **Mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn buddsoddi i gryfhau ymatebion yn seiliedig ar le i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau trwy wella casglu ac uniondeb data'r heddlu ar lefelau rhanbarthol a chenedlaethol.** Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn dadansoddwyr ym mhob un o'r rhanbarthau plismona a fydd yn parhau i ddatblygu casgliad data chwarterol ar gyfanrwydd yr achosion cam-drin plant yn rhywiol a wneir gan heddluoedd, yn ogystal ag adnewyddu'r Gronfa Ddata Ymgyrchoedd Cam-drin ar Blant yn Rhywiol a Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a fydd yn cipio manylion niferoedd y dioddefwyr a throseddwy, nodweddion, a modus operandi.
118. **Yn ogystal, bydd y Swyddfa Gartref yn darparu cyllid yn 2021/22 i gwmpasu cyflenwi prosiect Mynd i'r Afael â Chamfanteisio Trefnedig**, lle bydd yr heddlu - gan weithio ar y cyd â Gallu Camfanteisio Data Cenedlaethol yr NCA a'r Ganolfan Asesiadau Genedlaethol - yn gwella cudd-wybodaeth, dadansoddeg a thasgau i ymateb yn fwy cynhwysfawr i gamfanteisio trefnedig ar bobl agored i niwed.
119. Mae angen i ni hefyd fynd i'r afael â natur gynyddol fyd-eang cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys trwy ein gwaith ataliol rhyngwladol, gosod safonau byd-eang a rennir a chynllun gweithredu i fynd i'r afael â throseddwy trawswladol rhyw â phlant, fel yr amlinellwyd yn [Amcan 3.7](#).

1.3 Gwella'r offer a'r pwerau sydd ar gael i orfodi'r gyfraith

120. Fel Llywodraeth, mae angen i ni sicrhau bod gan swyddogion gorfodi'r gyfraith sy'n gweithio'n ddi-baid i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol y ddealltwriaeth a'r pwerau cyfreithiol sy'n angenrheidiol i fynd i'r afael â throseddu a diogelu plant.
121. **Rydym wedi rhoi pwerau cyfreithiol i'r sector gorfodi'r gyfraith i fynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys Gorchmynion Atal Niwed Rhywiol (SHPOs), Gorchmynion Risg Rywiol (SROs) a Hysbysiadau Rhybuddio Herwyddio Plant, a byddwn yn mynd ymhellach trwy ystyried pa bwerau a gorchmynion sifil ychwanegol neu ddiweddaedig a fyddai'n gwella ymateb y sector gorfodi'r gyfraith** (gweler [Amcan 2.3](#)).

Yn ogystal, rydym yn gwneud diwygiadau i'r system mechnïaeth cyn cyhuddo, gan gynnwys annog mwy o ddefnydd o fechnïaeth cyn cyhuddo lle bydd angen a lle mae'n gymesur, i sicrhau bod mechnïaeth yn cael ei defnyddio'n effeithiol i amddiffyn tystion a dioddefwyr a goroeswyr, i gefnogi'r heddlu wrth iddynt reoli ymchwiliadau yn amserol, ac annog mwy o ymgysylltiad â dioddefwyr a goroeswyr i'w galluogi i chwarae rhan fwy yn y broses.

122. Gan gydnabod yr angen i ddiwygio'r gyfraith sy'n llywodraethu gwarantau chwilio, yn arbennig o ran cyrchu tystiolaeth electronig fel yr hyn sy'n ymwneud â deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein, gwahoddodd y Swyddfa Gartref Gomisiwn y Gyfraith i gynnal ei [adolygiad](#) Gwarantau Chwilio diweddar Rydym yn croesawu'r adroddiad a byddwn yn ystyried ei argymhellion yn ofalus er mwyn sicrhau bod gan yr heddlu'r pwerau angenrheidiol i gasglu tystiolaeth yn effeithiol i erlyn troseddswyr.

Mynd i'r afael â chamfanteisio'n rhywiol ar blant yn y gymuned

Dros y degawd diwethaf, fe fu ymwybyddiaeth gynyddol o achosion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant a gyflawnir gan grwpiau o droseddswyr mewn cymunedau lleol. Mae ymchwiliadau proffil uchel mewn lleoedd megis Rotherham, Swydd Rydychen, Huddersfield a Newcastle wedi amlygu sefyllfaoedd cymhleth lle mae troseddu rhywiol â hplant wedi amlhau trwy rwydweithiau (y cyfeirir atynt weithiau fel 'gangiau paratoi i bwrpas rhyw') dros flynyddoedd neu hyd yn oed ddegawdau. Mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn mynd ar drywydd gwaith ar nifer o feysydd i ddeall graddfa a natur camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau i hyrwyddo a chefnogi gwaith atal, aflonyddu, gorfodi'r gyfraith a diogelu mwy effeithiol gan asiantaethau lleol. Hyd yn hyn, mae hyn wedi cynnwys: adolygiad o dystiolaeth gyhoeddedig ar y math hwn o droseddu, cynnal cyfweiliadau â swyddogion heddlu sydd wedi ymchwilio i droseddu mewn grŵp, a dadansoddi data archwiliadol.

Ar 15 Rhagfyr 2020 fe wnaethom gyhoeddi [papur](#) yn crynhoi'r mewnwelediadau o'r gwaith hwn, yn dilyn cyfnod o ymgysylltu â grŵp cyfeirio allanol sy'n cynnwys arbenigwyr pwnc. Mae'r papur yn yn ei gwneud yn glir bod diffyg data a thystiolaeth gadarn yn y gofod hwn, sy'n ei gwneud yn anodd dod i gasgliadau cadarn. Mae'r canfyddiadau'n dangos bod troseddswyr sy'n ymwneud â chamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau yn ddynion yn bennaf ond nid yn gyfan gwbl, ac yn aml o dan 30 oed, er eu bod yn llawer hŷn mewn rhai achosion. Mae'r rhwydweithiau y mae troseddswyr yn gweithredu ynddynt yn tueddu i fod â chysylltiad llac ac yn seiliedig ar gysylltiadau cymdeithasol sy'n bodoli eisoes, megis teulu a gwaith. O ran y cwestiwn penodol o sut mae gwahanol grwpiau ethnig yn cael eu cynrychioli ym mhoblogaeth y troseddswyr, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau pendant, gan nad yw'r data ac asiantaethau eraill yn casglu'r data hyn yn gyson. Nid yw'r math hwn o droseddu wedi'i gyfyngu i unrhyw un grŵp ethnig. Mae'r rhan fwyaf o ymchwil wedi canfod bod troseddswyr camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grwpiau yn wyn yn fwyaf cyffredin, tra bod peth ymchwil wedi awgrymu gor-gynrychiolaeth o droseddswyr Du ac Asiaidd o'u cymharu â demograffeg y boblogaeth genedlaethol. Mae'n bwysig pwysleisio bod yr holl ymchwil yn y maes hwn yn ddarostyngedig i'r un cyfyngiadau o ran data o ansawdd gwael. Mae cymhellion rhwng troseddswyr yn wahanol a gallant gynnwys enillion ariannol, boddhad rhywiol neu ddiddordeb rhywiol mewn plant. Gall safbwyntiau misogynistaidd yn ogystal â dymmeg grŵp lle mae dioddefwyr yn cael eu diystyru ac mae throseddswyr yn credu y gallant weithredu heb gosb gyfrannu at greu amgylchedd

caniataol ar gyfer y cam-drin hwn. Mae elfennau mynych y troseddu hwn yn cynnwys cychwyn cyswllt â phlant a phobl ifanc mewn ardal leol a rennir, eu paratoi (yn ogystal ag oedolion arwyddocaol, megis rhieni) i gredu bod y plentyn mewn perthynas gyfreithlon â'r troseddwr, a defnyddio partïon, cyffuriau ac alcohol i fanteisio arnynt. Mae'r cam-drin ei hun yn aml yn digwydd mewn lleoliadau preifat neu fasnachol, ond gwelwyd ei fod yn digwydd mewn mannau cyhoeddus hefyd.

Mae'r Strategaeth hon wedi'i llywio gan ein dealltwriaeth gynyddol o gamfanteisio ar blant yn rhywiol mewn grwpiau, a bydd y polisiâu a amlinellir drwyddi draw - i gryfhau diogelu, cefnogi dioddefwyr a goroeswyr, a bod yn wytnach yn ein hymateb gorfodi'r gyfraith - yn ein helpu'n uniongyrchol i fynd i'r afael ag ef. Bydd y camau hyn yn ategu mesurau penodol i dargedu troseddu mewn grŵp, gan gynhyrchu ymatebion lleol a rhanbarthol cryfach sy'n llywio ac yn elwa o ymateb polisi cenedlaethol gwell. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:

- Gwellu'r Pecyn Cymorth Tarfu ar Gamfanteisio ar Blant i ddarparu canllawiau strategol i asiantaethau lleol wrth broffilio, atal ac amharu ar y math hwn o droseddu ([Amcan 3.4](#));
- Parhau gefnogi asiantaethau lleol i frwydro yn erbyn camfanteisio trwy'r Rhaglen Atal Cymdeithas y Plant ([Amcan 3.3](#));
- Adeiladu ar y Rhaglen Atal trwy weithio gyda sectorau eraill, yn arbennig busnesau, i greu mannau lleol mwy diogel ([Amcan 3.3](#)), yn ogystal â chefnogi ymgysylltiad â ffocws â chymunedau i rwystro troseddwr posibl a chefnogi'r rhai sy'n bresennol i sylwi ar arwyddion camfanteisio a sut i riportio pryderon ([Amcan 2.1](#));
- Ymgysylltu â phartneriaid cyfiawnder troseddol, academyddion, melinau trafod, elusennau a gweithwyr proffesiynol rheng flaen ar wella ystod, ansawdd a dadansoddi'r data a gesglir ar nodweddion troseddwr a dioddefwyr er mwyn helpu i amddiffyn plant trwy atal a chanfod troseddu ([Amcan 1.2](#));
- Buddsoddi mewn dadansoddwyr rhanbarthol i barhau i ddatblygu casgliad data chwarterol ar gyfanrwydd yr achosion cam-drin plant yn rhywiol a wneir gan heddluoedd, yn ogystal ag adnewyddu'r Gronfa Ddata Ymgyrchoedd Cam-drin Plant yn Rhywiol a Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant ([Amcan 1.2](#));
- Gweithio gyda'r heddlu i ddatblygu dulliau arloesol o fynd i'r afael â chamfanteisio trefnedig trwy ddadansoddi a rhannu data'n well, â buddsoddiad o £760,000 mewn cyfnod cwmpasu yn 2020/21 ([Amcan 1.2](#)); a,
- Pharhau i ariannu nifer o ymchwiliadau mawr i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp trwy Grant Arbennig yr Heddlu ([Amcan 1.1](#)).

123. **Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio i wella dealltwriaeth ac ymateb y sector gorfodi'r gyfraith i fregusrwydd, yn ogystal â gwella arferion diogelu.** Rydym yn ariannu'r Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd dan arweiniad NPCC, sy'n gweithredu'r [Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Bregusrwydd](#), yn tynnu dysgu gorfodi'r gyfraith o adolygiadau achosion difrifol ac adroddiadau eraill, ac yn coladu ac yn lledaenu enghreifftiau ymarfer. Rydym hefyd yn ariannu'r Coleg Plismona i ddarparu gwerthusiadau ac astudiaethau

dichonoldeb ar enghreifftiau ymarfer dethol i wella ein tystiolaeth o ymyriadau sy'n gweithio i fynd i'r afael â thrais a bregusrwydd. Bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i adeiladu gallu diogelu plant trwy ariannu'r Coleg Plismona i gyflwyno eu Rhaglen Arweinwyr Amddiffyn a Diogelu'r Cyhoedd i wyth carfan arall o uwch swyddogion trwy gydol 2020/21.

1.4 Defnyddio technoleg sy'n arwain y byd i fynd i'r afael â deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar-lein

124. Mae graddfa'r deunydd cam-drin plant yn rhywiol (CSAM) ar-lein yn enfawr. Gellir ei gyrchu ar chwilotwyr cyffredin o fewn tri chlic ac mae niferoedd mawr o unigolion yn y DU ac yn fyd-eang yn edrych arno, gan ail-drawmateiddio dioddefwyr a goroeswyr. Mae 3.45 miliwn o gyfrifon cofrestredig byd-eang wedi cael eu datgelu gan yr NCA ar draws y deg gwefan dywyll waethaf ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, ag oddeutu 5-7% o'r rhain yn cael eu cynnal yn y DU. Yn ystod cyfnod o fis yn ystod y cyfyngiadau symud cyntaf yn 2020, mae'r Internet Watch Foundation yn amcangyfrif y bu 8.8 miliwn o ymdrechion gan ddefnyddwyr rhyngwrdd y DU i gael mynediad at ddelweddau cam-drin plant yn rhywiol. Mae graddfa a phatrymau cam-drin ar-lein yn codi cwestiynau ynghylch y potensial i normaleiddio'r math hwn o ymddygiad ymhlith troseddswyr, gan gynnwys trwy drafodaethau ag unigolion o'r un anian ar fforymau rhyngwrdd, a'r potensial i gynyddu i gam-drin plant yn rhywiol â chyswllt.

Byddwn yn buddsoddi yng Nghronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant (CAID) sy'n arwain y byd, a oedd yn cynnwys dros 16.8 miliwn o ddelweddau anwedus o blant (gan gynnwys dros 323,700 o fideos) ar ddechrau Ionawr 2021, i helpu'r sector gorfodi'r gyfraith i nodi mwy o droseddswyr a diogelu mwy o ddioddefwyr a goroeswyr

125. Gan ddechrau â buddsoddiad cychwynnol o £7 miliwn yn 2020/21, bydd rhaglen drawsnewid pum mlynedd CAID y Llywodraeth yn helpu'r sector gorfodi'r gyfraith i reoli graddfa CSAM trwy wella'r system CAID ymhellach, cyfoethogi data a chaniatáu rhannu data a galluoedd yn fwy. Byddwn yn defnyddio cyllid i ddatblygu system 'asgwrn cefn' CAID, yn ogystal â chyflwyno ac ymgorffori galluoedd newydd, megis awtomeiddio'r modd dosbarthu fideos a delweddau er mwyn cyflymu ymchwiliadau a lleihau'r angen am gatedoreiddio gweledol gan swyddogion. Yn ogystal, yn ddiweddar rydym wedi cyflwyno gallu paru wynebau i alluogi adnabod unigolion mewn delweddau a fideos. Bydd y camau hyn yn helpu i ddiogelu mwy o ddioddefwyr a goroeswyr, dod â mwy o droseddswyr o flaen eu gwell a chefnogi lles swyddogion yn well. Yn y dyfodol, bydd gallu Brysbennu Fforensig Cyflym yn cael ei gyflwyno i holl heddluoedd y DU er mwyn cyflymu'n fawr y broses o sganio dyfeisiau i nodi CSAM.

ASTUDIAETH ACHOS

Ym mis Mawrth 2019, dedfrydwyd troseddwr i 22 mlynedd o garchar ac fe'i gwnaed yn ddarostyngedig i Orchymyn Atal Niwed Rhywiol am dreisio bachgen pump oed a cham-drin merch dair oed yn rhywiol. Nodwyd delweddau o'r cam-drin trwy ymgyrch lle bu'r NCA, gan weithio gyda phartneriaid yn Ne Korea a'r Unol Daleithiau, yn cefnogi cymryd gwefan dywyll i lawr a oedd yn cynnwys 145,000 o fideos o gam-drin plant yn rhywiol.

Nid oedd wyneb y dyn i'w weld yn y fideos, ond roedd ymchwilyr yr NCA yn gallu defnyddio galluoedd adnabod arbenigol Cronfa Ddata Delweddau Cam-drin Plant i roi cliwiau at ei gilydd i'w adnabod ef a'r dioddefwyr.

126. Bydd gwelliannau i brosesau a seilwaith CAID yn galluogi rhannu clwydi CAID ('ôl bys' unigryw delwedd neu fideo o gam-drin plant yn rhywiol) yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Defnyddir hyn i sbarduno mwy o gydweithrediad rhwng y sector preifat a'r trydydd sector i nodi delweddau, atal eu lledaenu ar-lein, a'u tynnu oddi ar wefannau.
127. **Er mwyn helpu'r sector gorfodi'r gyfraith i flaenoriaethu eu gweithgarwch, byddwn yn parhau i fuddsoddi mewn cyfres o offer asesu risg ar gyfer pob heddlu yng Nghymru a Lloegr a'r NCA**, gan gynnwys dylunio ac adeiladu system gadarn, hyblyg sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer blaenoriaethu pobl dan amheuaeth o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn seiliedig ar risg a lleoliad daearyddol tebygol.
128. **Byddwn hefyd yn arfogi'r sector gorfodi'r gyfraith â'r gallu i gasglu, storio ac asesu meintiau mawr o dystiolaeth ddigidol ar gyflymder.**, gan gydnabod y dagfa sylweddol a achosir gan brosesu deunydd ffforensig digidol wrth ddod â throseddwyr cam-drin plant yn rhywiol o flaen eu gwell a bod achosion cam-drin plant yn rhywiol ar-lein yn cymryd 60% o'r holl allu ffforensig digidol y sector gorfodi'r gyfraith. Byddwn yn cefnogi [Strategaeth Gwyddoniaeth Fforensig Ddigidol NPCC](#) i gyflenwi mwy o effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd, cyflymu ymchwiliadau a gwella diogelu.

1.5 Dod â throseddwyr o flaen eu gwell

129. Mae angen i ni gyhuddo, erlyn a dedfrydu'n briodol droseddwr cam-drin plant yn rhywiol lle bynnag y bydd modd er mwyn rhoi'r cyfiawnder y maent yn ei haeddu i ddioddefwyr a goroeswyr ac i atal troseddwr rhag cyflawni cam-drin pellach. Er ein bod wedi gwneud cynnydd o ran dod â throseddwyr o flaen eu gwell, mae nifer gyffredinol yr erlyniadau am droseddau cam-drin plant yn rhywiol wedi gostwng o 29% ers 2017.
130. **Er mwyn cynyddu nifer y treialon effeithiol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, byddwn yn sbarduno ymateb system cyfiawnder traws-droseddol**, gan ddefnyddio strwythurau llywodraethu ategol i hwyluso cydweithredu rhwng adrannau'r Llywodraeth a phartneriaid cyflenwi, a dwyn y system i gyfrif.
131. Ar lefel ehangach, rydym yn buddsoddi i adeiladu gallu ar draws y system cyfiawnder troseddol. Ochr yn ochr â buddsoddiadau yn y sector gorfodi'r gyfraith, bydd y Llywodraeth yn defnyddio'r £85 miliwn ychwanegol a roddwyd i'r CPS i ymateb i dueddiadau gweithredol newidiol, gan

gynnwys y twf cyflym mewn tystiolaeth ddigidol ac unrhyw gynnydd mewn llwyth achosion o ganlyniad i'r nifer cynyddol o swyddogion heddlu. Byddwn hefyd yn cyflenwi 10,000 o leoedd carchar ychwanegol, gan ddefnyddio hyd at £2.5 biliwn i greu carchardai diogel sy'n cefnogi adsefydlu troseddwy'r a moderneiddio ystâd y carchardai.

132. **Gan gydnabod pwysigrwydd dilyniant achosion cyflym ar gyfer lles dioddefwyr a goroeswyr, bydd y Llywodraeth yn gweithio gyda'r CPS, yr NCA a'r heddlu i ddeall dilyniant achosion yn well ar gyfer achosion cam-drin plant yn rhywiol yn y system cyfiawnder troseddol a chyfleoedd i wella.** Byddwn hefyd yn datblygu mwy o ddata gronynnog ar achosion cam-drin plant yn rhywiol trwy ymgysylltu â Grŵp Gorchwyl a Gorffen Data Treisio'r System Cyfiawnder draws-Droseddol. Mae hwn wedi'i sefydlu i wella'n sylweddol sut mae'r system cyfiawnder troseddol yn casglu, rhannu a thynnu mewnwelediad o'r data treisio ar gyfer oedolion sydd ar gael ar hyn o bryd, a chefnogi gwell dealltwriaeth a monitro o dreisio a throseddau rhywiol difrifol trwy'r system cyfiawnder troseddol. Byddwn yn archwilio cyfleoedd i weithredu dysgu o'r gwaith hwn i achosion cam-drin plant yn rhywiol.
133. **Mae adolygiad o'i ddechrau i'w ddiwedd y Llywodraeth o'r ymateb cyfiawnder troseddol i drais rhywiol, a fydd yn adrodd yn gynnar yn 2021, yn ymchwilio i'r dirywiad mewn atgyfeiriadau, cyhuddiadau, erlyniadau ac euogfarnau a welsom ar gyfer achosion treisio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.** Er bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar achosion treisio ymhlith oedolion, bydd ei ganfyddiadau yn ein helpu i ddeall sut i sbarduno gwell ymateb i bob math o ymosodiad a cham-drin rhywiol, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol. Byddwn yn gweithio gyda'r sector gorfodi'r gyfraith a'r CPS i weithredu unrhyw ddysgu perthnasol i gam-drin plant yn rhywiol.
134. Fel rhan o'r adolygiad, fe wnaeth yr [Arolygiad ar Dreisio 2019 - Adolygiad thematig o achosion treisio gan Arolygiaeth Gwasanaeth Erlyn y Goron Ei Mawrhydi \(HMCPSI\)](#) amlygu'r angen i gryfhau cyfathrebu a chydweithio rhwng y sector gorfodi'r gyfraith a'r gwasanaeth erlyn. Rydym wedi ymrwmo i gynyddu effeithiolrwydd ymgysylltiad cynnar rhwng yr heddlu a'r gwasanaeth erlyn i adeiladu'r achosion cryfaf posibl i'r llys. Mae'r CPS wedi derbyn yr holl argymhellion yn adroddiad arolygu treisio HMCPSI ac, ynghyd â'r heddlu, bydd cynllun gweithredu Treisio a Throseddau Rhywiol Difrifol ar y cyd yn cael ei lansio yn 2021. Bydd hyn yn mynd i'r afael â materion a godwyd yn yr adroddiad ac, maes o law, unrhyw ganfyddiadau perthnasol o'r adolygiad traws-Lywodraethol. Byddwn hefyd yn edrych at yr adolygiad i'n helpu i ddeall unrhyw fylchau posibl yn hyfforddiant yr heddlu ar droseddau rhywiol ac yn gweithio gyda'r Coleg Plismona i fynd i'r afael ag unrhyw argymhellion.
135. **Er mwyn sicrhau bod gan erlynwyr y dealltwriaeth angenrheidiol, bydd y CPS yn parhau i ddiweddarau hyfforddiant a chanllawiau i erlynwyr sy'n delio ag achosion cam-drin plant yn rhywiol,** gan gynnwys trwy hyfforddiant newydd ar effaith trawma ar y cof, ac adolygu a diweddarau'r canllawiau i erlynwyr ar fythau treisio er mwyn adlewyrchu natur newidiol ymddygiadau rhywiol yn yr oes ddigidol.

Byddwn yn deddfu i sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol yn addas at y diben wrth ddiwallu her cam-drin plant yn rhywiol yn yr 21ain ganrif

136. Rhaid i unrhyw waith i wella capasiti a gallu'r system cyfiawnder troseddol gael ei ategu ag ymdrechion i sicrhau bod y fframwaith cyfreithiol a'r dedfrydu'n cadw i fyny â natur ddatblygol y drosedd ffiائد hon. Yn 2019 diweddarwyd canllawiau ar feithrin perthynas amhriodol ar-lein, troseddu yn cynnwys delweddau anwedus o blant, a throseddu a nodir trwy weithredwyr cudd ar-lein. Mae'r mwyafrif o droseddau cam-drin plant yn rhywiol hefyd wedi'u cynnwys yn y [Cynllun Dedfrydau Gor-drugarog](#), sy'n caniatáu i ddioddefwyr a goroeswyr herio penderfyniadau nad ydynt yn cadw at y safonau neu'r canllawiau cyfredol ac sy'n dechnegol drugarog.
137. **Er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn, byddwn yn deddfu i roi digon o bwerau i'r llysoedd ddedfrydu troseddwyr cam-drin plant yn rhywiol mewn ffordd sy'n adlewyrchu difrifoldeb eu troseddau ac sy'n cyfateb i lefel y risg y maent yn ei pheri i'r cyhoedd.** Rydym eisoes yn cryfhau'r ddeddfwriaeth baratoadol a ddefnyddir amlaf yn dilyn lleoli swyddogion cudd ar-lein i sicrhau bod y rhai sy'n ceisio cyflawni cam-drin plant yn rhywiol ar blant dan 13 oed yn cael dedfryd sy'n gweddu i fregusrwydd cynyddol dioddefwyr arfaethedig.
138. **Rydym hefyd wedi cyhoeddi [Papur Gwyn](#), Papur Gwyn yn nodi ein cynlluniau ar gyfer fframwaith dedfrydu a rhyddhau sy'n amddiffyn y cyhoedd yn well, gan gynnwys cynigion i sicrhau bod troseddwyr treisgar a rhywiol difrifol yn cael eu cadw yn y carchar am gyfnod hwy.** Er enghraifft, byddwn yn diddymu rhyddhau hanner ffordd yn awtomatig ar gyfer carfan ychwanegol o droseddwyr rhywiol a threisgar, a bydd y rhai sy'n gwneud dedfryd oes yn ôl disgrisiwn hefyd yn treulio mwy o amser yn y carchar cyn cael eu hystyried i'w rhyddhau. Wrth symud ymlaen, mae'n hanfodol bod y llysoedd wedi'u harfogi'n llawn i ddelio â newidiadau mewn technoleg, megis defnyddio platfformau cyfryngau cymdeithasol, yn y maes sensitif a phwysig hwn. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r MoJ i adolygu'r gyfraith droseddol ar droseddau rhywiol.

Amcan 2: Atal troseddu ac aildroseddu

139. Ein nod canolog yw atal cam-drin plant yn rhywiol rhag digwydd yn y lle cyntaf. Mae nifer y troseddwy'r cam-drin plant yn rhywiol a reolir gan y gwasanaeth prawf a'r heddlu yn tyfuu'n flynyddol. Mae adroddiadau arolygu hefyd yn amlygu'r angen i wella rheolaeth ar droseddwy'r rhyw cofrestredig (RSOs) a'r risg y maent yn ei pheri i blant. Mae atal yn hanfodol wrth ddiogelu plant, yn ogystal â lleihau'r baich ar y sector gorfodi'r gyfraith ac asiantaethau eraill sy'n gweithio'n ddiflino i erlid troseddwy'r. Felly byddwn yn sbarduno gwaith i atal troseddu cyn iddo ddigwydd, ac yn sicrhau bod y rhai sydd wedi troseddu yn destun asesiadau risg ansawdd a chynlluniau rheoli risg i liniaru'r bygythiad y maent yn ei beri.

Mesurau ar gyfer gwella

- Bydd adroddiadau arolygu yn amlygu gwelliannau mewn arferion rheoli a diogelu troseddwy'r, gan garchardai, y gwasanaeth prawf a'r heddlu.
- Bydd y sector gorfodi'r gyfraith yn dod yn fwy medrus wrth ganfod troseddu ac aildroseddu, gan gynnwys torri gofynion hysbysu a gorchmynion sifil.
- Bydd gennym ddealltwriaeth fwy datblygedig o'r hyn sy'n cynyddu ac yn lleihau'r risg o droseddu cam-drin plant yn rhywiol.
- Bydd mwy o bobl, gan gynnwys troseddwy'r posibl, y rhai sy'n agos atynt a gweithwy'r proffesiynol, yn ceisio cyngor a gwybodaeth ar osgoi ac atal.
- Bydd yr offer a'r prosesau sydd ar gael i'r sector gorfodi'r gyfraith i reoli troseddwy'r yn effeithiol yn dod yn fwy cadarn ac yn cael tystiolaeth dda.

2.1 Rhwystro troseddwy'r posibl

140. Mae rhwystro unigolion rhag cyflawni cam-drin plant yn rhywiol yn hanfodol i atal cam-drin plant yn rhywiol rhag digwydd, sicrhau diogelwch plant a lleihau galwadau ar orfodi'r gyfraith.

Byddwn yn buddsoddi mewn gwybodaeth a chyngor i rwystro troseddu cam-drin plant yn rhywiol a gwella ein dealltwriaeth ohono

141. **Yn gyntaf, mae'n rhaid i ni sicrhau bod troseddwy'r posibl yn gwybod y byddant yn cael eu dal ac yn wynebu canlyniadau difrifol os ydynt yn ymgymryd ag unrhyw fath o gam-drin plant yn rhywiol, p'un a yw'n gyswllt neu'n gam-drin rhywiol ar-lein.** Rhaid i droseddwy'r posibl ddeall ein bod yn defnyddio grym llawn y gyfraith, gan gynnwys ein galluoedd cudd-wybodaeth a amlinellir yn [Amcan 1](#), i ddod o hyd i'r rhai sy'n cam-drin plant yn rhywiol a'u herlyn.

142. Gellir rhwystro rhai troseddwy'r posibl rhag cyflawni cam-drin â'r ymyrraeth iawn ar yr amser iawn. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, rydym wedi ehangu'r sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio o ran ymatal er mwyn annog pobl i ymatal rhag troseddu, ac wedi buddsoddi mewn mentrau i ymyrryd ag unigolion sy'n ymddangos fel eu bod mewn perygl o droseddu. Nod Sefydliad Lucy Faithfull yw atal cam-drin plant yn rhywiol trwy gynnig cyngor a chymorth i bobl sy'n amau camdriniaeth ac i'r rhai sy'n poeni am eu meddyliau neu eu hymddygiad eu hunain. Yn 2019 yn unig yn y DU, fe wnaeth pobl a oedd yn ceisio cymorth â gwefan a llinell gymorth y sefydliad gysylltu 94,342 o weithiau.
143. **Byddwn yn cefnogi mentrau cenedlaethol a lleol i droi pobl i ffwrdd o droseddu, gan gynnwys trwy barhau i fuddsoddi yn *Stop It Now! [Stopiwch Nawr] Stop It Now!*.** Byddwn yn cefnogi'r sefydliad i ehangu cyfeirio a chyrhaeddiad ei wasanaethau, gan ganolbwyntio ar grwpiau sydd mewn perygl, amgylcheddau risg uchel ar-lein, a lleoliadau effeithiol yn y gymuned leol.

ASTUDIAETH ACHOS

Fe wnaeth dyn 27 oed ffonio llinell gymorth Stop It Now! yn pryderu am ei feddyliau rhywiol tuag at ei nith 8 oed. Nid oedd wedi cyrchu unrhyw ddelweddau anwedus o blant ar-lein, ond nododd ei fod yn gwyllo pornograffi cynyddol eithafol yn cynnwys oedolion.

Cafodd ei annog i feddwl am ganlyniadau ei ymddygiad a beth fyddai'n digwydd pe byddai'n gweithredu ar ei feddyliau amhriodol. Dros gyfres o alwadau, fe'i gefnogwyd i dorri'r holl fynediad heb oruchwyliaeth gydaphlant, gwneud newidiadau cadarnhaol i'w ffordd o fyw, a siarad ag aelodau'r teulu am ei feddyliau. Mae'n parhau i ddefnyddio'r llinell gymorth ar gyfer cefnogaeth a chynngor parhaus, i ddiweddarau staff y llinell gymorth ar ei gynnydd a rhannu unrhyw bryderon sydd ganddo.

144. Mae ymchwil a gynhaliwyd gyda Sefydliad Lucy Faithfull yn awgrymu y byddai unigolion sy'n pryderu am eu hysfeydd rhywiol yn fwyaf tebygol o ofyn am gyngor ynghylch hyn gan ymarferwyr iechyd. **Byddwn yn gweithio i sicrhau bod gweithwyr gofal iechyd proffesiynol yn cael eu hysbysu am gam-drin plant yn rhywiol a bod ganddynt yr hyder a'r gallu i gyfeirio'r rhai sy'n ceisio cymorth at y ffynonellau cymorth cywir i helpu i'w hatal rhag ymddygiad ymosodol, tra hefyd yn cydnabod eu cyfrifoldeb i ddiogelu plant.**
145. Gall darlun clir o droseddu helpu i sbarduno dulliau mwy gwybodus i rwystro ac atal troseddu yn y lle cyntaf, yn ogystal ag ymateb mwy effeithiol gan y sector gorfodi'r gyfraith. Felly mae'n hanfodol gwella ein dealltwriaeth o droseddwy'r ac ymddygiad troseddol. **Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol wrth dynnu ynghyd ymchwil a mewnwelediadau gweithredol i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar droseddu cam-drin plant yn rhywiol a chynyddu potensial gweithgarwch i'w atal.**
146. Bydd y Swyddfa Gartref yn dwyn ynghyd y dystiolaeth a'r wybodaeth bresennol ar droseddwy'r rhyw â phlant, ochr yn ochr â dealltwriaeth gyffredinol o sut mae pobl sydd â phatrwm blaenorol o droseddu yn dod i ymatal rhag troseddu, er mwyn sicrhau bod y mewnwelediadau

hyn yn bwydo i'n proses o lunio polisiau. Byddwn hefyd yn ehangu ein hymchwil ar droseddwy, gan gynnwys defnyddio gwyddoniaeth ymddygiadol ac ymgynghori â'n partneriaid rhyngwladol.

147. **Gan adeiladu ar ein [papur a chanfyddiadau sy'n ymwneud â nodweddion camfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp yn y gymuned](#), byddwn yn gweithio gyda phartneriaid diogelu lleol a sefydliadau cymunedol i ddatblygu a hyrwyddo dulliau strategol o ymgysylltu â'r gymuned**, i helpu i nodi, targedu ac atal troseddu mewn cymunedau ac annog pobl sy'n bresennol i riportio pryderon.

2.2 Gwella rheolaeth ar droseddwy mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf

148. Mae carcharu troseddwy yn ffordd bwysig o ddarparu cyfiawnder i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn ogystal ag amddiffyn y cyhoedd yn ehangach. **O 1 Ebrill 2020 ymlaen, bu'n ofynnol i'r troseddwy rhywiol a threisgar mwyaf difrifol y rhoddir dedfryd pendant safonol o saith mlynedd neu fwy iddynt wasanaethu dwy ran o dair o'u dedfryd yn y ddalfa, yn hytrach na chael eu rhyddhau hanner ffordd trwy eu dedfrydau.** Fel yr amlinellwyd yn [Amcan 1.5](#), rydym hefyd wedi mynd ymhellach trwy'r [Papur Gwyn Dull Doethach o Ddedfrydu](#).
149. Rydym wedi deddfu ymhellach i sicrhau, wrth wneud penderfyniadau ynghylch rhyddhau, bod y Bwrdd Parôl yn ystyried unrhyw fethiant gan droseddwr i ddatgelu lleoliad gweddillion eu dioddefwr neu hunaniaeth plant sy'n destun delweddau anwedus.
150. Mae atal aildroseddu gan droseddwy rhyw â phlant yn galw am wasanaeth prawf cryf ac effeithiol Rydym wedi nodi cynlluniau helaeth y Llywodraeth i [ddiwygio'r system brawf](#) a mynd i'r afael ag aildroseddu, cefnogi dioddefwyr troseddu a chadw'r cyhoedd yn ddiogel. Bydd hyn yn cynnwys dod â'r holl wasanaethau prawf o dan reolaeth y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a chryfhau prosesau ar gyfer monitro troseddwy yn y system brawf trwy reoli'r risgiau y maent yn eu peri, rhoi gwybodaeth i ddioddefwyr a goroeswyr, gorfodi amodau trwydded, a buddsoddi mewn staff prawf medrus.

Byddwn yn diwygio'r gwasanaeth prawf ac yn gweithio i wella rheolaeth ar bob troseddwr rhyw, gan gynnwys troseddwy cam-drin plant yn rhywiol

151. Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb i amddiffyn y cyhoedd rhag y rhai a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol yn ddifrifol iawn ac wedi cymryd camau i ymateb i'r bylchau yn ein hymateb a nodwyd mewn adroddiad arolygu thematig o 2019, a edrychodd ar reoli dynion a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol, gan gynnwys troseddau cam-drin plant yn rhywiol.
152. **Yn 2019, cyhoeddodd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) [gynllun gweithredu](#) yn esbonio sut y byddwn yn cryfhau ac yn gwella ein rheolaeth ar y rhai a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol.** Mae hyn yn cynnwys adolygu a chryfhau prosesau asesu risg; gwella'r ffordd y mae'r rhai yn y ddalfa yn cael eu cefnogi trwy gydol eu dedfryd;

sicrhau bod ymyriadau adsefydlu yn cael eu targedu at y bobl iawn ar yr amser iawn; a darparu hyfforddiant cadarn ar gyfer staff prawf sy'n gweithio gyda'r rhai a gafwyd yn euog o droseddau rhywiol. Er bod COVID-19 a chyfyngiadau dilynol wedi effeithio ar y cynllun hwn, rydym wedi addasu ein dull i sicrhau ei fod yn cael ei gyflenwi, megis trwy ddarparu hyfforddiant 'rithwir' ar gyfer staff.

153. **Mae'r MoJ wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn gwerthusiadau effaith rhaglenni sydd wedi'u hachredu gan HMPPS**, wrth gydnabod bod canlyniadau aildroseddu yn aml yn cymryd blynyddoedd i'w penderfynu a dim ond ar ôl gweithredu rhaglen yn llawn y gellir eu mesur. Ein huchelgais yw y bydd pob rhaglen achrededig yn cael gwerthusiad effaith tymor hir i fesur canlyniadau aildroseddu profedig, gan gydnabod dibyniaeth ar feintiau sampl sy'n ddigon mawr, argaeledd rheolaethau cymaradwy, a chyfnodau dilynol addas i ganfod newid ystadegol arwyddocaol rhwng triniaeth a grwpiau cymharu.

2.3 Gwella rheolaeth ar droseddwyr yn y gymuned

154. Mae gan y DU rai o'r pwerau gwytnaf yn y byd i ddelio â'r rhai a geir yn euog o droseddau rhywiol, ac rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod y system mor gadarn ag y gall fod. Mae pob unigolyn sy'n cael ei euogfarnu neu ei rybuddio am drosedd rywiol berthnasol yn dod yn destun gofynion hysbysu fel mater o drefn (y cyfeirir ato'n gyffredin fel y 'gofrestr troseddwyr rhyw') ac yn cael ei reoli yn y gymuned gan yr heddlu. Mae'n rhaid i lawer o droseddwyr rhyw gofrestru am gyfnodau hir felly mae nifer yr RSOs yn cynyddu bob blwyddyn, ac mae'n hanfodol bod asiantaethau gorfodi'r gyfraith ar bob lefel yn meddu ar yr offer a'r sgiliau sydd eu hangen i fonitro troseddwyr a nodi a rheoli aildroseddu.
155. **Oherwydd hynny, bydd yr Ysgrifennydd Cartref yn sicrhau bod rheolaeth yr heddlu ar RSOs yn y gymuned o dan Drefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd (MAPPA) yn gweithio'n effeithiol**, gan adeiladu ar adroddiadau arolygiaeth blaenorol sydd wedi ystyried rheolaeth mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf i sicrhau bod gan yr heddlu'r pwerau, y galluoedd, y llywodraethu a'r cyllid sy'n ofynnol i reoli'r unigolion hyn yn y gymuned mor effeithiol â phosibl.
156. Mae technoleg ddatblygol yn ei gwneud yn haws i'r rhai a geir yn euog o droseddau cam-drin plant yn rhywiol guddio eu gweithgarwch ac aildroseddu ar-lein. Mae angen cynyddu galluoedd technolegol y sector gorfodi'r gyfraith i'r eithaf er mwyn sicrhau bod ganddynt yr holl offer sydd eu hangen i fonitro defnydd o'r rhyngwrwyd gan droseddwyr rhyw. **Byddwn yn buddsoddi i ymestyn cynllun peilot sy'n darparu technoleg well i'r sector gorfodi'r gyfraith i fonitro gweithgarwch ar-lein RSOs sy'n cael eu rheoli yn y gymuned.**

Byddwn yn sicrhau bod rheolaeth yr heddlu ar droseddwyr rhyw cofrestredig yn y gymuned o dan Drefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd yn gweithio'n effeithiol ac yn buddsoddi mewn technoleg i nodi aildroseddu ar-lein

ASTUDIAETH ACHOS

Mae Heddlu Cumbria'n defnyddio Uned Fforensig Ddigidol Heddlu Cumbria i gynorthwyo wrth reoli troseddwyd rhyw cofrestredig. Ar ymweliad cartref â throseddwr rhyw cofrestredig, gofynnodd rheolwyr troseddwyd yr heddlu am weld unrhyw ddyfeisiau digidol oedd gan yr unigolyn. Cynhyrchodd ffôn symudol a gliniadur, gan nodi nad oedd ganddo ddyfeisiau eraill. Cynorthwyodd swyddogion yr Uned Fforensig Data reolwr troseddwyd yr heddlu i ddod o hyd i ddyfais ddigidol arall. Wedyn, cafodd y troseddwr rhyw cofrestredig ei arestio, ei remandio yn y ddalfa, ei alw yn ôl ar drwydded a'i ddedfrydu am dorri ei Orchymyn Atal Niwed Rhywiol.

157. Mae angen i asiantaethau gorfodi'r gyfraith hefyd gael y pwerau cywir i reoli troseddwyd yn effeithiol. Gall yr heddlu a'r NCA wneud cais i'r llysoedd i osod cyfyngiadau penodol ar weithgarwch RSOs a'r rhai sy'n peri risg o niwed rhywiol trwy orchymynion sifil. Er enghraifft, gall Gorchymynion Atal Niwed Rhywiol (SHPOs), Gorchymynion Risg Rhywiol (SROs) gyfyngu ar ddefnydd o'r rhyngwrwyd, rhyngweithio â phlant, mynediad atproffesiynau penodol a mwy. Byddwn yn parhau i hyrwyddo arferion gorau mewn perthynas â'r gorchymynion hyn.
158. **Byddwn yn ceisio cryfhau'r gorchymynion sifil hyn mewn sawl ffordd**, yn ogystal â monitro eu defnydd yn barhaus trwy gydweithrediad agos â phartneriaid gweithredol ac Adroddiadau Blynyddol MAPPA:
- **Byddwn yn galluogi llysoedd i osod rhwymedigaethau cadarnhaol ar RSOs a'r rhai sy'n peri risg o niwed rhywiol gan ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd rhan mewn camau penodol.** Er enghraifft, lle mae'n gymesur ac yn angenrheidiol, gallai asiantaethau gorfodi'r gyfraith wneud cais i'r llysoedd am SHPO neu SRO er mwyn gorfodi unigolyn i ymgymryd â rhaglen newid ymddygiad, triniaeth alcohol neu gyffuriau, neu ymostwng i brofion polygraaff fel rhan o reoli risg pan yw dan reolaeth yr heddlu yn y gymuned.
 - **Byddwn yn ehangu pŵer ymgeisio am SHPOs ac SROs y tu hwnt i'r heddlu a'r NCA,** gan ganiatáu i Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn wneud cais amdanynt hefyd.
 - **Byddwn yn darparu mewn deddfwriaeth ar gyfer y safon sifil o brawf sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau am orchymyn sifil**, yn ogystal ag egluro hyn o fewn canllawiau swyddogol.
 - **Byddwn yn cyflwyno darpariaeth benodol o fewn deddfwriaeth ar gyfer monitro unigolion yn electronig sy'n destun SROs a SHPOs**, gan egluro, pan ystyrir ei fod yn briodol ac yn angenrheidiol gan y llysoedd, y gallant ddarparu dull ychwanegol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith fonitro cydymffurfedd ag amodau'r gorchymyn.

ASTUDIAETH ACHOS

Pan chwiliodd yr NCA liniadur dyn 70 oed o Brydain, fe ddaethon nhw o hyd i sgysiau yn trafod ffrydio cam-drin plant yn rhywiol yn ôl y galw, yn ogystal â chynlluniau i deithio dramor i gyflawni camdriniaeth yn bersonol.

Yn dilyn hynny, llwyddodd yr NCA i brofi bod y troseddwr wedi gwneud 49 taliad gwerth cyfanswm o £15,009 rhwng Ionawr 2015 a Gorffennaf 2017 i unigolyn yn Ynysoedd y Philipinau. Trosglwyddwyd gwybodaeth i awdurdodau Ynysoedd y Philipinau, a arweiniodd at arestio menyw Philipinaidd a diogelu chwech o blant rhwng tair ac 13 oed.

Ym mis Mai 2019, cafodd y troseddwr ei ddedfrydu i dair blynedd a chwe mis yn y carchar, ei roi ar y gofrestr troseddwr rhyw am gyfnod amhenodol a rhoddwyd Gorchymyn Atal Niwed Rhywiol iddo â chyfyngiadau teithio.

159. **Byddwn yn symleiddio'r broses ar gyfer cofrestru unigolion a geir yn euog o droseddau rhywiol perthnasol dramor fel troseddwr rhyw wrth ddod i mewn i Gymru a Lloegr, gan helpu'r sector gorfodi'r gyfraith i reoli'r unigolion hyn mor effeithiol â phosibl.**
160. Y tu hwnt i reoli troseddwr mewn cyd-destun carchar neu brawf, **byddwn yn adolygu ac yn ehangu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheoli RSOs sydd wedi cwblhau eu dedfryd yn y gymuned er mwyn lleihau'r risg y gallent ei pheri i'r cyhoedd a'r baich ar y sector gorfodi'r gyfraith.** Bydd hyn yn cynnwys archwilio arferion gorau sy'n galluogi comisiynu rhaglenni cywirol a gwasanaethau iechyd i reoli'r risg y mae troseddwr yn ei pheri a rhwystro ymddygiad troseddol.

2.4 Gwella gweithio amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth i reoli troseddwyd yn effeithiol

161. Mae sicrhau bod asiantaethau'n gweithio gyda'i gilydd ac yn rhannu gwybodaeth mewn modd amserol yn allweddol i reoli risg troseddwyd cam-drin plant yn rhywiol yn effeithiol. Rydym eisoes yn sbarduno gweithio amlasiantaethol trwy MAPPA sy'n helpu i fonitro troseddwyd a rhannu gwybodaeth amdanynt o fewn y system cyfiawnder troseddol a gyda phartneriaid diogelu.
162. **Byddwn yn gwella'r broses MAPPA trwy gefnogi cysondeb yn y trothwyon a weithredir gan fyrdau rheoli strategol lleol**, a byddwn yn cefnogi byrdau rheoli strategol i wella'r hyfforddiant sydd ar gael i'r rheini sy'n gweithio o fewn y trefniadau. Byddwn hefyd yn cryfhau ac yn symleiddio prosesau ar gyfer rhannu gwybodaeth o dan MAPPA trwy greu sylfaen glir a chyfreithlon ar gyfer datgelu.
163. **Byddwn yn gwella cronfa ddata a rennir MAPPA (a elwir hefyd yn ViSOR) a ddefnyddir i reoli troseddwyd**, gan gynnwys trwy archwilio systemau digidol amgen ar gyfer rheoli troseddwyd, adeiladu ar lwyddiant y system bresennol wrth ddod ag asiantaethau ynghyd i rannu gwybodaeth, ynghyd â chryfhau asesu risg, rheoli a lliniaru.
164. Mae rheoli troseddwyd yn effeithiol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i garchardai a'r gwasanaeth prawf weithio gyda'i gilydd a rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid diogelu er mwyn nodi pryd y gallai troseddwr roi plentyn mewn perygl. **Felly byddwn yn nodi disgwyliadau clir ar gyfer staff mewn carchardai a'r gwasanaeth prawf trwy gynhyrchu fframwaith polisi newydd ar ddiogelu plant a diweddarau llawlyfr amddiffyn y cyhoedd ar gyfer carchardai.**

Amcan 3: Amddiffyn a diogelu plant a phobl ifanc, a chefnogi'r holl ddioddefwyr a goroeswyr

165. Elfen allweddol o amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cam-drin plant yn rhywiol yw sicrhau bod y cymunedau a'r sefydliadau lle maent yn treulio eu hamser, ar-lein ac all-lein, yn ddiogel. Bydd ein hymdrechion i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, cryfhau ac addysgu teuluoedd, a darparu cymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd mewn perygl yn hanfodol i atal troseddswyr rhag manteisio ar blant a phobl ifanc, a rhaid iddynt weithio ochr yn ochr â newidiadau systemig i wella gweithio aml-asiantaethol a chydweithio trawsffiniol. Byddwn hefyd yn parhau i godi ymwybyddiaeth, gan ddefnyddio cyfathrebiadau'r Llywodraeth mewn gwahanol fforymau, i helpu i atal cam-drin plant yn rhywiol ac amddiffyn plant a phobl ifanc.
166. Er gwaethaf gwybod mwy nag erioed am gam-drin plant yn rhywiol, mae cyfran fawr yn parhau i fod yn gudd. Mae dioddefwyr a goroeswyr yn dweud wrthym eu bod fel arfer yn profi camdriniaeth yn eu cartref eu hunain neu gartref rhywun arall, ond mae hyn yn cael ei dan-nodi a'i orchuddio mewn tabŵ. Rydym am i riportio cam-drin plant yn rhywiol barhau i godi i ddod â'r drosedd ffiaidd hon allan o'r cysgodion.
167. Pan yw cam-drin yn digwydd, mae angen ei nodi'n gynnar a diogelu plant rhag niwed pellach. Mae hefyd yn hanfodol bod dioddefwyr a goroeswyr sy'n blant ac yn oedolion yn cael mynediad at gymorth amserol o ansawdd uchel trwy wasanaethau cyffredinol ac arbenigol sy'n diwallu eu hanghenion amrywiol.

Mesurau ar gyfer gwella

- Mae ein dealltwriaeth o gyffredinrwydd pob math o gam-drin plant yn rhywiol yn gwella, a bydd cyffredinrwydd yn lleihau dros amser.
- Bydd dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol yn gynyddol yn teimlo y gallant ddatgelu camdriniaeth fel yr adlewyrchir yn y cyfraddau riportio cynyddol.
- Bydd mwy o blant a phobl ifanc sy'n profi cam-drin plant yn rhywiol yn cael eu nodi, fel y dangosir trwy nifer cynyddol y plant yr atgyfeirir at, a asesir gan ac sy'n derbyn cymorth gan ofal cymdeithasol plant oherwydd pob math o risg cam-drin plant yn rhywiol.
- Bydd adroddiadau arolygu ac adolygiadau thematig yr heddlu, iechyd a gofal cymdeithasol plant yn amlygu gwelliannau mewn diogelu, gweithio amlasiantaethol ac ymateb cryfach i gam-drin plant yn rhywiol.
- Bydd partneriaid diwydiant yn mabwysiadu'r cod ymarfer dros dro a byddant yn cydymffurfio â'r rheolydd newydd, gan arwain at atgyfeiriadau o ansawdd gwell at y sector gorfodi'r gyfraith yn y tymor byr a gostyngiad yn nifer yr achosion o gam-drin ar-lein yn y tymor hir.
- Bydd nifer cynyddol o wledydd yn ymuno â'r Gynghrair Fyd-eang WeProtect a'r Ymateb Cenedlaethol Enghreifftiol a bydd gennym asesiad clir o'r gwledydd allweddol sydd mewn perygl.

3.1 Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant, a chodi ymwybyddiaeth ymhlith rhieni, gofalwyr a theuluoedd

168. Nid cyfrifoldeb plentyn yw atal cam-drin rhywiol ac nid bai plentyn byth yw os caiff ei dargedu. Rydym yn gwybod bod troseddwyd yn manteisio ar fregusrwydd cynhenid plant a phobl ifanc, gan fanteisio ar eu hoedran a'r anghydbwysedd pŵer rhwng plant ac oedolion er mwyn eu cam-drin. Rydym hefyd yn gwybod bod troseddwyd yn tueddu at unigolion y canfyddir eu bod yn agored i niwed, mewn sefyllfaoedd lle gallai mesurau diogelu o'u cwmpas fod yn is. Mae profiadau cynnar o gam-drin yn gysylltiedig â'r risg o ymddygiad rhywiol niweidiol, a all fod yn niweidiol i blant sy'n arddangos yr ymddygiad hwn yn ogystal â'r rhai o'u cwmpas.
169. **Rhan allweddol o amddiffyn plant rhag cam-drin plant yn rhywiol felly yw rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd iddynt.** Mae ymdrechion parhaus ar draws y Llywodraeth i sicrhau hyn, o'r [Rhaglen Plentyn Iach](#), i'r [Papur Gwyrdd ar Atal](#), i drawsnewid darpariaeth iechyd meddwl ar gyfer plant a phobl ifanc. Gan gydnabodpwysigrwydd hanfodol blynyddoedd cynnar plant, mae'r Llywodraeth yn ymgymryd ag adolygiad i wella canlyniadau i blant yn eu 1,001 o ddiwrnodau cyntaf gan gynnwys edrych ar effeithiau bregusrwydd a phrofiadau niweidiol yn ystod plentynod.
170. **Rydym hefyd yn mynd ymhellach yn y gwasanaethau rydym yn eu darparu i blant, gan gynnwys creu mwy o gyfleoedd i bobl ifanc ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus gydag oedolyn allweddol trwy fuddsoddi yn y Gronfa Buddsoddi Ieuencid.** Mae hyd at £220 miliwn yn cael ei fuddsoddi yn ein rhaglen gweithgareddau gwyliau a bwyd, gan ddarparu gweithgareddau cyfoethogi a phryd bwyd iach i blant difreintiedig yn ystod gwyliau'r Pasg, yr haf a'r Nadolig yn 2021. Mae hyn yn cefnogi ymrwymiad y Llywodraeth i sefydlu cronfa gofal plant hyblyg i gynyddu argaeledd gofal plant hyblyg o ansawdd uchel a fforddiadwy. Mae'r Llywodraeth hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo'r model hyb teulu - fel y nodir yn ei [Manifesto yn 2019](#). Ym mis Rhagfyr 2020 dechreuodd gwaith caffael ar gyfer [Canolfan Genedlaethol Hybiau Teulu a Gwasanaethau Integredig i Deuluoedd](#) i weithio â chynghorau i ddatblygu a lledaenu arferion gorau, yn ogystal â [Chronfa Arloesi Gwerthuso Hybiau i Deuluoedd](#) i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar fodelau gwasanaethau integredig i deuluoedd.
171. **Mae'r Strategaeth hon yn ategu mentrau ehangach i fynd i'r afael â cham-drin domestig a mynd i'r afael â phob math o drais sy'n effeithio'n arbennig ar fenywod a merched.** Bydd y Llywodraeth yn pasio'r Mesur Cam-drin Domestig nodedig, sy'n cynrychioli ein hymrwymiad i drawsnewid yr ymateb i'r drosedd ffiaidd hon. Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn datblygu Strategaeth Cam-drin Domestig ar wahân, gan adeiladu ar waith sy'n bodoli eisoes i leihau troseddau sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig, cefnogi dioddefwyr a goroeswyr yn well, a lleihau costau sy'n disgyn ar yr unigolyn, cymunedau a gwasanaethau cyhoeddus. Bydd y Strategaeth Cam-drin Domestig yn eistedd ochr yn ochr â Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched, gan geisio lleihau mynychder a difrifoldeb trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys trwy atal a nodi, a gwella'r ymateb i fathau sy'n gynyddol gyffredin, megis ar-lein.
172. **Trwy gyflwyno Addysg Perthnasoedd, Rhyw ac Iechyd orfodol (RSHE), byddwn yn grymuso athrawon i ddarparu addysgu o ansawdd uchel sy'n briodol i'r hoedran am bob math o gam-drin.,** gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol. Bydd ffocws RSHE ar

berthnasoedd iach mewn addysg gynradd ac uwchradd yn galluogi athrawon i ddarparu gwybodaeth i blant sy'n cwmpasu cysyniadau a deddfau sy'n ymwneud â: cydsyniad rhywiol, camfanteisio'n rhywiol, cam-drin, meithrin perthynas amhriodol, gorfodi, aflonyddu a cham-drin domestig, a sut y gall y rhain effeithio ar berthnasoedd presennol a rhai'r dyfodol - negeseuon a fydd yn helpu i herio beio dioddefwyr ynghylch cam-drin. O ganlyniad, bydd y llwybrau i blant dderbyn cymorth a chefnogaeth yn fwy effeithiol. Bydd athrawon yn fwy gwybodus a bydd lleoliadau addysg mewn gwell sefyllfa i nodi cam-drin plant yn rhywiol, ynghyd â risgiau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad rhywiol niweidiol, rhannu delweddau noeth a lled-noeth, a cham-drin cyfoedion gan gyfoedion.

173. Dylai athrawon a staff hefyd fod â'r offer i gefnogi plant yn y byd ar-lein i fwynhau ei holl fuddion, yn ogystal ag ymateb i niwed ar-lein ac i ddiogelu plant. **Bydd y Llywodraeth yn helpu'r cyhoedd i ymgysylltu'n feirniadol â chynnwys ar-lein, gan gynnwys plant a phobl ifanc, trwy Strategaeth Llythrennedd y Cyfryngau ar-lein.**

“Yn yr ysgol roedd popeth yn ymwneud â pherthnasoedd strê ond nid oedd hynny o fudd i mi, roeddwn i'n gwybod fy mod i'n hoyw. Defnyddiais y rhyngrwyd i geisio darganfod. Fe wnes i gyfarfod â'r dyn hwn a ddywedodd wrthyf y byddai'n fy helpu i gysylltu â dynion eraill ac fe wnaeth hynny, ond fe wnaethant fy mrifo'n wael iawn.”

Llanc, 16 oed

174. Gan nodi'r rôl ganolog y mae addysg yn ei chwarae wrth amddiffyn plant a'r aflonyddwch i ysgolion a cholegau a achosir gan COVID-19, mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i flaenoriaethu i bob plentyn ddychwelyd yn ddiogel i ystafelloedd dosbarth ac i sicrhau bod plant, teuluoedd a staff ysgolion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Mae'r Adran Addysg yn gweithio gyda phartneriaid allweddol a sefydliadau'r sector gwirfoddol i gyflawni'r fenter Education Return [Dychwelyd i Addysg], prosiect sy'n werth £8 miliwn sy'n hyfforddi arbenigwyr lleol i ddarparu cyngor ac adnoddau ychwanegol i ysgolion a cholegau er mwyn cefnogi lles, cydnherthedd ac adferiad myfyrwyr yng ngoleuni effaith barhaus y pandemig. Mae'r wybodaeth a'r cymorth a ddarperir yr un mor berthnasol i ddarpariaeth bell ag y maent i addysgu wyneb yn wyneb. Ochr yn ochr â hyn, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi ariannu cynllun peilot gyda Chymorth Addysg i ddarparu goruchwyliaeth broffesiynol gan arbenigwyr a chefnogaeth gan gymheiriaid i arweinyddwyr ysgolion.

Bydd ysgolion yn cael eu grymuso i addysgu plant am berthnasodd iach, a byddwn yn codi ymwybyddiaeth o cam-drin plant yn rhywiol ymysg rhieni, gofalwyr a theuluoedd

175. Fel Llywodraeth, byddwn yn adeiladu'r dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio er mwyn lleihau'r risg o blant a phobl ifanc yn rhannu lluniau noeth a lled-noeth, a byddwn yn parhau i gefnogi datblygiad pellach o [offeryn Riportio-Dileu](#) sy'n rhoi pŵer i bobl ifanc ddileu delweddau noeth a lled-noeth ohonynt eu hunain ar-lein. Yn 2020, fe wnaeth Cyngor Diogelwch Rhynggrwyd y DU a DCMS gyhoeddi [cyngor](#) ar gyfer lleoliadau addysg sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc ar sut i ymateb i digwyddiad o luniau noeth a lled-noeth yn cael eu rhannu, sy'n disodli [Secstio mewn ysgolion a cholegau: ymateb i ddigwyddiadau a diogelu pobl ifanc](#), a gyhoeddwyd yn 2016. Byddwn hefyd yn parhau i ddatblygu adnoddau dysgu ar-lein sy'n helpu plant, eu rhieni a'u gweithwyr proffesiynol i nodi risgiau ar-lein a chael gafael ar gymorth diogelu pan fydd angen trwy adeiladu ar Raglen Addysg yr NCA, [Thinkuknow](#).

ASTUDIAETH ACHOS

Thinkuknow yw'r rhaglen addysg ddiogelwch genedlaethol ar-lein, a ddarperir gan arbenigwyr amddiffyn plant ac addysg yn yr NCA. Rhwng Ebrill 2017 a Mawrth 2019, lawrlwythwyd adnoddau Thinkuknow dros 81,000 o weithiau. Yn 2018/19, hyfforddwyd dros 31,000 o weithwyr proffesiynol gan yr NCA's [Cenhadon CEOP Thinkuknow](#). Yn 2019 hefyd lansiwyd Jessie & Friends, yr adnodd dysgu cyntaf gan Thinkuknow a ddyluniwyd ar gyfer plant mor ifanc â phedair oed.

176. Er bod cyfran fawr o droseddu'n digwydd yn amgylchedd y teulu, mae rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin yn allweddol i amddiffyn plant y tu mewn a'r tu allan i'r cartref. Pwysleisiwyd pwysigrwydd hyn gan y ffaith bod plant yn treulio mwy o amser gartref ac ar-lein o ganlyniad i COVID-19. Mewn ymateb, mae'r Llywodraeth wedi sbarduno ymdrechion i rannu gwybodaeth gyda rhieni a gofalwyr trwy gyhoeddi cyngor ar GOV.UK ar [gadw plant yn ddiogel ar-lein](#) a rhag [mathau ehangach o gam-drin a niwed](#). Mae'r NCA wedi cynyddu negeseuon i rieni a gofalwyr trwy eu [hymgyrch ac adnoddau #OnlineSafetyAtHome \[Diogelwch Ar-lein Gartref\]](#) sydd wedi'u lawrlwytho dros 500,000 o weithiau. **Fel Llywodraeth, byddwn yn parhau i archwilio cyfleoedd i ledaenu offer a gwybodaeth gyson a chyfredol i rieni a gofalwyr o bob cymuned am bob math o gam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys ynghylch risgiau yn y cartref.**
177. **Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn adolygu Sarah's Law [Deddf Sarah] (y Cynllun Datgelu Troseddwyr Rhyw â Phlant)** - lle gall unrhyw un ofyn i'r heddlu a oes gan rywun sydd â mynediad at blentyn gofnod am droseddau rhywiol yn erbyn plant - i sicrhau ei bod yn cael ei defnyddio'n gyson gan yr heddlu, ac i ystyried a allwn ymestyn ei chwmpas a chodi ymwybyddiaeth o'i swyddogaeth.

3.2 Cryfhau rôl diwydiant

178. Un o nodau allweddol y Llywodraeth hon yw gwneud y DU y lle mwyaf diogel yn y byd i fod ar-lein ac mae COVID-19 wedi pwysleisio ymhellach yr angen i sicrhau bod y rhyngwrwyd yn ofod diogel i blant ei archwilio. Rydym yn disgwyl i'r diwydiant technoleg chwarae ei ran. Mae angen i bartneriaid diwydiant fod ar flaen y gad o ran atal gwasanaethau a phlatfformau ar-lein rhag cael eu defnyddio i hwyluso cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys gwyllo a rhannu deunydd cam-drin plant yn rhywiol, meithrin perthynas amhriodol ar-lein a ffrydio cam-drin plant yn rhywiol yn fyw. Gwnaed cynnydd sylweddol gan gwmnïau i amddiffyn plant ar-lein, ond mae llawer mwy i'w wneud.
179. **Mae'r DU, gyda'n partneriaid Pum Gwlad (Awstralia, Canada, Seland Newydd a'r Unol Daleithiau) wedi datblygu set o [Egwyddorion Gwirfoddol](#) sydd yn darparu fframwaith i gwmnïau frwydro yn erbyn cam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac yn sbarduno gweithredu ar y cyd.** Gyda'i gilydd, mae'r Partneriaid Pum Gwlad hefyd wedi annog ymateb i COVID-19, gan ymgysylltu â diwydiant yn effeithiol ynghylch yr angen i gyfathrebu â'u defnyddwyr ynglŷn â risg uwch ar-lein. O ganlyniad, fe wnaeth Microsoft, Google, Facebook, SNAP, Roblox a Twitter, ymhlith eraill, ddatblygu ymgyrch wybodaeth wedi'i hanelu at rieni, gofalwyr a phlant ar gadw'n ddiogel ar-lein. Bydd diwydiant yn asesu effaith y gwaith hwn a byddwn yn parhau i gydweithio â nhw i weld beth arall y gellir ei wneud i sicrhau defnydd diogel o'u platfformau.
180. **Byddwn yn datblygu deddfwriaeth i wella diogelwch rhyngwrwyd i bawb trwy'r Mesur Diogelwch Ar-lein sydd ar ddod, i'w gyflwyno yn 2021.** Mae'r [Papur Gwyn Niweidiau Ar-lein](#), a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2019, ac ymateb llawn y Llywodraeth wedi hynny i [ymgyngoriad y Papur Gwyn Niweidiau Ar-lein](#), a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2020, yn darparu cynigion manwl ar gyfer cyflwyno dyletswydd gofal statudol i sicrhau bod gan gwmnïau systemau a phrosesau priodol ar waith i wella diogelwch eu defnyddwyr, yn arbennig plant, ac mae'n cadarnhau y bydd Ofcom yn cael ei enwi mewn deddfwriaeth fel y rheolydd annibynnol. Ochr yn ochr ag yr ymateb i'r ymgyngoriad, **cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y [codau ymarfer gwirfoddol dros dro ar gamfanteisio ar blant a cham-drin plant yn rhywiol ar-lein](#), yn nodi ein disgwyliadau ar gyfer yr hyn y dylai cwmnïau ei wneud i nodi, mynd i'r afael ag ac atal cam-drin plant yn rhywiol ar eu gwasanaethau.**
181. Rydym yn cydnabod bod mynd i'r afael â niweidiau ar-lein, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, yn broblem fyd-eang, a bod deddfwriaeth yn y DU, ac mewn mannau eraill, yn ffurfio rhan yn unig o'r ymateb sy'n ofynnol. Mae gan y DU, â'i chryfderau ym maes arloesi digidol, draddodiad hir yn rheolaeth y gyfraith, amgylchedd busnes-gyfeillgar a rheoleiddwyr o'r radd flaenaf gyfle i weithredu fel arweinydd byd-eang yn y maes hwn. Dyna pam rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda llawer o'n partneriaid rhyngwladol i fynd i'r afael â'r her hon a rennir a gweithio tuag at ddulliau cyffredin o fynd i'r afael â niweidiau ar-lein (gweler [Amcan 3.7](#)).

Byddwn yn gorfodi diwydiant i atal twf cam-drin plant yn rhywiol ar-lein trwy ein fframwaith Niweidiau Ar-lein sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr

182. **Cyn rheoleiddio, mae'r DCMS yn darparu ystod o gymorth i fusnes a defnyddwyr i helpu i ddatblygu amgylchedd ar-lein sy'n fwy diogel i blant.** Mae hyn yn cynnwys cyhoeddi fframwaith 'diogelwch trwy ddylunio' a fydd yn cynnwys canllawiau ymarferol i gwmnïau i'w cefnogi i ddylunio gwasanaethau a chynhyrchion ar-lein sy'n fwy diogel. Mae'r Llywodraeth hefyd yn cryfhau sector technoleg ddiogelwch y DU fel bod gan y DU dechnoleg ddiogelwch sy'n arwain y byd.

ASTUDIAETH ACHOS

Yn 2017, lansiodd Grŵp LEGO yr ap LEGO® Life. Mae LEGO® Life yn defnyddio egwyddorion 'diogelwch trwy ddylunio', wrth ddangos i blant sut i ddefnyddio platfformau cymdeithasol ar-lein mewn ffordd gadarnhaol, megis rhannu eiliadau gyda theulu a ffrindiau.

Cryfhawyd y dull hwn yn ddiweddar trwy gyflwyno Captain Safety [Capten Diogelwch]. Mae'r cymeriad yn darparu tiwtorial diogelwch ac yn gweithredu fel canllaw plentyn trwy gydol ei amser ar yr ap, gan gyflwyno negeseuon diogelwch ar bwyntiau allweddol, megis cyn rhannu data penodol neu roi sylwadau ar bostiadau cyhoeddus.

183. **Byddwn yn hyrwyddo ymdrechion y diwydiant i ddatblygu technoleg sy'n atal ac yn mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein,** megis offer i nodi a rhwystro sgysiau meithrin perthynas amhriodol â phlant ar-lein, a byddwn yn parhau i rannu gwybodaeth gyda phartneriaid yn y diwydiant fel y gallant aros ar y blaen i'r bygythiad.
184. Bydd y Llywodraeth yn parhau i annog cwmnïau technoleg i flaenoriaethu diogelwch plant ar eu platfformau a'u gwasanaethau ochr yn ochr â phreifatrwydd defnyddwyr. Yn benodol, mae cynigion Facebook i weithredu amgryptio o'r dechrau i'r diwedd i'w llwyfannau negeseua'n ddiofyn yn cyflwyno heriau sylweddol. Er bod y Llywodraeth yn cefnogi amgryptio cryf ar gyfer amddiffyn data personol, preifatrwydd a gwasanaethau megis bancio, masnach a chyfathrebu, rydym yn pryderu bod amgryptio o'r dechrau i'r diwedd wedi creu rhwystrau sylweddol ac osgoadwy i gwmnïau allu nodi ac atal gweithgarwch anghyfreithlon gan unigolion sy'n cam-drin plant. **Byddwn yn parhau i bwysleisio y dylai Facebook ddim ond gweithredu ei gynigion ar gyfer amgryptio o'r dechrau i'r diwedd os na fydd diogelwch ei ddefnyddwyr yn cael ei leihau, gan gynnwys sicrhau modd i'r sector gorfodi'r gyfraith gael mynediad cyfreithlon i gynnwys cyfathrebiadau.**
185. **Mae'r Llywodraeth wedi [ymateb](#) i'r argymhellion a wnaed yn [Adroddiad Ymchwiliad i'r Rhyngwrwyd IICSA](#),** gan amlinellu gwaith parhaus ar draws y Llywodraeth i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein, gan gynnwys gosod disgwyliadau i gwmnïau gadw plant yn ddiogel ar eu platfformau trwy weithredu'r [Egwyddorion Gwirfoddol](#) ochr yn ochr â datblygu deddfwriaeth Diogelwch Ar-lein sydd ar ddod. Byddwn yn parhau i fwrw ymlaen â gwaith ar ganfyddiadau'r Ymchwiliad ar y mater hwn.

3.3 Atal camdriniaeth mewn cymunedau lleol

186. Yn ogystal â lleihau'r cyfle i gyflawnwyr droseddu ar-lein, mae angen atal cam-drin plant yn rhywiol lle mae plant a phobl ifanc yn treulio'u hamser mewn cymunedau lleol. Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod partneriaid diogelu lleol yn y sefyllfa orau i ddeall risgiau yn eu hardal ac i weithredu strategaethau sy'n mynd i'r afael â hwy, megis safonau diogelu cadarn ym mhob lleoliad lleol a strategaethau atal sefyllfaol (newid y cyd-destunau a'r amgylcheddau lle gall troseddu ddigwydd)
187. Mae'r Rhaglen Arloesi ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant, a lansiwyd gan yr Adran Addysg, eisoes yn cefnogi ymdrechion actorion lleol, gan ddefnyddio gwaith traws-sector i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar ddulliau arloesol o atal cam-drin. Mae hyn yn cynnwys cyllido Cyngor Hackney i brofi dulliau o atal camfanteisio ar bobl ifanc trwy ddiogelu cyd-destunol, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a chymunedol ehangach a allai roi plentyn mewn perygl. [Mae adroddiadau gwerthuso](#) o'r Rhaglen wedi'u cyhoeddi a'u lledaenu'n eang i lywio datblygu ac ymarfer polisi.
188. **Rydym hefyd yn sbarduno camau wedi'u targedu trwy'r Rhaglen Atal a ariennir gan y Swyddfa Gartref.** Mae'r Rhaglen, a gyflwynir gan Gymdeithas y Plant, yn golygu bod cydgysylltwyr ym mhob un o'r deg rhanbarth plismona yn sbarduno gwaith lleol a rhanbarthol i frwydro yn erbyn gwahanol fathau o gamfanteisio trwy: goladu cudd-wybodaeth; nodi lleoliadau man broblemus; datblygu strategaethau atal; cyflenwi ymyriadau wedi'u targedu gan ddefnyddio diogelu cyd-destunol, a; chydlynw gweithgarwch ar draws asiantaethau lleol. Mae'r gwaith hwn wedi helpu i gynyddu dealltwriaeth gweithwyr proffesiynol o bob math o gamfanteisio, gan arwain at nodi mwy o ddioddefwyr ac ymateb lleol mwy cyfannol.

ASTUDIAETH ACHOS

Mewn partneriaeth â lluoedd lleol, fe wnaeth y swyddogion atal yn rhanbarthau Cymru a Swydd Efrog ymgysylltu â Currys PC World i godi ymwybyddiaeth ac uwchsgilio staff ynghylch y risgiau o gamfanteisio ar-lein, gan ddarparu negeseuon diogelwch iddynt eu rhannu â rhieni a gofalwyr yn y 'man gwerthu'.

Mae'r rhwydwaith atal hefyd wedi gweithio gyda Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) i wella eu hymatebion i gamfanteisio ar blant a cham-drin plant yn eu dalfa yn Llundain. Roedd y gwaith hwn yn canolbwyntio ar y staff, yr amgylchedd a rhyngweithio â charcharorion, gan gydnabod y risgiau o gamfanteisio a cham-drin a achosir i blant a phobl ifanc. Mae BTP bellach yn archwilio nifer o argymhellion, gan gynnwys adolygu'r dull o gofnodi a rhannu pryderon diogelu a chamfanteisio yn y ddalfa.

189. **Gan gydnabod canfyddiadau nifer o adolygiadau annibynnol o gam-drin plant yn rhywiol, mae'r Adran Drafnidiaeth wedi cyflwyno [Safonau Statudol ar gyfer Tacsis a Cherbydau Llogi Preifat](#).** Gan ganolbwyntio ar ddiogelu, mae'r safonau hyn yn helpu i atal camdriniaeth mewn cymunedau lleol trwy amlygu rôl bwysig awdurdodau trwyddedu wrth amddiffyn plant a phobl ifanc sy'n agored i niwed.

190. **Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn gweithio gyda'r Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol, y Ganolfan Troseddau Busnes Genedlaethol ac actorion eraill i ystyried pa gymorth y gellir ei roi i helpu staff mewn sectorau busnes allweddoli nodi ac ymateb i bryderon diogelu,** gan gynnwys risgiau cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio arnynt. Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i fusnesau ar egwyddorion diogelu cyd-destunol ac yn ystyried pa hyfforddiant a chymorth pellach y gellir eu darparu i staff allweddol megis gwarchodwyr diogelwch.

Byddwn yn cryfhau dealltwriaeth ardaloedd lleol o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a'u hymateb iddo mewn cymunedau trwy gryfhau'r Pecyn Cymorth Tarfu ar Gamfanteisio ar Blant ar gyfer partneriaid diogelu

191. Bydd y Swyddfa Gartref yn cryfhau'r ymateb i gamfanteisio mewn cymunedau, ac i gamfanteisio'n rhywiol ar blant mewn grŵp yn benodol, trwy adeiladu ar ganfyddiadau ein papur ymchwil ar y math hwn o droseddu a datblygu fersiwn well o'n [Pecyn Cymorth Tarfu ar Gamfanteisio ar Blant, a fabwysiadwyd yn eang](#). Bydd hyn o gymorth i bartneriaid diogelu wrth iddynt ddatblygu asesiadau bygythiad lleol cryfach ac ymatebion yn seiliedig ar le, trwy ganllawiau cynhwysfawr ar strategaethau atal ac aflonyddu sy'n adlewyrchu arferion gorau. Bydd y pecyn cymorth yn hyrwyddo dulliau arloesol ac yn cefnogi'r holl bartneriaid i adeiladu proffiliau problemau effeithiol, yn ogystal â deall a defnyddio pwerau deddfwriaethol ac anneddfwriaethol sy'n targedu risgiau penodol.
192. Yn anffodus, gall cam-drin plant yn rhywiol ddigwydd yn unrhyw le ac i unrhyw blentyn, ond trwy godi safon diogelu mewn sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, gallwn atal troseddwyd rhag cael mynediad at blant a helpu ymarferwyr i nodi ac ymateb i risg. Byddwn yn sicrhau bod deddfwriaeth a pholisi yn cael eu diweddarau er mwyn cefnogi sefydliadau i gadw ein plant yn ddiogel yn y ffordd fwyaf effeithiol.
193. Fel yr amlinellwyd yn [Amcan 3.5](#), bydd yr Adran Addysg yn cryfhau arferion diogelu mewn ysgolion trwy ymgynghori ar ganllawiau a chefnogi Arweinwyr Diogelu Dynodedig.
194. **Bydd yr Adran Addysg hefyd yn cryfhau safonau diogelu mewn lleoliadau anstatudol, neu "leoliadau y tu allan i'r ysgol", lle mae plant yn treulio'u hamser,** megis clybiau ar ôl ysgol, grwpiau ffydd a grwpiau chwaraeon. Ym mis Hydref 2020, cyhoeddodd yr Adran Addysg [cod ymarfer diogelu gwirfoddol](#) i helpu'r lleoliadau hyn y tu allan i'r ysgol i ddeall yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i gadw plant yn ddiogel yn eu gofal. Ochr yn ochr â hyn, fe wnaeth yr Adran Addysg [gyhoeddi canllawiau ar gyfer rhieni a gofalwyr](#) i'w helpu i ddeall pa leoliadau sy'n ddiogel ac mae hefyd wedi buddsoddi dros £3 miliwn mewn treialu ffyrdd i awdurdodau lleol nodi ac ymyrryd mewn lleoliadau y tu allan i'r ysgol sy'n peri pryder. Disgwylir i gam olaf y gwaith hwn ddod i ben ym mis Hydref 2021 a bydd yr Adran Addysg yn defnyddio ei chanfyddiadau i ledaenu arferion gorau ar ddefnyddio pwerau deddfwriaethol presennol yn effeithiol ac i lywio ystyriaeth o ddeddfwriaeth bellach sy'n cryfhau gallu awdurdodau lleol i ymyrryd.

195. Rydym yn gwybod y gallai plant mewn gofal fod mewn risg uwch o brofi cam-drin plant yn rhywiol (gweler [Rhan 2.4](#)) a rhaid i ni barhau i wneud popeth o fewn ein gallu i'w diogelu.
Bydd y Llywodraeth yn gwneud y defnydd gorau o ganfyddiadau'r Adolygiad o Ofal Cymdeithasol Plant sydd dan arweiniad annibynnol, a fydd yn ail-lunio sut mae plant yn rhyngweithio â'r system ofal, gan edrych ar y broses o atgyfeirio drwodd i dderbyn gofal. Bydd yn mynd i'r afael â heriau mawr megis y cynnydd yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal, yr anghysondebau yn arferion gofal cymdeithasol plant, canlyniadau ledled y wlad, a methiant y system i ddarparu digon o gartrefi sefydlog i blant.
196. Rhaid i ni sicrhau bod lleoliadau gofal a chymorth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yn bodloni eu hanghenion ac yn eu cadw'n ddiogel. Mae'r Adran Addysg wedi ymgynghori ar ddiwygiadau i'r defnydd o ddarpariaeth annibynnol a lled-annibynnol ar gyfer plant mewn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, gan gynnwys cyflwyno safonau cenedlaethol a gwahardd lleoli plant o dan 16 oed yn y ddarpariaeth hon. **Bydd yr Adran Addysg a Sgiliau hefyd yn ystyried yr angen i gryfhau safonau mewn cartrefi gofal preswyl a chofrestru staff cartrefi gofal mewn ymateb i argymhellion a wnaed gan yr IICSA.**
197. **Bydd y Llywodraeth yn ystyried canfyddiadau o adolygiad mewnol y Weinyddiaeth Gyfiawnder o'r ddeddfwriaeth bresennol ar gamddefnyddio swyddi o ymddiriedaeth.** [Mae Deddf Troseddau Rhyw 2003](#) yn cynnwys nifer o droseddau sy'n troseddoli gweithgareddau rhywiol gyda phlant dros 16 oed ond o dan 18 oed, gan bobl sy'n dal "swydd o ymddiriedaeth" hyd yn oed os yw'r gweithgareddau'n ymddangos yn gydsyniol. Nod hyn yw atal pobl rhag cam-drin eu safle i dwyllo pobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Yn 2019, cynhaliodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder adolygiad o'r ddeddfwriaeth hon ac maent wedi ymrwymo i sicrhau bod y gyfraith yn y maes hwn yn gweithio'n effeithiol.
198. **Mae'r Llywodraeth wedi cynnal gwaith i wella dealltwriaeth arweinwyr ffydd o gam-drin plant yn rhywiol a bydd yn archwilio'r angen i gefnogi mentrau hyfforddi diogelu ar gyfer arweinwyr ffydd.** Trwy ymgysylltu â'r Comisiwn Elusennau, mae'r Llywodraeth wedi cryfhau canllawiau diogelu ar gyfer elusennau ac ymddiriedolwyr yn y trydydd sector ac mae'n parhau i gefnogi gwaith y sefydliadau hyn, gan gynnwys trwy gyhoeddi hyfforddiant, adnoddau a chanllawiau ar drin a riportio honiadau ar gyfer sefydliadau Gwirfoddol, Cymunedol a Menter Gymdeithasol.
199. Ochr yn ochr â chodi safonau diogelu mewn sefydliadau sy'n gweithio gyda phlant, **bydd y Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Gyfiawnder yn arwain astudiaeth ddichonoldeb draws-Lywodraethol sy'n edrych ar ffyrdd o greu cymhwysedd ar gyfer gwiriadau cofnodion troseddol i'r rhai sy'n hunangyflogedig**, fel bod pawb sy'n gweithio gyda phlant a phobl agored i niwed yn ddarostyngedig i'r un safon o wiriadau Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

3.4 Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl

200. Mae'n bwysig pwysleisio eto, yn rhinwedd eu hoedran, yn ogystal â'r anghydbwysedd pŵer sy'n bodoli rhwng plant ac oedolion, bod pob plentyn yn gynhenid fregus ac y gellir ei gam-drin. Nid yw cam-drin yn digwydd oherwydd bregusrwydd plentyn, ond oherwydd tuedd troseddwr

a'i allu i fanteisio ar fregusrwydd. Efallai y bydd troseddwyd yn fwy tebygol o dargedu plant y canfyddir eu bod yn arbennig o agored i niwed a lle gall mesurau diogelu o'u cwmpas fod yn is (gweler [Rhan 2.4](#)). Mae angen i bartneriaid diogelu, asiantaethau lleol a'r Llywodraeth weithio gyda'r plant hyn a'u teuluoedd i godi ymwybyddiaeth a darparu cymorth. Wrth ddeall lle mae'r plant mwyaf agored i niwed wedi'u lleoli, mae'r Llywodraeth yn croesawu'r cyfraniad a wnaed gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant i symud tuag at [well dealltwriaeth o amrywio rhanbarthol](#) o ran gwendidau a brofir gan blant a phobl ifanc.

201. **Er mwyn ymestyn ein cymorth wedi'i dargedu ar gyfer plant a theuluoedd agored i niwed ag anghenion cymhleth, mae'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG) wedi darparu £165 miliwn arall o gyllid ar gyfer y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus tan 2021.** Bydd y Swyddfa Gartref hefyd yn gweithio gyda'r MHCLG i ymgorffori canlyniadau ac adnoddau sy'n gysylltiedig â cham-drin plant yn rhywiol yn y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus i gefnogi atal ac ymyrraeth gynnar.
202. Mae COVID-19 a mesurau i atal ei ledaeniad wedi gwneud bywydau llawer o blant a theuluoedd bregus yn anoddach. Mae'r Llywodraeth wedi darparu £3.7 biliwn o gyllid ychwanegol i awdurdodau lleol i'w helpu i fynd i'r afael â'r pwysau y maent yn eu hwynebu mewn ymateb i'r pandemig COVID-19, gan gynnwys ym maes gofal cymdeithasol plant. Fe wnaethd y Llywodraeth gyhoeddi hefyd £750 miliwn ychwanegol o gyllid ar gyfer elusennau rheng flaen, ac o hwn lansiodd y Swyddfa Gartref a'r Adran Addysg y Gronfa Gymorth Strategol Elusennau Cenedlaethol Plant sy'n Agored i Niwed gwerth £7.6 miliwn. Yn ychwanegol, **fe wnaeth yr Adran Addysg ddarparu cyllid i Barnardo's ar gyfer y rhaglen [See, Hear, Respond](#) [[Gweld](#), [Clywed](#), [Ymateb](#)] i ddarparu cymorth hanfodol i blant, pobl ifanc a theuluoedd bregus y mae COVID-19 a'i gyfyngiadau yn effeithio arnynt.**
203. **Yn 2020/21 mae'r Llywodraeth yn buddsoddi £9.5 miliwn mewn prosiectau sydd â'r nod o hybu canlyniadau addysgol plant sy'n agored i niwed a'u cadw'n ddiogel rhag niwed,** sy'n cynnwys £2.4 miliwn i raddio a phrofi ymyriadau ar gyfer plant â gweithiwr cymdeithasol. Byddwn hefyd yn parhau i sbarduno gwelliannau mewn darpariaeth amgen (AP), gan gydnabod bod llawer o blant mewn AP wedi profitrawma ac adfyd ac angen cymorth wedi'i deilwra. Mae'r Adran Addysg wedi buddsoddi £4 miliwn yng Nghronfa Arloesi AP, gan ddarparu prosiectau i blant mewn AP gyflawni canlyniadau gwell, a £7 miliwn mewn Cronfa Drosoglwyddo AP i gefnogi disgyblion Blwyddyn 11 yng nghyd-destun COVID-19 i wneud trawsnewidiadau llwyddiannus i ffwrdd o AP. Mae hyn yn cyd-fynd â rhaglen uchelgeisiol i wella argaeledd AP da yn gyflym fel bod plant sydd wedi'u gwahardd yn barhaol a phlant sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn derbyn addysg o ansawdd uchel sy'n addas i'w hanghenion unigol.

Mae'r Swyddfa Gartref wedi buddsoddi £3.7 miliwn arall yn y Gronfa Perthnasoedd Dibynadwy, gan helpu plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio'n rhywiol a cham-drin yn rhywiol i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus gydag oedolyn cyfrifol

204. Er mwyn darparu cymorth wedi'i dargedu i blant a phobl ifanc sydd mewn perygl o ddioddef camfanteisio'n rhywiol neu gam-drin yn rhywiol, yn ogystal â chamfanteisio troseddol a cham-drin gan gyfoedion, mae'r Swyddfa Gartref yn buddsoddi £3.7 miliwn arall yn y Gronfa Perthnasoedd Dibynadwy yn 2020 / 21. Nod y gronfa, a lansiwyd yn 2018, yw amddiffyn plant a phobl ifanc trwy feithrin perthnasoedd iach, ymddiriedus gydag oedolion cyfrifol. Mae'r un ar ddeg o brosiectau a arweinir gan awdurdodau lleol yn amrywio o ran ffocws, gan gynnig ystod o gymorth: o ddarparu cymorth uniongyrchol un wrth un a gweithgareddau grŵp drwedd i newid ar lefel system. Mae canfyddiadau o'r ddwy flynedd gyntaf yn dangos bod demograffeg y garfan a gefnogir yn gynrychioliadol o'r gymuned leol ar y cyfan, â rhai gorgynrychioliadau o'u cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol (er enghraifft, plant ag anghenion addysgol arbennig (SEND)). **Trwy werthusiad annibynnol, ar draws y rhaglen o'r Gronfa Perthnasoedd Dibynadwy, byddwn yn parhau i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar yr hyn sy'n gweithio i amddiffyn pobl ifanc, yn ogystal ag effaith COVID-19 ac unrhyw addasiadau y mae prosiectau wedi'u gwneud.**
205. Gall asesu effaith ymyriadau fel y rhain fod yn heriol. Wrth asesu risg person ifanc, efallai na fydd lefel risg ddigynfnewid neu uwch yn dangos canlyniad negyddol. Er enghraifft, galai ddangos lefel uwch o ymddiriedaeth gan fod y person ifanc wedi datgelu mwy o wybodaeth i'r gweithiwr proffesiynol. Nid yw adeiladu perthynas ymddiriedus rhwng plentyn a gweithiwr prosiect yn broses unionlin a gall alw am amser. Mae tystiolaeth yn awgrymu y gall perthynas ddibynadwy gefnogi gwell lles a datblygiad personol megis ymgysylltu ag addysg a chyfleoedd cyflogaeth, a chael gwell perthnasoedd â chyfoedion, teulu a gweithwyr proffesiynol.

ASTUDIAETH ACHOS

Ar ôl cael ei rhoi ddwywaith ar gynllun gofal, yn gyntaf am esgeulustod ac yna cam-drin emosiynol, atgyfeiriwyd Suzy at brosiect Perthnasoedd Dibynadwy ar ôl cael ei hasesu fel rhywun mewn perygl o brofi camfanteisio'n rhywiol. Roedd asiantaethau'n poeni am ddigwyddiadau rheolaidd lle aeth hi ar goll, presenoldeb gwael yn yr ysgol ac am ddynion hŷn a allai fod wedi bod yn ei pharatoi i bwrpas rhyw. Dechreuodd y gwaith â sesiynau dal i fyny rheolaidd ac amser gyda'i gilydd i feithrin perthynas, gan gynnwys gweithgareddau i fagu hyder Suzy wrth ddysgu sgiliau newydd, megis coginio. Gweithiodd y tîm yn gyfannol gyda Suzy a'i mam, ei hysgol a'i gweithiwr cymdeithasol i wneud cynllun i sefydlogi ei phresenoldeb yn yr ysgol a'i chefnogi i aros mewn addysg ar ôl 16, helpu Suzy i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol â chyfoedion yn ei hoedran ei hun, ac i stopio dadleuon gartref a oedd wedi arwain at fynd ar goll o'r blaen. Mae achos Suzy bellach wedi'i gau i Gofal Cymdeithasol Plant ac mae'r risg iddi o brofi camfanteisio'n rhywiol wedi'i lleihau.

206. Rydym yn gwybod bod troseddwy'r hefyd yn manteisio ar wendidau canfyddedig plant ar-lein ac y gall rhai grwpiau o blant fod mewn perygl arbennig. **Mae'r Swyddfa Gartref wedi darparu cyllid i South West Grid ar gyfer Dysgu a Materion Rhyngwrwyd i ddatblygu eu Hyb Diogelwch Digidol Cynhwysol**, sydd wedi'i gynllunio i leihau'r risg o brofi cam-drin ar-lein, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, a gyflawnir yn erbyn plant â gwendidau megis plant ag anghenion addysgol arbennig (SEND), plant LGBTQ+, a phlant mewn gofal. Mae'r Hyb yn darparu cymorth i'r plant eu hunain, eu rhieni a'u gofalwyr, a'r gweithwyr proffesiynol rheng flaen sy'n gweithio gyda nhw i'w cadw'n ddiogel ar-lein. Byddwn yn parhau i ddysgwyl ein dealltwriaeth o fod yn agored i gam-drin plant yn rhywiol, sut mae hyn yn gweithio ar-lein a'r hyn sy'n gweithio i leihau risg, gan gynnwys ar gyfer plant LGBTQ+ a'r rhai sydd â SEND.

“Roedd pawb yn dal i ddweud wrthyf fod pethau'n anghywir neu'n ddrwg - i roi'r gorau i'w wneud. Y trafferth oedd nad oeddwn i'n gwybod beth oedd yn iawn. Roeddwn i'n gwybod bod pethau'n anghywir oherwydd roeddwn i'n cael gwybod am hynny ond nid pam na hyd yn oed beth oedd yn iawn. Roeddwn i'n dal i wneud camgymeriadau nes i mi gael gwybod beth oedd yn iach. Unwaith roeddwn i'n gwybod, roedd o gymorth mawr i gael pethau'n gywir yn lle.”

Llanc, 16 oed

207. Rydym yn gwybod bod angen cymorth wedi'i dargedu ar blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol hefyd i sicrhau bod eu hanghenion diogelu a lles yn cael eu diwallu, ac i leihau'r risg y gallent ei pheri iddynt hwy eu hunain ac i eraill (gweler [Rhannau 2.5](#) a [2.7](#)). Mae ymddygiad rhywiol niweidiol yn bodoli ar sbectrwm, ac mae angen teilwra ymatebion proffesiynol yn unol â hynny. **Mae'r Swyddfa Gartref wedi ariannu Sefydliad Lucy Faithfull i ddatblygu ac ehangu eu hadnoddau ataliol ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol, gan gynnwys [pecyn cymorth ymddygiad rhywiol niweidiol](#) i helpu rhieni, gofawyr a gweithwyr proffesiynol i nodi ac ymateb yn ogystal â gwybod ble i fynd am gymorth.** Byddwn yn ehangu ein sylfaen dystiolaeth ar arferion gorau wrth ymateb i ymddygiad rhywiol niweidiol, gan gynnwys cam-drin gan gymheiriaid mewn ysgolion.
208. Trwy'r Ganolfan CSA a chronfa Cymorth i Ddioddefwyr Cam-drin Rhywiol Plant, **mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn cefnogi gwaith i ddatblygu ein dealltwriaeth o natur a chanlyniadau cam-drin yn rhywiol rhwng brodyr a chwiorydd**, ac i wella'r ymateb i'r math hwn o gamdriniaeth y gall gweithwyr proffesiynol ei chael yn arbennig o heriol.
209. Mae'n bwysig sylweddoli y bydd rhai plant a phobl ifanc a gafodd eu remandio neu eu dedfrydu i ddalfa ieuencid wedi bod yn destun cam-drin rhywiol; dylid cydnabod eu sefyllfa fel dioddefwyr a goroeswyr, a rhaid diwallu eu hanghenion diogelu a chymorth. Ar wahân, mae grŵp o blant hefyd yn cael eu dal yn yr ystâd ddiogel am resymau lles o dan [Ddeddf Plant 1989](#). Yn aml mae gan y Plant a'r bobl ifanc hyn, a allai hefyd fod wedi dioddef cam-drin rhywiol, anghenion ymddygiadol corfforol, meddyliol ac emosiynol cymhleth. Efallai y bydd angen cymorth ac ymyrraeth arnynt i fynd i'r afael â'u hymddygiad, a all fod o ganlyniad i drawma, esgeulustod difrifol, neu anghenion aml-haenog, heb eu diwallu a chymhleth.
210. Rydym yn gwybod bod gwahanol fathau o fregusrwydd yn aml yn gorgyffwrdd, ac y gall cyflawnwyr achosi sawl math o gam-drin i blant a phobl ifanc, megis camfanteisio'n droseddol (gan gynnwys llinellau cyffuriau) a chamfanteisio'n rhywiol. Felly mae amddiffyn plant a phobl ifanc rhag gwahanol fathau o gamfanteisio'n chwarae rhan allweddol wrth atal cam-drin plant yn rhywiol. **Bydd y Llywodraeth yn buddsoddi'n sylweddol mewn mentrau i atal a mynd i'r afael â chysylltiad pobl ifanc â throseddu treisgar, gan gynnwys trwy'r Gronfa Waddol Ieuencid gwerth £200 miliwn i'w dosbarthu dros 10 mlynedd, a £70 miliwn ar draws 2019/20 a 2020/21 i sefydlu Unedau Lleihau Trais.** Yn ychwanegol, fel rhan o'r rhaglen £25 miliwn i fynd i'r afael â llinellau cyffuriau, rydym yn buddsoddi'n sylweddol mewn cymorth arbenigol i bobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan y math hwn o gamfanteisio.

Digwyddiadau mynd ar goll fel dangosydd o gamfanteisio'n rhywiol ar blant

Yn 2018/19, ymatebodd yr heddlu i 199,634 o ddigwyddiadau mynd ar goll yn ymwneud â phlant, a oedd yn cyfrif am 62% o gyfanswm y digwyddiadau mynd ar goll a gofnodwyd yng Nghymru a Lloegr. Er y bydd y rhan fwyaf o blant sy'n mynd ar goll yn dychwelyd adref yn ddiogel, gall digwyddiadau mynd ar goll fod yn ddangosydd o ystod o niwed, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol ar blant. Mae'r heddlu ac elusennau, gan gynnwys Missing People [Pobl ar Goll], yn rhestru camfanteisio'n rhywiol fel un o'r rhesymau mwyaf cyffredin a roddir gan blant dros fynd ar goll. Mae digwyddiadau mynd ar goll dro ar ôl tro yn dangos lefel arbennig o uchel o fregusrwydd i gamfanteisio'n rhywiol ar blant ac mae tystiolaeth gref yn cysylltu plant mewn gofalsy'n mynd ar goll a'r rhai sy'n cael eu paratoi i bwrpas rhyw neu'n cael eu camfanteisio arnynt yn rhywiol.

Er bod y Strategaeth hon yn ceisio mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar ei holl ffurfiau a mynd i'r afael ag un o'r ffactorau sylfaenol allweddol y tu ôl i blant sy'n mynd ar goll, bydd y Llywodraeth yn parhau i weithio gyda'r heddlu, NCA a sefydliadau statudol ac anstatudol eraill i wella ein hymateb i blant sy'n mynd ar goll ac i leihau'r risg a achosir i'r plant hyn. Mae'r camau perthnasol yr ydym yn eu cymryd yn cynnwys:

- Gweithio gydag arweinydd NPCC ar gyfer pobl ar goll i gefnogi ymatebion effeithiol, wedi'u seilio ar risg gan yr heddlu i ddigwyddiadau plant sy'n mynd ar goll.
- Gwella ansawdd data ar bobl sydd ar goll y gall yr heddlu eu cyrchu, a ddarperir fel rhan o'r Gwasanaeth Data Gorfodi'r Gyfraith newydd.
- Gwella effeithlonrwydd a chyrhaeddiad y Rhybudd Achub Plant (CRA), a gyflenwir gan yr NCA ar ran plismona'r DU. Mae'r CRA yn bartneriaeth rhwng yr heddlu, y cyfryngau a'r cyhoedd i leoli plentyn risg uchel sydd ar goll yn ddiogel, pan fydd risg wirioneddol, uniongyrchol i'w fywyd.
- Cefnogi'r sector gwirfoddol i ddarparu cymorth hanfodol i blant sydd ar goll sydd mewn perygl o brofi cam-drin a chamfanteiso, er enghraifft llinell gymorth 24/7 Missing People, TestSafe a SafeCall (wrthi'n cefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n poeni am gamfanteisio ynghylch llinellau cyffuriau).

3.5 Cryfhau'r modd nodi ac ymyrryd yn gynnar mewn achosion cam-drin plant yn rhywiol

211. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, fe fu gwaith helaeth i yrru nodi ac ymyrraeth ym mhob math o gam-drin plant. **Gan gydnabod tystiolaeth (gweler [Rhan 2.2](#)) ynghylch anawsterau hanesyddol wrth nodi ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, yn arbennig mewn amgylchedd rhyng-deuluol, bydd y Llywodraeth yn gweithio i arfogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda phlant â'r ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i nodi'r cam-drin plant yn rhywiol.** Mae hyn yn arbennig o bwysig yng nghyd-destun COVID-19 a allai fod wedi gwaethgu'r risg o rai mathau o gam-drin plant yn rhywiol (gweler [Rhan 2.10](#)).

Byddwn yn buddsoddi mewn cryfhau arferion diogelu ar draws gwahanol sectorau, gan gynnwys sbarduno sgiliau a gwybodaeth o safon gyson ym maes Gofal Cymdeithasol Plant i ymateb i gam-drin plant yn rhywiol

212. **Mae gwaith i wella diogelu'n digwydd ar draws y system iechyd.** Bydd NHSEI a Health Education England [Addysg Iechyd Lloegr] yn adolygu hyfforddiant diogelu gorfodol ar gyfer pob gweithiwr iechyd proffesiynol ac yn cryfhau cydran diogelu contract safonol darparwyr y GIG. Yn ogystal, bydd NHSEI yn lansio Pecyn Cymorth Sicrwydd Comisiynu Diogelu newydd i gefnogi comisiynwyr lleol i wneud gwelliannau ac ymgorffori dull diogelu cyd-destunol. Mae'r GIG hefyd wedi buddsoddi £15 miliwn i gryfhau cymorth iechyd meddwl i'w staff, gan nodi pwysigrwydd amddiffyn lles holl staff y GIG yn ystod y cyfnod arbennig o anodd hwn o COVID-19, a sicrhau eu bod yn gallu darparu gwasanaethau'n effeithiol, gan gynnwys diogelu.
213. Er mwyn cryfhau arferion diogelu mewn ysgolion, bydd yr Adran Addysg yn ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i ganllawiau ar Gadw Plant yn Ddiogel mewn Addysg, gan gynnwys ymateb i gam-drin plant yn rhywiol, ymddygiad rhywiol niweidiol a cham-drin gan gymheiriaid; bydd hyn yn adeiladu ar ddiweddariadau a wnaed i'r canllawiau ym mis Medi 2020. **Yn ogystal â diweddarau canllawiau, bydd y Llywodraeth yn ceisio cefnogi Arweinwyr Diogelu Dynodedig mewn ysgolion ledled Cymru a Lloegr i nodi ac ymateb yn briodol i gam-drin plant yn rhywiol trwy rannu adnoddau ymarfer Canolfan CSA ar gyfer lleoliadau addysg.**

ASTUDIAETH ACHOS

Ar ôl i ysgol yn Wiltshire gyflwyno diogelu cyd-destunol, sylwodd staff ar ddau ddisgybl benywaidd â bagiau drud. Fe wnaeth yr ysgol nodi hwn fel arwydd a allai beri pryder a chysylltodd â Hyb Diogelu Amlasiantaethol Wiltshire (MASH) a thîm Emerald Child Exploitation. Cynhaliwyd cyfarfod amlasiantaethol i ddeall rhwydweithiau cymheiriaid y ddau ddisgybl, a nododd gysylltiadau rhwng nifer o bobl ifanc ac oedolyn gwrywaidd. Gan ddefnyddio data ffôn, llwyddodd y tîm Emerald i ddod o hyd i'r oedolyn gwrywaidd a phobl ifanc mewn man penodol ac, ar ôl ymchwilio ymhellach, ei erlyn am gamfanteisio'n rhywiol.

214. Er mwyn sicrhau bod gweithwyr ieuencid wedi'u cyfarparu i gefnogi plant a phobl ifanc ac i nodi ac ymateb i bob math o gamdriniaeth, mae'r Asiantaeth Ieuencid Genedlaethol yn datblygu hyfforddiant i'r holl weithwyr ieuencid i ganfod arwyddion o drawma a chamfanteisio, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol. Ym mis Medi 2020, cyhoeddodd ei [cwricwlwm cenedlaethol diwygiedig ar gyfer gwaith ieuencid](#) yn cynnwys adran bwrpasol ar 'berthnasoedd iach' a gwybodaeth am faterion diogelu penodol.
215. Ym maes Gofal Cymdeithasol Plant, bydd yr Adran Addysg yn adeiladu ar y strategaeth [Rhoi Plant yn Gyntaf](#), gan gydweithredu ag awdurdodau lleol ac ar draws y gweithlu i sbarduno lefel gyson o sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth trwy ddiwygio'r gweithlu, system gryfach o atebolrwydd a buddsoddi trwy'r Rhaglen Arloesi Gofal Cymdeithasol Plant.
216. **Bydd yr Adran Addysg yn parhau i wella gallu gweithwyr cymdeithasol plant i nodi ac ymateb yn briodol i gam-drin plant yn rhywiol trwy ddylanwadu ar hyfforddiant a llwybrau cyn ac ar ôl cymhwyso.** Bydd hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â rhaglenni hyfforddi llwybr carlam a ariennir gan y Llywodraeth i wella'r ddarpariaeth o gynnwys cam-drin plant yn rhywiol; gweithio'n agos gyda Phartneriaethau Addysgu; sicrhau bod deunydd sy'n benodol i gam-drin plant yn rhywiol yn cael ei gynnwys yn y System Asesu ac Achredu Genedlaethol, ac archwilio cyflwyno hyfforddiant sy'n benodol i niweidiau, gan gynnwys trwy'r Ganolfan CSA.
217. Mae gweithwyr cymdeithasol ar gyfer plant a theuluoedd yn rhan hanfodol o'r gweithlu sy'n mynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol. Gall cynnal gwaith mor heriol a sensitif effeithio ar eu lles ac, o ganlyniad, ar eu gallu i gynnal eu gwaith. Mae hyn yn arbennig o anodd yn ystod COVID-19. Rydym yn gweithio gyda'n hawdurdodau lleol Partneriaid Ymarfer sy'n perfformio'n dda i nodi a rhannu arferion da wrth ddarparu'r cymorth cywir i staff i gynnal eu lles corfforol a meddyliol. Rydym hefyd yn parhau i ariannu gweithgarwch sy'n hyrwyddo lles gweithwyr cymdeithasol yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys rhaglenni i ddatblygu arweinwyr gwaith cymdeithasol sy'n cefnogi lles eu timau, y rhaglen Gweithwyr Proffesiynol Hapusach Iachach dan arweiniad Canolfan Gofal Cymdeithasol Plant Beth sy'n Gweithio, a gwiriad iechyd ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, gan roi gwell dealltwriaeth i awdurdodau lleol o les y gweithlu.
218. **Bydd rhai dioddefwyr a goroeswyr camfanteisio'n rhywiol ar blant hefyd yn ddioddefwyr caethwasiaeth fodern.** Er mwyn sicrhau bod dioddefwyr a goroeswyr yn cael eu cefnogi, rydym wedi ehangu Gwarcheidwaid Masnachu Plant Annibynnol (ICTGs) i draean o'r

awdurdodau lleol, gan ddarparu cyngor a chymorth i blant sydd wedi'u masnachu a gweithio gyda phartneriaid amlasiantaethol i eirioli ar ran y plentyn. Bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i gyflwyno ICTGs ar lefel genedlaethol fel rhan o Raglen Trawsnewid y Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a byddwn yn parhau i adolygu'r ffordd orau o ddiwallu anghenion plant unigol ar lefel leol trwy'r rhaglen.

219. **Er mwyn mynd ymhellach i nodi cam-drin plant yn rhywiol a chefnogi dioddefwyr a goroeswyr, mae'r Swyddfa Gartref yn ariannu'r Ganolfan CSA i ddatblygu a phrofi ystod o raglenni ac adnoddau hyfforddi, gan gynnwys dulliau sy'n wybodus am drawma.** Mae'r gwaith hwn yn cynnwys: [Arweinwyr Ymarfer](#) hyfforddiant mewn lleoliadau amlasiantaethol, hyfforddiant undydd mewn trefniadau diogelu amlasiantaethol lleol, yn ogystal â gwaith i gryfhau hyfforddiant cychwynnol a dderbynnir gan weithwyr proffesiynol.
220. **Mae'r Swyddfa Gartref hefyd wedi ariannu'r Ganolfan CSA i ddatblygu Llwybr Cam-drin Plant yn Rhywiol i amlinellu'n glir y broses i'w dilyn a'r camau sy'n ofynnol i ddiogelu plant lle mae cam-drin plant yn rhywiol yn peri pryder.** Bydd yn dod ag eglurder i bwyntiau penderfynu allweddol, yn darparu adnoddau wedi'u teilwra i gynorthwyo ymarferwyr sy'n ymgymryd â'r gwaith hwn, ac yn gwella ymatebion gweithwyr proffesiynol ymhellach i gam-drin plant yn rhywiol trwy ddarparu llwybr wedi'i seilio ar dystiolaeth a sy'n canolbwyntio ar anghenion a safbwyntiau plant a phobl ifanc.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae'r Rhaglen Arweinwyr Ymarfer CSA, a ddarperir gan y Ganolfanarbenigedd ar gam-drin plant yn rhywiol, yn rhaglen ddwys o hyfforddi a datblygu sy'n adeiladu dealltwriaeth a hyder ymarferwyr wrth nodi ac ymateb i bryderon cam-drin plant yn rhywiol, ac sy'n eu cefnogi i rannu a lledaenu eu dysgu o fewn eu gwasanaethau:

“Rwy'n teimlo bod y cwrs wedi gwella fy ymarfer yn llwyr. Yn ddiweddar, cefais atgyfeiriad a oedd yn ymddangos yn eithaf “lefel isel” ar y dechrau. Fodd bynnag, yn dilyn y cwrs, roeddwn yn teimlo'n hyderus iawn wrth dystiolaethu pam bod angen uwchgyfeirio'r achos.”

221. Er bod partneriaid diogelu yn aml yn dibynnu ar weithwyr proffesiynol sy'n gweld plant yn rheolaidd i nodi newidiadau yn eu hymddygiad ac atgyfeirio pryderon diogelu, gall unrhyw un sy'n rhyngweithio â phlant helpu i nodi camdriniaeth. Mae pwysigrwydd hyn wedi dod ynamlycach yng nghyd-destun COVID-19 lle mae plant yn treulio llai o amser gyda gweithwyr proffesiynol dibynadwy y tu allan i'w cartrefi. **Er mwyn codi ymwybyddiaeth yn ystod y cyfnod hwn, dosbarthodd y Llywodraeth ganllaw byr i dros 25,000 o sefydliadau a phartneriaid cymunedol lleol - gan gynnwys archfarchnadoedd, gweithwyr post a darparwyr trafnidiaeth - i'w helpu i nodi a riportio pryderon diogelu yn ystod y pandemig.** Hefyd darparodd y Llywodraeth £1.6 miliwn i'r NSPCC i ehangu a hyrwyddo eu llinell gymorth er mwyn i oedolion riportio pryderon ynghylch diogelu. Fe wnaeth y llinell gymorth brofi cynnydd o 40% ar unwaith yn y cysylltiadau a gafodd eu trin gan y gwasanaeth, ac mae'r lefelau wedi aros ymhell uwchlaw'r lefelau sylfaenol.

222. **Mae'r Adran Addysg hefyd wedi ail-gychwyn gweithgareddau'n seiliedig ar eu hymgyrch Gyda'n gilydd, gallwn fynd i'r afael â cham-drin plant bresennol**, gan ganolbwyntio ar helpu'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol i ddeall a nodi arwyddion cymhleth cam-drin ac esgeuloso, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, a rhoi sicrwydd ynghylch trafod pryderon a gwneud atgyfeiriadau. Cefnogir gweithgareddau cyfryngau cymdeithasol yr ymgyrch gan becyn cymorth ac adnoddau a gyflenwir i awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill, gan ehangu negeseuon yr ymgyrch ac yn gwella potensial diogelu ymhlith y cyhoedd, gan gynnwys trwy ased ychwanegol sy'n canolbwyntio ar nodi cam-drin plant yn rhywiol ar-lein.
223. Gan gydnabod tystiolaeth bod dioddefwyr a goroeswyr BAME o gam-drin plant yn rhywiol yn cael eu tangynrychioli o'u cymharu â demograffeg leol, ac y gallent wynebu rhwystrau penodol rhag datgelu a chyrchu cymorth (gweler [Rhan 2.2](#)), **byddwn yn ceisio codi ymwybyddiaeth yng nghymunedau BAME o gam-drin plant yn rhywiol a'r cymorth sydd ar gael trwy ymgysylltu wedi'i dargedu â'r gymuned.**

“Rwy'n credu fy mod i ond wedi camymddwyn lawer gan obeithio y byddai rhywun yn gofyn i mi beth oedd yn bod. Pan wnaethon nhw hynny, dywedais wrthynt a chefais ryw faint o help.”

Merch, 15 oed

3.6 Sbarduno gwaith amlasiantaethol a rhannu gwybodaeth i asesu risg, ymyrryd yn gynnar ac atal niwed

224. Nid yw'r cyfrifoldeb am nodi ac ymateb i gam-drin plant yn rhywiol yn aros ag un asiantaeth neu adran y Llywodraeth. Yn genedlaethol, mae'n ddyletswydd ar bob Ysgrifennydd Gwladol i hyrwyddo lles pob plentyn yn Lloegr. **Mae gan yr Adran Addysg, DHSC a'r Swyddfa Gartref gyfrifoldeb penodol i weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod arweinwyr lleol ar draws y sector iechyd, yr heddlu a chynghorau lleol yn gweithredu'n effeithiol yn y trefniadau diogelu amlasiantaethol a sefydlwyd yn 2018.**
225. Ar gyfer plant sy'n dioddef cam-drin rhywiol, mae'n hanfodol bod partneriaid diogelu'n gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i'w nodi a'u hamddiffyn. Mae'r Llywodraeth yn ystyried bod y trefniadau amlasiantaethol hyn yn sylfaen i system amddiffyn plant sy'n cyflawni'n well. Mae Syr Alan Wood, a arweiniodd yr adolygiad o Fyrddau Lleol Diogelu Plant, wedi'i gomisiynu i gefnogi partneriaid lleol â'r diwygiadau ac i adolygu cynnydd wrth weithredu'r trefniadau newydd. Gan adeiladu ar yr argymhellion o'i adroddiad interim ar weithredu, mae adrannau'r Llywodraeth wedi datblygu cynllun cyflenwi i sicrhau gwelliannau parhaus ar lefel leol trwy dargedu: arweinyddiaeth ac ymgysylltu; arferion gorau a phartneriaethau; a monitro a gwerthuso.

Fel rhan o drefniadau partneriaeth diogelu lleol newydd, byddwn yn cyflwyno hwyluswyr ar gyfer pob un o'r tri gwasanaeth statudol sydd bellach mewn partneriaeth gyda'i gilydd i sbarduno gwelliant parhaus

226. **Trwy'r Rhaglen Gwybodaeth ac Ymarfer Bregusrwydd, mae'r Swyddfa Gartref hefyd yn ariannu hwylusydd cenedlaethol ar ddiwygio partneriaethau ddiogelu i gynorthwyo heddluoedd i roi'r trefniadau newydd ar waith.** Byddwn yn parhau â'r cyllid hwn, ac mae'r DHSC a'r Adran Addysg wedi cefnogi hwyluswyr cenedlaethol tebyg ar gyfer awdurdodau ieuchyd ac awdurdodau lleol, gan ein helpu i sbarduno ein cynllun cyflawni yn ei flaen.
227. **Byddwn yn parhau i gefnogi awdurdodau lleol sy'n bartneriaid diogelu i weithio gyda'i gilydd yn fwy effeithiol wrth ymateb i bob math o gamfanteisio a niwed y tu allan i'r teulu, gan gynnwys trwy Raglen Cymorth Mynd i'r Afael â Chamfanteisio ar Blant yr Adran DfE.** Mae'r rhaglen £2 filiwn hon yn helpu ardaloedd lleol i wella eu hymateb strategol, nodi risg a datblygu atebion lleol i ddiogelu plant sy'n profi camfanteisio, gan gynnwys camfanteisio'n rhywiol.
228. Bydd trawsnewid gwasanaethau mewn awdurdodau lleol hefyd yn parhau i gael ei gefnogi gan y Rhaglen Teuluoedd Cythryblus, gan ddefnyddio'r Grant Trawsnewid Gwasanaeth a Canllaw y System Cymorth Cynnar i hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth yn gryfach a defnydd gwell o ddata mewn gwasanaethau cymorth cynnar.
229. **Bydd y Swyddfa Gartref yn gosod dyletswyddau newydd ar ystod o asiantaethau, megis yr heddlu, llywodraeth leol, troseddu ieuencid, ac ieuchyd a phrawf, i weithio ar y cyd i atal a lleihau trais difrifol.** Wrth ddiffinio cwmpas eu cynlluniau, bydd gan ardaloedd lleol yr hyblygrwydd i ystyried mathau eraill o droseddau, a allai gynnwys cam-drin plant yn rhywiol.
230. Mae'n hanfodol bod partneriaid diogelu'n rhannu hysbysrwydd, gwybodaeth a mewnwleidiad i asesu risg ac atal niwed. Ni ddylai unrhyw beth rwystro'r broses o rannu gwybodaeth pan fydd pryderon ynghylch ddiogelwch plentyn. **Fe wnaeth adrannau'r llywodraeth gomisiynu prosiect ymchwil defnyddwyr i ddeall yn well y rhwystrau i rannu gwybodaeth rhwng partneriaid diogelu ac asiantaethau eraill, ac maent yn bwrw ymlaen ag argymhellion ar ddiweddarau canllawiau a rhannu arferion gorau yn y gofod hwn.** Byddwn hefyd yn adeiladu ar yr ymchwil defnyddwyr hon i archwilio sut mae technoleg yn cael ei defnyddio ar hyn o bryd i adeiladu darlun o'r risg i blentyn a byddwn yn gwneud argymhellion ar gyfer sut y gellir ei wneud yn fwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys ehangu'r system Rhannu Gwybodaeth ar gyfer Amddiffyn Plant o leoliadau gofal ieuchyd heb ei drefnu i bob lleoliad ieuchyd, gan gynnwys meddygon teulu, erbyn 2023, yn unol â Chynllun Tymor Hir [y GIG](#).
231. Ar lefel genedlaethol, mae'r cyfrifoldeb am ddysgu gwersi o ddigwyddiadau diogelu difrifol yn gorwedd gyda'r Panel Adolygu Ymarfer Diogelu Plant annibynnol, â goruchwyliaeth ar gyfer pob digwyddiad difrifol yn cael ei hysbysu gan awdurdodau lleol. Mae'r Panel yn comisiynu adolygiadau cenedlaethol o achosion difrifol ym maes diogelu plant, gan ystyried materion sy'n gymhleth neu o bwysigrwydd cenedlaethol, a all gynnwys achosion cam-drin plant yn

rhywiol. Mae'n gweithio'n agos gyda phartneriaid diogelu lleol i nodi a rhannu dysgu a all alluogi gwelliannau mewn ymarfer i amddiffyn plant rhag niwed yn well.

232. Fel yr amlinellwyd yn [Amcan 2](#) Mae Trefniadau Amlasiantaethol ar gyfer Amddiffyn y Cyhoedd hefyd yn bodoli i ddarparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng Awdurdodau Cyfrifol ac asiantaethau Dyletswydd i Gydweithredu sy'n ymwneud â rheoli troseddwyd rhyw cofrestredig a diogelu plant.

3.7 Gweithio'n rhyngwladol i atal cam-drin plant yn rhywiol a mynd i'r afael â throseddu rhyw â phlant trawswladol

233. Mae cam-drin plant yn rhywiol yn drosedd heb ffiniau. Rydym yn gwybod bod troseddwyd yn targedu plant mewn gwledydd eraill yn gynyddol trwy deithio dramor i gyflawni cam-drin, yn defnyddio'r rhyngwrwyd i ffrydio cam-drin yn fyw o wledydd eraill ac yn cynnal delweddau o gam-drin ar rwydweithiau ar-lein ledled y byd. Fel y nodwyd yn [Rhan 1: Ein Hegwyddorion a Fframwaith](#), mae mabwysiadu dull rhyngwladol o fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol felly yn allweddol i'n hymateb strategol, system gyfan.
234. Mae'r DU yn falch o gael ein cydnabod fel arweinydd y byd yn ein hymateb i gam-drin plant yn rhywiol - fe wnaeth Mynegai Out of the Shadows gan [Uned Gudd-wybodaeth yr Economegydd Annibynnol](#) ar gam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant, a gyhoeddwyd yn 2020, roi'r sgôr uchaf i ymateb y DU i gam-drin plant yn rhywiol o'r 60 gwlad a aseswyd. Byddwn yn parhau i fod ar flaen y gad o ran gweithredu rhyngwladol.
235. **Yn ganolog i atal ac ymateb yn effeithiol i gam-drin plant yn rhywiol mae mabwysiadu dull byd-eang, gan gyfuno cydweithredu rhyngwladol â safonau byd-eang cyffredin,** megis [Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant rhag Camfanteisio'n Rhywiol a Cham-drin yn Rhywiol](#) (a elwir hefyd yn Gonfensiwn Lanzarote) a gadarnhawyd gan y DU yn 2018 a'r hyn y bydd y DU yn parhau i riportio yn ei ôl.
236. Gellir defnyddio'r rhyngwrwyd i hwyluso cam-drin plant yn rhywiol ledled y byd a gall cam-drin ar-lein weithredu fel rhagflaenydd cyn i droseddwyd deithio dramor i gam-drin plant. **Fel rhan o ymateb y Swyddfa Gartref, hi oedd yr unig roddwr ariannol i Gynghrair Fyd-eang WeProtect ers ei sefydlu, sy'n chwarae rhan annatod yn rhyngwladol wrth sbarduno ymwybyddiaeth o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein ac ymatebion arferion gorau iddo.** Mae hyn yn cynnwys trwy hyrwyddo mabwysiadu'r [Ymateb Cenedlaethol Enghreifftiol ar gyfer Atal a Mynd i'r Afael â Chamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol](#) a'r [Ymateb Strategol Byd-eang i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Cham-drin Plant yn Rhywiol Ar-lein](#). Erbyn hyn mae'r Gynghrair yn gorff annibynnol, y bydd y Swyddfa Gartref yn parhau i chwarae rhan annatod ynddo - gan symbylu gweithredu trwy ein sedd barhaol ar Fwrdd Cynghrair Fyd-eang WeProtect.
237. Y tu allan i'r WPGA, mae'r Swyddfa Gartref wedi datblygu rhwydwaith o ymgysylltiadau amlochrog a dwyochrog i wella effeithiolrwyd ymdrechion i frwydro yn erbyn cam-drin plant yn rhywiol gartref ac o amgylch y byd, gan gynnwys trwr Weinidogion y Pum Gwlad - cynhadledd flynyddol sy'n dwyn ynghyd Weinidogion Mewnol Gwledydd y Pum Llygad gan gynnwys y DU, yr Unol Daleithiau, Canada, Awstralia a Seland Newydd. Rydym wedi defnyddio'r fforwm hwn i

sbarduno gwaith i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol ar-lein, gan gynnwys cydweithredu â phartneriaid diwydiant i ddatblygu'r [Egwyddorion Gwirfoddol](#) (gweler [Amcan 3.2](#)).

238. **Byddwn yn parhau i ddefnyddir Gweinidogion y Pum Gwlad, yn ogystal â fforymau amlochrog a dwyochrog eraill a'n rhwydwaith diplomyddol, i godi proffil byd-eang cam-drin plant yn rhywiol a hyrwyddo ymdrechion i fynd i'r afael â phob math o gam-drin plant yn rhywiol ar-lein.** Mae hyn yn cynnwys adeiladu ar ein hymgysylltu llwyddiannus â gwledydd i frwydro yn erbyn cynnal deunydd cam-drin plant yn rhywiol ar y rhyngwrwyd.
239. **Bydd y sector gorfodi'r gyfraith hefyd yn parhau i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol yn fyd-eang trwy aelodaeth yr NCA o'r Tasglu Byd-eang Rhithiol,** gynghrair ryngwladol o asiantaethau gorfodi'r gyfraith, cyrff anllywodraethol a phartneriaid diwydiant yn gweithio gyda'i gilydd i leihau'r bygythiad byd-eang o gam-drin rhywiol ar-lein a mathau eraill o droseddau rhywiol trawswladol ar blant.
240. Ochr yn ochr â gwaith ar y lefel fyd-eang, mae'n allweddol bod y Llywodraeth yn parhau i sbarduno ymdrechion i atal cam-drin plant yn rhywiol ar lefel y wlad, gan gynnwys trwy rannu mewnwelediad a thechnoleg â gwledydd eraill lle bydd hynny'n briodol.
241. Mae rhwydwaith diplomyddol tramor y DU yn cefnogi mynediad i lywodraethau, partneriaid gweithredol, sefydliadau amlochrog a chyrff anllywodraethol i wella cydgysylltu ac eirioli dros fabwysiadu safonau arferion gorau. Bydd creu'r Swyddfa Dramor, Gymanwlad a Datblygu (FCDO) yn helpu i gynyddu effaith gyffredinol y DU - gan gryfhau ac alinio ymdrechion i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol trwy gyfuno arbenigedd datblygu a diplomyddol, ysgogiadau a rhwydweithiau.
242. Bydd y Llywodraeth yn defnyddio mentrau rhyngwladol perthnasol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol mewn ffordd gydgysylltiedig a chydlynol, a bydd yn gweithio trwy'r rhwydwaith diplomyddol i godi proffil byd-eang y mater. **Mae hyn yn cynnwys adeiladu'r sylfaen dystiolaeth ar arferion arloesol i atal ac ymateb i gam-drin rhywiol, camfanteisio ac aflonyddu ar blant ac oedolion, gan gynnwys yn y sector cymorth rhyngwladol, a rhannu arferion gorau trwy'r**[Hyb Adnoddau a Chymorth Diogelu a ariennir gan FCDO](#).
243. Yn ogystal, mae'r Llywodraeth wedi cryfhau ei hymateb dramor i gam-drin plant yn rhywiol trwy'r rhwydwaith trawswlodraethol o'r enw SOCnet, sy'n cael ei redeg ar y cyd gan y Swyddfa Gartref a'r FCDO. Mae'r rhwydwaith hwn yn darparu gwell cydgysylltiad a chynghor polisi ar gyfer troseddau cyfundrefnol difrifol (SOC) mewn rhanbarthau â blaenoriaeth, gan gydlyn ymateb sbectwm llawn sy'n cynnwys gweithgareddau diplomyddol a rhaglen. Byddwn yn ysgogi arbenigedd rhanbarthol SOCnet i gryfhau ein hymateb tramor i gam-drin plant yn rhywiol.
244. **Byddwn hefyd yn gweithio gyda phartneriaid byd-eang, gan gynnwys y Bartneriaeth Fyd-eang i Ddiddymu Trais yn Erbyn Plant, a thrwy raglenni cymorth rhyngwladol perthnasol y DU** er mwyn helpu i wella amddiffyn plant mewn gwledydd allweddol sydd mewn perygl.

ASTUDIAETH ACHOS

Mae'r Gronfa Diddymu Trais yn erbyn Plant wedi buddsoddi yn Thorn - corff anllywodraethol sy'n defnyddio datrysiadau technolegol i atal cam-drin plant yn rhywiol ar-lein - i ddatblygu offeryn i gefnogi ymchwiliadau ar y we dywyll a helpu'r sector gorfodi'r gyfraith i nodi dioddefwyr a goroeswyr. Mae Thorn wedi hyfforddi dros 1,200 o swyddogion gorfodi'r gyfraith mewn 55 o wledydd i ddefnyddio'r dechnoleg hon, sydd wedi chwarae rhan allweddol wrth ddiogelu 1,792 o blant ac arestio 1,151 o droseddswyr.

Mynd i'r afael â chynllun gweithredu troseddswyr trawswladol rhyw â phlant

Ym mis Ionawr 2020, fe wnaeth yr IICSA [gyhoeddi'r adroddiad](#) ar gyfer cam 2 ei ymchwiliad i'r graddau y mae cyrff a sefydliadau yng Nghymru a Lloegr wedi cymryd eu cyfrifoldebau o ddifrif i amddiffyn plant y tu allan i'r DU rhag cam-drin rhywiol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys argymhellion i'r Llywodraeth, gan gynnwys datblygu cynllun gweithredu cenedlaethol i fynd i'r afael â cham-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a gyflawnir dramor gan wladolion y DU a thrigolion Cymru a Lloegr. Mae'r Llywodraeth wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn ei hymateb i argymhellion yr Ymchwiliad, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021; yma, rydym yn nodi beth mae'r cynllun hwnnw'n ei gynnwys.

Bydd y gweithgaredd a amlinellir yn Amcan 3.7 yn allweddol i fynd i'r afael â throseddswyr trawswladol rhyw â phlant (TCSOs) Mae mesurau ataliol yn ganolog i amddiffyn plant rhag niwed, gan ein bod yn gwybod bod troseddswyr yn manteisio fwyfwy ar feysydd sydd â systemau gwannach ym meysydd amddiffyn plant, ymatebion gorfodi'r gyfraith, neu seilwaith a rheolaeth (gan gynnwys dilyn trychinebau dyngarol) i gyflawni camdriniaeth yn erbyn plant sy'n agored i niwed dramor.

Mae mynd i'r afael â TCSOs yn effeithiol hefyd yn galw am system gadarn ar gyfer rheoli troseddswyr yma yn y DU. Mae Amcan 2 yn amlinellu'r camau y mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i gryfhau gwaith amlasiantaethol i reoli troseddswyr, megis trwy wella'r broses Trefniadau Amlasiantaethol i Ddiogelu'r Cyhoedd (MAPPA) a'r gronfa ddata a rennir, ac mae'n ymrwymo i sicrhau bod y broses o reoli troseddswyr rhyw yn y gymuned dan arweiniad yr heddlu o dan MAPPA yn gweithio'n effeithiol. Mae'r camau hyn yn eistedd ochr yn ochr â'r pecyn gwaith ehangach i wella rheolaeth ar droseddswyr rhyw, gan gynnwys eu hanes teithio dramor, trwy gryfhau gorchmynion sifil presennol a galluogi dull wedi'i deilwra o reoli risg. Er mwyn mynd i'r afael yn benodol â bygythiad troseddswyr rhyw yn teithio i gam-drin plant dramor, byddwn yn gwella'r ymdrechion hyn trwy gamau pellach:

- Bydd y Llywodraeth yn adeiladu ei dealltwriaeth o wledydd allweddol sy'n agored i'r posibilrwydd y bydd dinasyddion a thrigolion y DU yn teithio atynt i gam-drin plant, a bydd yn parhau i archwilio cyfleoedd i gryfhau rheolaeth ar droseddswyr rhyw cofrestredig cyn iddynt deithio. Fel yr argymhellwyd gan yr IICSA, mae'r Swyddfa Gartref

wedi comisiynu'r NCA i ddatblygu rhestr o wledydd lle ystyrir bod plant mewn perygl mawr o brofi cam-drin yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol gan wladolion a thrigolion y DU. Bydd y rhestr ar gael i'r heddlu a'r llysoedd i'w cynorthwyo pan fyddant yn ystyried yr angen am waharddiadau ar deithio tramor fel rhan o orchmynion sifil.

- **Mae'r Swyddfa Gartref wedi bod yn buddsoddi dros £4 miliwn y flwyddyn i fynd i'r afael â TCSOs trwy sefydliadau partner amrywiol**, gan gynnwys £2.96 miliwn i'r NCA i dargedu troseddwy'r niwed uchel mewn gwledydd risg uchel. Rhan allweddol o'r ymdrech hon yw gwaith y Genhadaeth Cyfiawnder Rhyngwladol ac NCA â Chanolfan Troseddau Rhynggrwyd yn erbyn Plant Ynysoedd y Philipinau, a sefydlwyd yn 2019 i fynd i'r afael â ffrydio cam-drin rhywiol yn fyw.
- **Bydd y Llywodraeth yn sbarduno gwaith i leihau'r cyfle i TCSOs dargedu plant dramor, gan sicrhau bod gan sefydliadau sydd ag olion traed dramor, megis y rhai sy'n gweithio yn y sector cymorth, y mesurau diogelwch cywir ar waith.** Byddwn yn datblygu Asesiadau Bygythiad INTERPOL i sicrhau bod y sector cymorth yn ymwybodol o fygythiadau allweddol, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol, mewn gwledydd â blaenoriaeth. Ym mis Medi 2020, lansiodd y Llywodraeth [Strategaeth y DU: Diogelu rhag Camfanteisio a Cham-drin yn Rhywiol ac Aflonyddu Rhywiol yn y Sector Cymorth](#) (yn unol ag [Argymhelliad y Pwyllgor Cymorth Datblygu ar Ddiddymu Camfanteisio a Cham-drin yn Rhywiol ac Aflonyddu Rhywiol \(SEAH\)](#); a [Safonau Gofynnol Gweithredu ar Atal Camfanteisio a Cham-drin yn Rhywiol y Pwyllgor Sefydlog Rhyngasiantaethol](#); [Safonau SEAH rhyngwladol y Cenhedloedd Unedig](#); a [Safonau Gofynnol Amddiffyn Plant ym maes Gweithredu Dyngarol](#)). Mae hyn yn nodi gweithredoedd y DU, ar draws holl adrannau'r Llywodraeth sy'n darparu Cymorth Datblygu Swyddogol, i atal cam-drin yn rhywiol, camfanteisio ac aflonyddu rhag digwydd, ac i ymateb yn briodol lle mae'n digwydd.
- **Bydd y Swyddfa Gartref yn sicrhau bod canllawiau a chyfathrebiadau esboniadol yn glir ynghylch y rôl allweddol y mae Tystysgrif Rhyngwladol Amddiffyn Plant yn ei chwarae**, yn cefnogi sefydliadau i recriwtio unigolion yn ddiogel ar gyfer gwaith a gwirfoddoli y tu allan i'r DU.
- **Byddwn yn dod â TCSOs o flaen eu gwell trwy gefnogi erlyniadau gan y system leol i ofodi'r gyfraith trwy Rwydwaith Swyddogion Cyswllt Rhyngwladol yr NCA**, sy'n galluogi rhannu cudd-wybodaeth a chydlyn ymateb gorfodi'r gyfraith i gefnogi gweithgarwch gweithredol y DU yn erbyn cam-drin plant yn rhywiol. Mae hyn ochr yn ochr â defnydd partneriaid yn y sector gorfodi'r gyfraith o Adran 72 Deddf Troseddau Rhywiol 2003, lle mae'n briodol, er mwyn caniatáu i unigolion y DU sy'n troseddu dramor gael eu herlyn yn y DU. **Byddwn yn parhau i hysbysu awdurdodau tramor o 'TCSOs' sy'n teithio i neu sy'n bresennol mewn gwlad, gan ddarparu digon o wybodaeth i system leol gorfodi'r gyfraith gymryd camau gwybodus a phriodol.**
- **Fel Llywodraeth, byddwn hefyd yn parhau i adeiladu ein dealltwriaeth o droseddu trawswladol rhyw â phlant trwy gydweithredu â'r NCA, y gymuned gudd-wybodaeth a'r trydydd sector.**

- Bydd partneriaid gorfodi'r gyfraith sydd yn y rheng flaen wrth fynd i'r afael â TCSOs yn parhau i weithredu, adolygu a diweddarau'r ymateb gorfodi'r gyfraith trwy fesurau ataliol a gweithredol, gan gynnwys diweddarau canllawiau lle mae angen a thrwy ddatblygiad proffesiynol parhaus.

ASTUDIAETH ACHOS

Daeth dinesydd o'r DU i sylw'r NCA ar ôl i westai yn y gwesty yng Nghenia yr oedd yn aros ynddo ffeilio adroddiad i Uned Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl yr NCA yn y DU yn rhannu pryderon am eu hymddygiad tra yng nghwmni nifer o ferched ifanc lleol. Arweiniodd ymchwiliad yr NCA i'r unigolyn - a oedd yn cynnwys cydweithredu â Heddlu Cenedlaethol Cenia, Uned Genedlaethol Amddiffyn Plant Heddlu Cenia, yr FCDO a'r CPS - iddo gael ei gyhuddo o dan Adran 72 o droseddau rhywiol gan gynnwys: cyhuddiadau lluosog o dreisio merch o dan 16 oed; ymosodiad rhywiol ar ferch o dan 16 oed; ymosodiad rhywiol trwy dreiddio merch 13 oed ac yn hŷn; a gwyrddroi cwrs cyfiawnder. Ar 18 Gorffennaf 2018, dedfrydwyd yr unigolyn i 18 mlynedd a chwe mis o garchar.

3.8 Cefnogi'r holl ddiodefswyr a goroeswyr

245. Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo'n llwyr i sicrhau mynediad at gymorth o ansawdd uchel i ddiodefswyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, ble bynnag y maent yn byw yn y wlad ac ni waeth a yw'r cam-drin yn ddiweddar neu heb fod yn ddiweddar (yn yr adran hon, rydym yn defnyddio "heb fod yn ddiweddar" i gyfeirio at gamdriniaeth a brofwyd gan oedolion cyn 18 oed). Mae gwella ansawdd a chysondeb y cymorth i holl ddiodefswyr a goroeswyr cam-drin rhywiol yn ganolog i'r [Cyfeiriad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Ymosodiadau Rhywiol a Cham-drin yn Rhywiol](#) a'r Strategaeth draws-Lywodraethol [ar gyfer Dioddefwyr](#).
246. Gall cam-drin plant yn rhywiol arwain at ganlyniadau dinistriol ac eang i ddiodefswyr a goroeswyr (gweler [Rhan 2.5](#)). O ganlyniad, bydd diodefswyr a goroeswyr camdriniaeth ddiweddar a heb fod yn ddiweddar yn galw am wahanol fathau o ofal a chymorth yn dibynnu ar eu hamgylchiadau, sut y maent am gyrchu cymorth, cyflymder eu hadferiad a lefel y cymorth a gânt pan ydynt yn datgelu eu camdriniaeth. Nid oes dull 'un ateb sy'n addas i bawb'. Mae'r cymorth y mae diodefswyr a goroeswyr yn ei chyrchu'n cwmpasu ystod eang o wasanaethau statudol ac anstatudol a ariennir gan sawl comisiynydd lleol gwahanol (awdurdodau lleol, Grwpiau Comisiynu Clinigol, Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu (PCCs)) a chomisiynwyr cenedlaethol (NHSEI, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Swyddfa Gartref). Ni waeth pa fath o gymorth sy'n cael ei gyrchu, mae diodefswyr a goroeswyr yn pwysleisio pwysigrwydd cael pobl i wrando arnynt, cael eu parchu, eu credu a pheidio â chael eu barnu.
247. Yn anffodus, rydym yn gwybod nad yw diodefswyr a goroeswyr bob amser yn gallu cyrchu'r cymorth sydd ei angen arnynt ac y gall gwasanaethau fod yn ddigyswilt ac yn anodd eu llywio. I ddarparwyr gwasanaeth, yn arbennig yn y sector gwirfoddol, mae heriau hefyd yn

gweithredu mewn tirwedd gomisiynu dameidiog â chyllid ar gael gan nifer o gomisiynwyr lleol a chenedlaethol.

248. **Mewn ymateb i'r her hon, mae'r Llywodraeth yn datblygu Strategaeth Cyllid i Ddioddefwyr er mwyn rhoi'r sector cymorth i ddioddefwyr ar sylfaen fwy cynaliadwy.** Bydd model cyflenwi newydd yn sail i'r Strategaeth Cyllid i Ddioddefwyr er mwyn sicrhau bod ymagwedd cydgysylltiedig at gyllid ar lefel genedlaethol a lleol i sicrhau'r effaith fwyaf bosibl i'r cymorth a ddarparwn. Rhan allweddol o'r gwaith hwn fydd edrych ar y rhwystrau y mae gwasanaethau wedi'u teilwra yn eu hwynebu wrth gyflenwi'r cymorth y mae dioddefwyr a goroeswyr â nodweddion gwarchodedig yn dibynnu arno. **Byddwn hefyd yn gweithio ar draws y Llywodraeth i adolygu tirwedd gwasanaethau cymorth trais rhywiol y trydydd sector ledled Cymru a Lloegr i nodi bylchau yn y ddarpariaeth ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol a chanolbwyntio cyllid yn unol â hynny.**

Byddwn yn defnyddio'r Gronfa Drawsnewid Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol i ymgorffori arferion gorau, gwella ansawdd y cymorth i blant o bob cefndir, ac adeiladu ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr.

249. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi darparu buddsoddiad ychwanegol sylweddol mewn gwasanaethau cymorth ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. **Mae'r Swyddfa Gartref a'r Weinyddiaeth Amddiffyn wedi dyblu'r cyllid sydd ar gael i sefydliadau'r sector gwirfoddol cenedlaethol trwy'r gronfa Cymorth i Ddioddefwyr a Goroeswyr Cam-drin Plant yn Rhywiol, i £2.4 miliwn rhwng 2020 a 2022.** Mae'r cyllid hwn yn galluogi ystod o wasanaethau cenedlaethol hanfodol i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr sydd yn blant ac yn oedolion, gan gynnwys: llinellau cymorth; cwnsela personol ac o bell; adnoddau seicoaddysgol ar-lein; hyfforddiant ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda dioddefwyr; a chymorth arbenigol i blant ag anableddau. Mae cyllid hefyd yn mynd i sefydliadau sy'n darparu cymorth i rieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, gan gydnabod y rôl hanfodol y maent yn ei chwarae wrth adfer plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin yn rhywiol.

ASTUDIAETH ACHOS

Cafodd Carly, sy'n awtistig ac yn ddieiriau, ei cham-drin yn rhywiol gan ei thad-cu mamol dros sawl blwyddyn. Fe wnaeth tad-cu Carly gamfanteisio ar ei hanabledd a chymerodd amser i'r cam-drin yr oedd yn ei ddioddef gael ei ddarganfod a'i ddeall yn llawn.

Wedi'i hariannu trwy Gronfa Cymorth i Ddioddefwyr a Goroeswyr Cam-drin Plant yn Rhywiol y Swyddfa Gartref, mae rhaglen Gadael y Dyfodol i Mewn yr NSPCC wedi datblygu cymorth therapiwtig i'r rheini rhwng 4 a 19 oed ag anableddau dysgu sydd wedi cael eu cam-drin yn rhywiol. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth sy'n rhoi sylw arbennig i hoff ffordd y plentyn o gyfathrebu, â mwy o bwyslais ar chwarae creadigol, celf a drama, ac yn caniatáu i therapi gael ei redeg ar gyflymder y person ifanc.

Mae rhieni Carly wedi gweld newid gwirioneddol yn eu merch ers ei hamser gyda'i hymarferydd NSPCC: *"Mae hi mor wahanolnawr. Mae hi'n gwenu, yn mynd i'r coleg a bydd yn mynd allan i gwrdd â ffrindiau."*

250. Yn 2020 lansiodd y Swyddfa Gartref Gronfa Drawsnewid Gwasanaethau Cymorth Cam-drin Plant yn Rhywiol newydd gwerth £2.8 miliwn i alluogi sefydliadau statudol ac anstatudol i hyrwyddo ac ymgorffori arferion gorau wrth gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi profi cam-drin yn rhywiol, ac i adeiladu ein dealltwriaeth o beth sy'n gweithio i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr. Mae prosiectau a gefnogir trwy'r gronfa yn helpu i: gwella ansawdd y cymorth i blant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini o gefndiroedd BAME; mynd i'r afael â'r rhwystrau i gyrchu cymorth cyn-dreial; a gwella gwaith amlasiantaethol rhwng comisiynwyr, darparwyr a chymunedau.
251. **Er mwyn cydnabod y rôl hanfodol y mae'r sector gwirfoddol yn ei chwarae, yn 2020 buddsoddodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder £4 miliwn yn ychwanegol mewn gwasanaethau cymorth trais rhywiol trwy'r Gronfa Cymorth Treisio a Cham-drin yn Rhywiol - gan ei gynyddu 50%, o £8 miliwn i £12 miliwn y flwyddyn o 2020.** Ers 2019, mae'r cyfnod cyllid grant hefyd wedi'i ymestyn i dair blynedd i ddarparu mwy o ddiogelwch a chynaliadwyedd mewn cyllid craidd ar gyfer partneriaid y sector gwirfoddol. Mae £1.88 miliwn o'r cyllid hwn wedi'i glustnodi'n benodol ar gyfer cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol diweddar a heb fod yn ddiweddar.

“Fe wnaethon nhw [Barnardo’s] gymryd yr amser i ddod i fy nabod, nid yn unig beth oedd wedi digwydd i mi na’r peth roeddwn i wedi’i wneud. Dyna a helpodd fi fwyaf, dwi’n meddwl. Roedd llawer o bobl eraill wedi ceisio siarad â mi am y peth ond aethant yn syth ato, wyddoch chi, fel... “dywedwch wrthyf am x” ac ni allwn. Allwn i ddim ei wneud fel ‘na.”

Merch, 15 oed

252. **Fe wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder hefyd ddyrannu £4.8 miliwn yn 2020/21 i PCCs i gomisiynu gwasanaethau yn benodol ar gyfer dioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant diweddar a heb fod yn ddiweddar ar draws eu cymunedau, yn ogystal â £4 miliwn ychwanegol y flwyddyn i recriwtio mwy o Gynghorwyr Annibynnol Trais Rhywiol (ISVAs) ledled Cymru a Lloegr** - mae hyn yn cynnwys recriwtio ISVAs plant a phobl ifanc i ddarparu'r cymorth sydd ei angen arnynt i blant sydd wedi profi cam-drin yn rhywiol i ymdopi ac adfer, ac i lywio'r system cyfiawnder troseddol.
253. Fel y cydnabyddir yn [Uwchgynhadledd Rithwir y Prif Weinidog ar Niweidiau Cudd](#) yn 2020, mae effaith COVID-19 a mesurau cadw pellter cymdeithasol wedi gwaethygu teimladau o unigedd ymhlith llawer o ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin. Mae hefyd wedi cyflwyno heriau sylweddol i'r sefydliadau hynny sy'n darparu cymorth hanfodol. Fel rhan o'r £750 miliwn ychwanegol a gyhoeddwyd gan y Canghellor i gefnogi'r sector elusennol yn ystod argyfwng COVID-19, **fe wnaeth y Weinyddiaeth Gyfiawnder fuddsoddi £10 miliwn i sicrhau y gallai dioddefwyr a goroeswyr trais rhywiol barhau i gyrchu cyngor a chymorth yn ystod y pandemig ac y gallai sefydliadau recriwtio mwy o staff, addasu i ddulliau cwnsela o bell a chadw llinellau cymorth ar agor am amseroedd hwy.**
254. Bydd llawer o ddioddefwyr a goroeswyr yn dewis cyrchu neu gael eu hatgyfeirio am gymorth gan Ganolfannau Atgyfeirio ar gyfer Ymosodiadau Rhywiol (SARCs) y mae eu gwasanaethau'n cynnwys gofal argyfwng, archwiliad meddygol fforensig, gofal iechyd rhywiol ac atgyfeirio ar gyfer cwnsela therapiwtig. **Er mwyn gwella cymorth i ddioddefwyr a goroeswyr sy'n cyrchu gwasanaethau SARC, gan gynnwys darpariaeth bediatreg, rydym wedi cynyddu gwariant o £31 miliwn yn 2018 i £39 miliwn yn 2020/21.**
255. Gan gydnabod y gall dioddefwyr a goroeswyr geisio cymorth yn gyntaf trwy wasanaethau iechyd cyffredinol, megis eu meddyg teulu, a gofyn am gymorth gan wasanaethau iechyd meddwl statudol, rydym am annog pob gweithiwr gofal iechyd proffesiynol a sefydliad i fabwysiadu ymagweddau sy'n wybodus am drawma. Mae hyn yn cynnwys deall effeithiau ac amlygiadau eang cam-drin plant yn rhywiol, ynghyd â sut i ymateb i ddatgeliad o gam-drin. Mae NHSEI yn datblygu deunyddiau hyfforddi ar ymagweddau sy'n wybodus am drawma, gan gynnwys sylwi ar arwyddion o drais, cam-drin ac iechyd meddwl gwael.

256. **Mae gan NHSEI gynlluniau helaeth ar waith i wella mynediad at ddarpariaeth iechyd meddwl i blant ac oedolion, ac agwedd allweddol ar y [Cyfeiriad Strategol ar gyfer Gwasanaethau Cam-drin yn Rhywiol ac Ymosodiadau Rhywiol](#) yw arfogi'r gweithlu iechyd â'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol i weithio gyda'r holl ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin yn rhywiol.** Mae NHSEI yn bwriadu profi a datblygu modelau o ddarpariaeth iechyd meddwl estynedig ar gyfer oedolion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i'w profiad o ymosodiad rhywiol neu gam-drin yn rhywiol, fel rhan o'i ymrwymiad i ddarparu gofal sy'n wybodus am drawma i ddioddefwyr a goroeswyr.

“Mae wedi cymryd deng mlynedd i weithiwr iechyd proffesiynol sylweddoli nad oes gen i anhwylder personoliaeth, yn hytrach bod angen i mi ddad-ddysgu sgiliau a addysgais i fi fy hun i oroesi cam-drin plant.”

Dioddefwr/goroeswr sy'n oedolyn

257. Er bod comisiynwyr lleol yn y sefyllfa orau i ddeall lefel yr angen yn eu hardal ac i gomisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr a goroeswyr yn unol â hynny, mae gan Lywodraeth genedlaethol ran i'w chwarae wrth eu helpu i gyflawni'r ddyletswydd hon. Yn 2019, fe wnaeth y Swyddfa Gartref gyhoeddi Fframwaith Comisiynu ar gyfer pob comisiynydd gwasanaethau cymorth cam-drin plant yn rhywiol. Byddwn yn adolygu ac yn diweddarau'r fframwaith hwn ac yn ceisio cyfleoedd pellach i rannu gwybodaeth ac arferion gorau comisiynu o bob cwr o'r wlad. **Byddwn yn cefnogi comisiynwyr i ddarparu gwasanaethau sy'n diwallu anghenion pob rhan o'r gymuned leol, waeth beth yw eu cefndir hiliol, diwylliannol neu economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys datblygu canllawiau newydd ar gyfer PCCs ar gefnogi lleiafrifoedd hiliol ac ethnig yn effeithiol trwy'r gwasanaethau cymorth lleol i ddioddefwyr y maent yn eu comisiynu.**
258. Fel rhan o'r Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched sydd ar ddod, byddwn hefyd yn sicrhau bod y Datganiad Disgwyliad Cenedlaethol yn parhau i fod yn gyfredol ac yn effeithiol, gan nodi pa gamau y mae'n rhaid i ardaloedd lleol eu rhoi ar waith i sicrhau y gall dioddefwyr a goroeswyr trais yn erbyn menywod a merched, gan gynnwys cam-drin rhywiol, gael yr help a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.
259. **Mae'r Llywodraeth yn cydnabod bod trais rhywiol hefyd yn cael effaith barhaol ar ddynion a bechgyn, a byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws llywodraeth leol a chenedlaethol, yr heddlu, a'r trydydd sector i gefnogi dioddefwyr a goroeswyr gwrywaidd.** Trwy ddarparu cyllid i wasanaethau cymorth treisio a thrais rhywiol, mae nifer y PCCs ledled y wlad sydd â chymorth a ariennir gan y Llywodraeth i ddynion wedi cynyddu o 11 i 41. Rydym wedi ariannu'r Llinell Gymorth Genedlaethol ar gyfer Goroeswyr Gwryw sy'n cael ei rhedeg gan [Safeline](#); y [Gwasanaeth Llinell Gymorth a Gwe-sgwrsio Cenedlaethol Ar-lein ar gyfer Goroeswyr Gwryw](#) sy'n cael ei redeg gan Survivors UK; ac wedi

cefnogi [adnodd newydd ar-lein](#) a ddatblygwyd gan Mankind UK, sydd yn cynnig adnoddau hunangymorth ac yn cyfeirio at gymorth i ddynion sydd wedi profi profiadau rhywiol digroeso, gan gynnwys cam-drin plant yn rhywiol. Yn ogystal, byddwn yn diweddarau'r Papur Sefyllfa Dioddefwyr Gwryw ac yn cryfhau ein hymrwymiad i gefnogi'r nifer cynyddol o ddioddefwyr a goroeswyr gwrywaidd sy'n dod ymlaen i riportio troseddau a gipiwyd yn y Strategaeth Mynd i'r Afael â Thrais yn erbyn Menywod a Merched sydd ar ddod, gan gynnwys cam-drin rhywiol plant heb fod yn ddiweddar.

260. Mewn ymateb i effaith ymosodiadau ac aflonyddu rhywiol yn y sector cymorth, a amlygwyd yn [Amcan 3.7](#), byddwn yn gweithredu rhaglen o gymorth i ddioddefwyr a goroeswyr sy'n gysylltiedig â'r sector cymorth rhyngwladol, ac yn gweithio ag Eiriolwr Dioddefwyr y Cenhedloedd Unedig i ddatblygu cydlynad rhyngwladol ar gymorth i ddioddefwyr a goroeswyr.
261. **Er mwyn gwella mynediad at gymorth, mae'n hanfodol bod dioddefwyr a goroeswyr, rhieni a gofalwyr nad ydynt yn cam-drin, ynghyd â gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant yn gwybod am y cymorth sydd ar gael. Mae COVID-19 wedi atgyfnerthu'r angen hwn ac rydym yn datblygu sawl menter wedi'i thargedu i fynd i'r afael ag ef:**
 - Bydd NHSEI yn codi ymwybyddiaeth ynghylch rôl a hygyrchedd SARCs ymhlith pob rhan o'r gymuned, gan gynnwys cymunedau LGBTQ+ a BAME.
 - Bydd y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn cyflenwi ymgyrch gyfathrebu i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau cymorth ar gyfer trais rhywiol ymhlith dioddefwyr a goroeswyr, gan gynnwys oedolion sydd wedi goroesi cam-drin plant yn rhywiol yn ddiweddar, fel y cyhoeddwyd yn yr Uwchgynhadledd Niweidiau Cudd yn 2020.
 - Ar gyfer plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-drin yn rhywiol, a gyda llai o fynediad ioedolion dibynadwy y tu allan i'r teulu o ganlyniad i COVID-19, mae'r Swyddfa Gartref mewn cydweithrediad ag adrannau eraill y Llywodraeth a'r trydydd sector wedi datblygu ymgyrch - [Something's Not Right \[Mae Rhywbeth o'i Le\]](#) - sy'n cyfeirio plant trwy'r cyfryngau cymdeithasol i gyngor a chymorth gan wasanaeth, oedolyn neu ffrind dibynadwy.
262. **Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i roi'r cymorth sydd ei angen ar ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol p'un a ydynt wedi gallu neu wedi dewis riportio eu cam-drin. Pan fydd unigolion yn dewis dilyn canlyniad cyfiawnder troseddol, p'un a ydynt yn oroeswr blentyn neu'n oedolyn, mae'n hanfodol eu bod yn cael eu cefnogi trwy gydol y broses hon.** Mae hyn nid yn unig yn bwysig i les dioddefwr ond bydd hefyd yn helpu asiantaethau cyfiawnder troseddol i gasglu'r dystiolaeth orau, gan wella'r gobaith o gyhuddiadau ac euogfarnau.

“Dywedais wrth un person ond yna roedd rhaid i mi ddweud wrth rai eraill hefyd. Gofynnais a allai fy ngweithiwr fod yn bresennol gyda fi - ni ddywedodd hi unrhyw beth ond roedd gwybod ei bod yno wedi fy helpu. Doeddwn i ddim yn gwybod, ond roeddwn i'n gwasgu ei llaw yn dynn iawn pan oeddwn i'n siarad â'r heddlu. Dywedodd hi wrthyf wedyn a dywedodd fy mod wedi gwneud yn dda iawn. Rydym yn chwerthin am ei dwylo coch nawr. Roedd o gymorth i'w chael hi yno.”

Merch, 11 oed

263. **Mae'r MoJ wedi cyhoeddi [Cod Dioddefwyr newydd, diwygiedig](#) yn nodi deuddeg hawl gyffredinol allweddol.** Mae'r rhain yn glir, yn gryno ac yn hawdd eu deall, gan nodi lefel y gwasanaeth y gall dioddefwyr ddisgwyl ei gael gan asiantaethau cyfiawnder troseddol. Mae'r Cod hefyd yn cynnwys hawl newydd i ddiodeffwyr cymwys gael eu cyfeirio fel mater o drefn at y Cynllun Cyswllt Dioddefwyr. Bydd yn dod i rym ar 1 Ebrill 2021 er mwyn caniatáu amser i asiantaethau cyfiawnder troseddol ymgorffori unrhyw newidiadau. Mae'r MoJ hefyd wedi ymrwymo i ymgynghori ar Ddeddf Dioddefwyr a fydd yn gwarantu bod dioddefwyr yn derbyn eu hawliau o dan y Cod a bod asiantaethau'n cael eu dwyn i gyfrif am eu cyflenwi.
264. **Gan gydnabod yr angen i ddarparu cymorth ychwanegol trwy gydol y broses cyfiawnder troseddol i blant ac oedolion sy'n ddiodeffwyr bregus, byddwn yn parhau i gynyddu'r defnydd o'r ystod iawn o fesurau arbennig ar eu cyfer,** yn ddarostyngedig i ddisgresiwn barnwrol ar geisiadau a wneir i'r Llys. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys Cyfweiliadau a Recrodir yn Weledol (Cyflawni'r Dystiolaeth Orau), dolenni byw i'r llys a chyfryngwyr cofrestredig. Yn ystod 2020, fe wnaethom ymestyn argaeledd Adran 28 Deddf Cyfiawnder leuenctid a Thystiolaeth Droseddol 1999 i fod ym mhob Llys y Goron yng Nghymru a Lloegr, gan ganiatáu i dystion sy'n agored i niwed recordio eu croesholiad yn weledol cyn y treial. Rydym hefyd wedi cyflwyno protocol wedi'i ddiweddarau ar gyfer gwefannau dolen fideo o bell ochr yn ochr â phroses archebu newydd, gan gynorthwyo dystion i roi eu tystiolaeth orau mewn lleoliad cymeradwy i ffwrdd o'r llys.
265. **Gan dynnu ar arferion gorau rhyngwladol, rydym hefyd yn datblygu cymorth arbenigol sy'n canolbwyntio ar y plentyn ar gyfer diodeffwyr a goroeswyr cam-drin yn rhywiol. [Mae'r Lighthouse \[Goleudy\]](#) yn Camden yn fenter beilot a gefnogir ar y cyd gan y Swyddfa Gartref, NHSEI, yr Adran Drafnidiaeth a Swyddfa Plismona a Throseddu'r Maer.** Yn seiliedig ar y model Nordig 'Barnahus' ('Tŷ'r Plentyn'), mae'r gwasanaeth amlddisgyblaethol yn cynnig asesiad cyfannol o anghenion plentyn ac yn darparu eiriolaeth, gofal meddygol, gofal cymdeithasol, cymorth therapiwtig a chyfiawnder troseddol i blant a'u rhieni nad ydynt yn cam-drin a gofawyr, a ddarperir gan dîm o sefydliadau'r sector statudol a'r sector gwirfoddol mewn un lleoliad sy'n addas i blant. Mae'r Lighthouse yn defnyddio mesurau arloesol i gynorthwyo plant â'r broses cyfiawnder troseddol, gan gynnwys Cyfweiliadau Cyflawni'r Dystiolaeth Orau a gynhelir gan seicolegwyr clinigol hyfforddedig (â chymorth yr heddlu); dolenni byw i'r llys

o'r Lighthouse i leihau'r trawma i blant o ymddangos yn y llys i'w croesholi; a Swyddogion Cyswllt yr Heddlu wedi'u hymgorffori sy'n darparu cyngor a chydgyssylltiad ag asiantaethau a gwasanaethau lleol.

266. Gan adeiladu ar y dysgu o gyfnod peilot y Lighthouse, a fydd yn rhedeg tan fis Mawrth 2022, byddwn yn cyhoeddi canllawiau i gomisiynwyr lleol a darparwyr gwasanaeth sy'n ceisio cyflwyno modelau cymorth 'Tŷ'r Plentyn' i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin plant yn rhywiol, a byddwn yn ystyried sut y gall cyllid cenedlaethol a lleol gefnogi datblygu mentrau lleol tebyg.

ASTUDIAETH ACHOS

Aethpwyd â Max, 11 oed, a'i chwaer Victoria, 10 oed ag anhawster dysgu, i'r Lighthouse ar gyfer eu cyfweliad Cyflawni'r Dystiolaeth Orau ar ôl i Victoria ddatgelu yn yr ysgol fod ei llys-dad wedi bod yn cam-drin hi a'i brawd yn rhywiol.

Cafodd Victoria a Max eu cyfarch gan ddau eiriolwr mewn amgylchedd cyfeillgar i blant. Rhoddodd Victoria gyfweliad ar y diwrnod hwnnw, ond roedd ei brawd yn amharod i siarad Ar ôl cyfnod o sesiynau gyda'i eiriolwr ei hun, roedd Max hefyd yn teimlo y gallai roi cyfweliad Cyflawni'r Dystiolaeth Orau. Roedd y Lighthouse yn gallu rhyddhau'r holl nodiadau perthnasol (meddygol, therapiwtig ac eirioli) yn gyflym i gefnogi ymchwiliad cyflym gan yr heddlu, ac roedd y dystiolaeth o ansawdd uchel a gasglwyd yn amgylchedd Y Lighthouse yn golygu bod y CPS, o fewn chwe mis, yn gallu cyhuddo eu llys-dad, a blediodd yn euog ac a gafwyd yn euog heb yr angen i'r plant gael eu croesholi yn y llys.

267. Yn aml bydd angen i ddioddefwyr a goroeswyr cam-drin rhywiol gael mynediad at gymorth therapiwtig trwy wahanol gamau o'r system cyfiawnder troseddol. Fodd bynnag, rydym yn gwybod y gall fod canfyddiad y bydd darparu therapi cyn-treial yn niweidio achos yr erlyniad, gan adael dioddefwyr a goroeswyr heb y cymorth sydd ei hangen arnynt ac y mae ganddynt hawl iddo. **Mae'r CPS yn diweddarau canllawiau ar y mater hwn, gan bwysleisio pwysigrwydd lles dioddefwyr ac yn annog mynediad prydlon i therapi i gynorthwyo adferiad a darparu'r dystiolaeth orau mewn achos troseddol.**

“Dywedwyd wrthyf nad oeddwn yn cael siarad am fy mhrofiadau gydag unrhyw un oherwydd y gallai niweidio'r ymchwiliad byw a chael ei ddefnyddio yn fy erbyn yn y llys, gan ei fod yn cael ei ystyried yn hyfforddi neu'n rhagymarfer. Felly roeddwn yn sownd ar fy hun i geisio amgyffred a goresgyn yn emosiynol y peth gwaethaf sydd wedi digwydd i mi erioed, heb unrhyw gefnogaeth. Arweiniodd hyn at sefyllfa lle roeddwn yn brwydro yn erbyn materion iechyd meddwl.”

Merch, 19 oed

268. **Yn olaf, mae'n bwysig bod dioddefwyr a goroeswyr yn ymwybodol o fodd gwneud iawn am y cam-drin y maent wedi'i ddioddef, ac yn gallu ei gyrchu'n effeithiol, gan gynnwys trwy iawndal lle mae hynny'n briodol.** Rydym wedi diwygio'r Cynllun Iawndal am Anafiadau Troseddol a ariennir gan y wladwriaeth i ddileu'r rheol “yr un to” cyn 1979. Yn dilyn adolygiad eang ac ymgynghoriad cyhoeddus ar ddiwygiadau i'r Cynllun, bydd y Llywodraeth yn cyhoeddi ei hymateb maes o law ac yn gosod Cynllun newydd yn y Senedd i'w gymeradwyo. Mae gwaith hefyd yn mynd rhagddo i gyflymu'r broses o bennu iawndal ac i wella'r broses o drin hawliadau cymhleth a sensitif, megis ar gyfer cam-drin plant yn rhywiol. Rydym wedi [ymateb i argymhellion yr IICSA ar atebolrwydd a gwneud iawn](#), gan gynnwys cynnig i archwilio pam mae llysoedd yn gwneud niferoedd isel o orchmynion iawndal troseddol mewn achosion o gam-drin plant yn rhywiol, a sut y gallwn wella mynediad i wneud iawn trwy'r llysoedd sifil.

Geirfa

Cam-drin yw math o gamarfer plentyn. Gall rhywun gam-drin neu esgeuluso plentyn trwy beri niwed, neu drwy fethu â gweithredu i atal niwed. Gall niwed gynnwys triniaeth wael nad yw'n gorfforol yn ogystal ag effaith gweld pobl eraill yn cael eu trin yn wael. Gall hyn fod yn arbennig o berthnasol er enghraifft mewn perthynas ag effaith pob math o gam-drin domestig ar blant. Gall plant gael eu cam-drin mewn teulu neu mewn lleoliad sefydliadol neu gymunedol gan y rhai sy'n adnabyddus iddynt neu, yn fwy anaml, gan eraill. Gall cam-drin ddigwydd yn gyfan gwbl ar-lein, neu gellir defnyddio technoleg i hwyluso cam-drin all-lein. Gall plant gael eu cam-drin gan oedolyn neu oedolion, neu blentyn arall neu blant ereill. Fel y cymerwyd o [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg mae](#).

Plentyn yn cyfeirio at unrhyw berson o dan 18 oed.

Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSA) - mae'n golygu gorfodi neu ddenu plentyn neu berson ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol, heb o reidrwydd yn cynnwys lefel uchel o drais, p'un a yw'r plentyn yn ymwybodol o'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Gall y gweithgareddau gynnwys cyswllt corfforol, gan gynnwys ymosod trwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad. Gallant hefyd gynnwys gweithgareddau digyswllt, megis cynnwys plant wrth edrych ar, neu wrth gynhyrchu, delweddu rhywiol, gwyllo gweithgareddau rhywiol, annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd rhywiol amhriodol, neu feithrin perthynas amhriodol â hplentyn i baratoi ar gyfer cam-drin. Gall cam-drin yn rhywiol ddigwydd ar-lein a gellir defnyddio technoleg i hwyluso cam-drin all-lein. Nid dynion sy'n oedolion yn unig sy'n cyflawni cam-drin rhywiol. Gall menywod hefyd gyflawni gweithredoedd cam-drin rhywiol, fel y gall plant eraill. Fel y cymerwyd o [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg mae](#).

Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) - mae hwn yn fath o gam-drin plant yn rhywiol. Mae'n digwydd pan yw unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, trin neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed i gymryd rhan mewn gweithgaredd rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth sydd ei angen neu ei eisiau ar y dioddefwr, a/neu (b) er budd ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd. Efallai fod y dioddefwr wedi profi camfanteisio'n rhywiol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Nid yw camfanteisio'n rhywiol ar blant bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall hefyd ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg. Fel y cymerwyd o [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg mae](#).

Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM) yn cyfeirio at unrhyw gynrychiolaeth trwy ba bynnag fodd o blentyn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol eglur go iawn neu efelychiedig neu unrhyw gynrychiolaeth o rannau rhywiol plentyn at ddibenion rhywiol yn bennaf. Fel y'i defnyddir yn [Y Protocol Dewisol i'r Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn ar werthu Plant, Puteindra Plant a Phornograffi Plant](#).

Amddiffyn Plant - mae hwn yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae hyn yn cyfeirio at y gweithgareddau a wneir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol. Fel y cymerwyd o [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg mae](#).

Cam-drin Plant yn Rhywiol â Chyswilt - mae hwn yn disgrifio pan yw camdriniwr yn cysylltu'n gorfforol â phlentyn a gall gynnwys ymosodiad trwy dreiddio (er enghraifft, treisio neu gyfathrach eneuol) neu weithredoedd nad ydynt yn dreiddiol megis mastyrbio, cusanu, rhwbio a chyffwrdd y tu allan i ddillad.

Niweidiau y Tu Allan i'r Teulu, neu fygythiadau, yw bygythiadau a/neu hyglwyfder i gam-drin neu gamfanteisio o'r tu allan i deulu plentyn. Gallai'r bygythiadau hyn godi yn yr ysgol a sefydliadau addysgol eraill, o fewn grwpiau cymheiriaid, neu o'r gymuned ehangach a/neu ar-lein. Gallant fod ar sawl ffurf wahanol a gall plant fod yn agored i fygythiadau lluosog, gan gynnwys: camfanteisio gan gangiau troseddol a grwpiau troseddu cyfundrefnol megis llinellau cyffuriau; masnachu pobl; cam-drin ar-lein; camfanteisio'n rhywiol; a dylanwadau eithafiaeth yn arwain at radicaleiddio. Fel y nodwyd yn [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg mae](#).

Paratoi i bwrpas rhyw yn golygu pan yw rhywun yn adeiladu perthynas, ymddiriedaeth a chysylltiad emosiynol â phlentyn neu berson ifanc fel y gallant eu trin, camfanteisio arnynt a'u cam-drin. Gall y rhai sy'n paratoi i bwrpas rhyw hefyd adeiladu perthynas â theulu neu ffrindiau'r person ifanc er mwyn gwneud iddynt ymddangos yn ddibynadwy neu'n awdurdodol. Gall plant a phobl ifanc gael eu paratoi i bwrpas rhyw ar-lein, yn bersonol neu'r ddau - gan ddieithryn neu rywun maent yn ei adnabod. Fel y nodir gan yr [NSPCC, deallir](#).

Ymddygiad Rhywiol Niweidiol fel ymddygiadau rhywiol a fynegir gan blant o dan 18 oed sy'n amhriodol yn ddatblygiadol, a allai fod yn niweidiol tuag atynt eu hunain neu eraill, ac a all fod yn ymosodol mewn rhai achosion (Yn deillio o Hackett, 2014). Mae ymddygiad rhywiol plant yn bodoli ar gontinwrm eang a phan yw ymddygiad rhywiol plentyn yn broblemus, yn ymosodol neu'n dreisgar, gall hyn fod yn niweidiol yn ddatblygiadol i'r plentyn sydd yn arddangos yr ymddygiad ac yn erlid eraill. Gall ymddygiadau rhywiol niweidiol ddigwydd all-lein ac ar-lein ac, mewn rhai achosion, gellir eu dosbarthu fel cam-drin rhwng cymheiriaid. Gall ymddygiadau rhywiol niweidiol mewn plant hefyd fod yn symptom o'u camdriniaeth eu hunain neu amlygiad i arferion a/neu ddeunyddiau camdriniol.

Niweidiau o Fewn y Teulu, neu gam-drin - mae hwn yn cyfeirio at weithredoedd sy'n digwydd mewn amgylchedd teuluol. Gall cyflawnwyr fod yn perthyn i'r plentyn neu beidio. Yr ystyriaeth allweddol yw a yw'r camdriniwr yn teimlo fel rhan o'r teulu o safbwynt y plentyn. Wedi'i gymryd o [Negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol o fewn teuluoedd y Ganolfan Arbenigedd](#).

Delweddau Anweddus o Blant - mae hyn yn ymwneud â ffotograffau neu ffotograffau 'ffug' o blant. Delwedd wedi'i gwneud gan graffeg gyfrifiadurol neu fel arall sy'n ymddangos fel ffotograff yw ffotograff ffug. Gall hyn gynnwys lluniau, fideos, dargopiâu a deilliadau ffotograff neu ddata y gellir eu trosi'n ffotograff. Er nad yw 'anweddus' wedi'i ddiffinio mewn deddfwriaeth, gall gynnwys gweithgareddau rhywiol treiddiol ac heb fod yn dreiddiol, fel y nodir yn [Delweddau anweddus o blant: canllawiau ar gyfer pobl ifanc](#).

Caethwasiaeth Fodern - mae hon yn cynnwys masnachu, caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur dan orfod neu orfodol at ddibenion camfanteisio. Diffinnir masnachu pobl yn Erthygl 4 o Gonfensiwn Cyngor Ewrop yn Erbyn Masnachu Pobl. Fodd bynnag, at ddibenion masnachu pobl, yn achos plentyn nid oes unrhyw ofyniad i fodloni'r gydran 'modd' o fewn y diffiniad hwnnw gan nad yw plentyn yn gallu rhoi caniatâd gwybodus. Felly, ystyrir bod unrhyw blentyn sy'n cael ei recriwtio, ei gludo, ei drosglwyddo, ei lochesu neu ei dderbyn at ddibenion camfanteisio yn ddioddefwr masnachu pobl,

p'un a yw wedi cael ei orfodi neu ei dwyllo ai peidio. Fel y cymerwyd o [Canllawiau ar gyfer Gofalu am blant mudol ar eu pen eu hunain a phlant sydd wedi dioddef](#) mewn addysg.

Cam-drin Plant yn Rhywiol Ar-lein - mae hwn yn golygu pan yw troseddwy'r rhyw â phlant yn defnyddio'r rhyngwrdd i weld a rhannu Deunydd Cam-drin Plant yn Rhywiol (CSAM), paratoi plant i ddiben rhyw ar-lein, a/neu ffrydio cam-drin plant yn rhywiol. Fel y cymerwyd o [Papur Gwyn Niweidiau Ar-lein](#).

Cam-drin gan Gymheiriaid - mae hwn yn digwydd pan yw cymar o oedran tebyg yn camfanteisio ar blentyn neu'n ei niweidio. Cyfeirir at hyn yn gyffredinol fel cam-drin gan gymheiriaid a gall fod ar sawl ffurf. Gall hyn gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i): cam-drin o fewn perthnasoedd partneriaid agos; bwllo (gan gynnwys seiberfwlio); trais rhywiol ac aflonyddu rhywiol; cam-drin corfforol megis taro, cicio, ysgwyd, brathu, tynnu gwallt, neu achosi niwed corfforol fel arall; trais a defodau o fath secstio ac urddo/plagio. Fel y cymerwyd o [Canllawiau cadw plant yn ddiogel](#) mewn addysg.

Diogelu yw'r camau a gymerir i amddiffyn plant rhag camarfer. Mae hyn hefyd yn cynnwys atal amhariad ar ieched neu ddatblygiad meddwl a chorfforol plant; sicrhau bod plant yn tyfu i fyny mewn amgylchiadau sy'n gyson â darparu gofal diogel ac effeithiol; a gweithredu i alluogi pob plentyn i gael y canlyniadau gorau. Fel y cymerwyd o [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg mae](#).

Partneriaid Diogelu - diffinir y rhain fel: (a) yr awdurdod lleol; (b) grŵp comisiynu clinigol ar gyfer ardal y mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn ardal yr awdurdod lleol; ac (c) prif swyddog heddlu ardal y mae unrhyw ran ohoni'n dod o fewn ardal yr awdurdod lleol. Fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Plant 2004 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Plant a Gwaith Cymdeithasol, 2017) ac y cyfeirir ati yn [Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Plant yr Adran Addysg](#).

Rhannu lluniau noeth a lled-noeth - mae hyn yn golygu anfon neu bostio delweddau, fideos neu ffrydiau byw noeth neu led-noeth gan bobl ifanc o dan 18 oed ar-lein. Gallai hyn fod trwy'r cyfryngau cymdeithasol, llwyfannau gemau cyfrifiadurol, apiau sgwrsio neu fforymau. Gallai hefyd gynnwys rhannu rhwng dyfeisiau trwy wasanaethau megis AirDrop Apple sy'n gweithio all-lein. Fel y nodir yn [Rhannu lluniau noeth a lled-noeth: cyngor ar gyfer lleoliadau addysg sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc](#) Cyngor y DU ar gyfer Diogelwch y Rhyngwrdd.

Troseddwy'r Trawswladol Rhyw â Phlant - mae hyn yn cyfeirio at y gwladolion a'r preswylwyr hynny o'r DU sy'n teithio o'r wlad ac yn cam-drin plant yn rhywiol ac yn camfanteisio arnynt yn rhywiol dramor. Fel y cymerwyd o Adroddiad yr Ymchwiliad Plant y Tu Allan i'r Deyrnas Unedig [gan yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol](#).

Llyfryddiaeth

- Goroeswyr APPG sy'n Oedolion o Gam-drin Rhywiol yn ystod Plentyndod (2020) [A all oedolion sydd wedi goroesi cam-drin rhywiol yn ystod plentyndod gyrchu cymorth cyfiawnder?](#)
- Canolfan arbenigedd (2018) [Negeseuon allweddol o ymchwil ar blant a phobl ifanc sy'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol.](#)
- Canolfan arbenigedd (2019) [Nodweddion a phrofiadau plant a phobl ifanc sy'n mynychu Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Saint Mary, Manceinion Fwyaf.](#)
- Canolfan arbenigedd (2019) [Negeseuon allweddol o ymchwil ar blant sy'n derbyn gofal a cham-drin plant yn rhywiol.](#)
- Canolfan arbenigedd (2019) [Negeseuon allweddol ar nodi ac ymateb i ddatgeliadau o gam-drin plant yn rhywiol.](#)
- Canolfan arbenigedd (2019) [Mesur graddfa a natur newidiol CSA.](#)
- Canolfan arbenigedd (2019) [Mesur graddfa a natur newidiol cam-drin plant yn rhywiol. Dadansoddiad o ddata swyddogol ac asiantaethol 2017/18.](#)
- Canolfan arbenigedd (2020) [Teipoleg newydd o droseddu cam-drin plant yn rhywiol.](#)
- Canolfan arbenigedd (2020) [Negeseuon allweddol o ymchwil ar gam-drin plant yn rhywiol a gyflawnir gan oedolion.](#)
- Adran Addysg (2017) [Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant: Diffiniad a chanllaw ar gyfer ymarferwyr.](#)
- Adran Addysg (2018) [Cydweithio i ddiogelu plant 2018.](#)
- Adran Addysg (2020) [Nodweddion plant mewn angen 2019-20.](#)
- Erooga, M., a Masson, H. (Golygyddion). (2006) *Plant a phobl ifanc sy'n cam-drin eraill yn rhywiol: Datblygiadau cyfredol ac ymatebion ymarfer.* Routledge.
- Euser S., et al. (2013) Cyffredinrwydd achosion o gam-drin plant yn rhywiol mewn gofal y tu allan i'r cartref: cymhariaeth rhwng cam-drin mewn gofal preswyl a gofal maeth. *Camarfer Plant*, 18(4) tt 221-31.
- Y Swyddfa Gartref (2020) [Tablau data agored troseddau a chanlyniadau a gofnodwyd gan yr heddlu:](#) y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2020.
- Y Swyddfa Gartref (2020) [Nodweddion camfanteisio'n rhywiol ar blant yn y gymuned.](#)
- Y Swyddfa Gartref (heb ei gyhoeddi) Cost Economaidd a Chymdeithasol Cam-drin Plant yn Rhywiol â Chyswllt.
- Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2017) [Effeithiau cam-drin plant yn rhywiol: Asesiad tystiolaeth cyflym.](#)

- Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2018) [Asesiad Tystiolaeth Cyflym - Nodweddion a gwendidau dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol a chamfanteisio'n rhywiol ar blant a hwylusir ar-lein.](#)
- Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2018) [Adroddiad Interim yr Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol.](#)
- Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2020) ["Nid yw pobl yn siarad amdano": Cam-drin plant yn rhywiol mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig.](#)
- Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol (2020) [Yr Adroddiad Ymchwilio i'r Rhyngrwyd.](#)
- Internet Watch Foundation (2018) [Tueddiadau mewn Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant Ar-lein: Archwilio Dosbarthiad Cipiadau Cam-drin Plant yn Rhywiol wedi'u Ffrydio'n Fyw.](#)
- Internet Watch Foundation (2020) [Adroddiad Blynyddol IWF 2019 - Dim Goddefgarwch.](#)
- Jay, A. (2014) [Ymchwiliad Annibynnol i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant yn Rotherham \(1997-2013\).](#)
- JTAI (2020) [Yr ymateb amlasiantaethol i gam-drin plant yn rhywiol yn amgylchedd y teulu.](#)
- Livingstone et al (2011) [Risgiau a diogelwch ar y Rhyngrwyd.](#)
- McPhail, I.V. et al., Hermann, C.A., Fernane, S., Fernandez, Y.M., Nunes, K.L., a Cantor, J.M. (2019). Dilysrwydd profion phalometrig ar gyfer pedohebeffilia: Adolygiad meta-ddadansoddol. Asesiad, 26(3), 535-551.
- Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2020) [Ystadegau system cyfiawnder troseddol bob chwarter: Rhagfyr 2019.](#)
- Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (2019) [Ystadegau'r Mekanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol - Crynodeb Diwedd y Flwyddyn 2018.](#)
- Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (2019) [Asesiad Strategol Cenedlaethol 2019.](#)
- Asiantaeth Troseddu Genedlaethol (2020) [Asesiad Strategol Cenedlaethol 2020.](#)
- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (2017) [Proffiliau problemau CSE rhanbarthol.](#)
- NSPCC (2014) [Amcangyfrif costau cam-drin plant yn rhywiol yn y DU.](#)
- NSPCC (2019) [Pa mor ddiogel yw ein plant?](#)
- NSPCC (2020) [Effaith y pandemig coronafeirws ar les plant: cam-drin ar-lein.](#)
- NSPCC (2020) [Effaith y pandemig coronafeirws ar les plant: cam-drin yn rhywiol.](#)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) [Cam-drin plant yn rhywiol yng Nghymru a Lloegr: y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2019.](#)
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (2020) [Troseddu yng Nghymru a Lloegr y flwyddyn a ddaeth i ben Mawrth 2019: Tablau atodiad.](#)

- Swyddfa'r Comisiynydd Plant (2015). [Amddiffyn Plant rhag Niwed: Asesiad beirniadol o gam-drin plant yn rhywiol yn y rhwydwaith teuluol yn Lloegr.](#)
- Swyddfa'r Comisiynydd Plant (2012). [Ymchwiliad i Gamfanteisio'n Rhywiol ar Blant mewn Gangiau a Grwpiau \(Adroddiad Interim\).](#)
- Pearce (2009). Pobl Ifanc a Camfanteisio'n Rhywiol. Llundain: Routledge.
- Radford, L. et al. (2011) Cam-drin ac Esgeuluso Plant yn y Deyrnas Unedig Heddiw.
- Seto, M. C. (2019) 'Y model ysgogi-hwyluso ar gyfer troseddu rhywiol.' Cam-drin yn Rhywiol 31 (1) tt 3-24.
- [Stop It Now! \[Stopiwch Nawr\]](#) (2020)
- Cynghair Fyd-eang WeProtect (2019). [Asesiad Bygythiad Byd-eang 2019.](#)
- Whitaker, Daniel J., et al. (2008) "Ffactorau risg ar gyfer cyflawni cam-drin plant yn rhywiol: Adolygiad a meta-ddadansoddiad." Cam-drin ac esgeuluso plant 32 (5) tt 529-548.

